# Adroddiad Amgylcheddol

## Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft Gorllewin Cymru

Rhif Diw. 1.0

Hydref 2014

Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol

Byddwn yn gweithio dros gymunedau Cymru er mwyn diogelu pobl a'u cartrefi cymaint â phosibl rhag digwyddiadau amgylcheddol fel llifogydd a llygredd. Byddwn yn rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu am adnoddau naturiol Cymru, eu defnyddio a chael budd ohonynt.

Byddwn yn gweithio er budd economi Cymru ac yn sicrhau y gellir defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy er mwyn cefnogi swyddi a menter. Byddwn yn helpu busnesau a datblygwyr i ddeall ac ystyried cyfyngiadau amgylcheddol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau pwysig.

Byddwn yn gweithio i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd i bawb. Byddwn yn gweithio tuag at wneud yr amgylchedd ac adnoddau naturiol yn fwy gwydn i newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill.

# Crynodeb Annhechnegol

Mae cynlluniau rheoli perygl llifogydd yn tynnu sylw at y bygythiadau a'r peryglon sy'n gysylltiedig ag afonydd, y môr, dŵr wyneb, dŵr daear a chronfeydd dŵr ac yn nodi sut y bydd awdurdodau rheoli perygl llifogydd yn cydweithio â chymunedau i reoli'r perygl o lifogydd. Mae'r cynlluniau hyn yn ofynnol o dan Gyfarwyddeb Llifogydd yr Undeb Ewropeaidd a Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009.

Yn ystod y cylch cyntaf hwn o gamau i weithredu'r rheoliadau, mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd baratoi cynlluniau rheoli perygl llifogydd ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan sy'n ymdrin â llifogydd o brif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr. Rhaid i'r awdurdodau llifogydd lleol arweiniol baratoi cynlluniau rheoli perygl llifogydd mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Mae dau awdurdod o'r fath yn Ardal Basn Afon (ABA) Gorllewin Cymru, sef Cyngor a Dinas Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Rhaid adolygu ac ailgyhoeddi'r cynlluniau rheoli perygl llifogydd bob chwe blynedd er mwyn disgrifio cynnydd.

Caiff cynllun rheoli perygl llifogydd Gorllewin Cymru ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2015 a bydd yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 2015 a 2021. Cynhelir ymgynghoriad ar y cynllun drafft rhwng 10 Hydref 2014 a 31 Ionawr 2015. Mae'n disgrifio'r perygl o lifogydd yn yr ardal basn afon ac yn nodi'r mesurau sydd ar waith ar hyn o bryd i reoli'r perygl o lifogydd, ynghyd â mesurau newydd a gynigir.

## Ardal basn afon Gorllewin Cymru

Mae Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn cynnwys ardal 16,653 cilomedr sgwâr. Mae'n gorchuddio hanner gorllewinol Cymru i gyd, o Fro Morgannwg yn y de i Sir Ddinbych yn y gogledd.

Mae'r prif ganolfannau poblogaeth i gyd ar yr arfordir ac yn y rhan orllewinol o Gymoedd De Cymru. Y prif ganolfannau trefol yw Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd yn y de, Aberystwyth ar arfordir y canolbarth, a Bangor yn y gogledd. Ardal wledig ydyw yn bennaf a chaiff y rhan fwyaf o'r tir ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth.

Mae diwydiannau morol, olew a nwy ffyniannus yn weithgareddau economaidd hollbwysig, ynghyd â diwydiant trwm fel y gweithfeydd dur ym Mhort Talbot a physgodfeydd masnachol a thwristiaeth ar hyd arfordir Cymru.

## Asesiad amgylcheddol strategol

Gall cynllun rheoli perygl llifogydd drafft Gorllewin Cymru effeithio ar bobl a'r amgylchedd. Mae'n ofynnol o dan y gyfraith i gynnal asesiad amgylcheddol strategol (AAS) o'r math hwn o gynllun er mwyn nodi'r effeithiau hynny, argymell sut y gellir ymdrin â nhw ac ystyried ffyrdd gwahanol o ddatblygu'r cynllun.

Isod, ceir crynodeb o effeithiau tebygol y cynllun ar yr amgylchedd ehangach, unrhyw fesurau lliniaru sydd eu hangen er mwyn rheoli'r effeithiau negyddol a chyfleoedd i sicrhau manteision amgylcheddol:

Aseswyd y gallai'r cynllun rheoli basn afon (CRhBA) gael effaith ar y gwasanaethau ecosystem canlynol:

### Gwasanaethau darparu

- **Bwyd (e.e. cnydau, ffrwythau, pysgod):** effaith negyddol fach yn lleol oherwydd gallai tir amaethyddol gael ei ddefnyddio er mwyn adeiladu a/neu aildrefnu amddiffynfeydd. Rhaid pwyso a mesur yr effaith hon yn erbyn y manteision y gellid eu sicrhau pan fo mesurau i reoli’r perygl o lifogydd yn amddiffyn tir amaethyddol. Gall mesurau amddiffyn gael effaith negyddol ar gynefinoedd pysgodfeydd. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i bob cynllun rheoli perygl llifogydd gydymffurfio â rheoliadau Ewropeaidd i sicrhau hynt pysgod a llysywod.  Chwilir am gyfleoedd i gynlluniau wella cynefinoedd a llwybrau pysgod, yn unol ag argymhellion CRhBA.

### Gwasanaethau rheoleiddio

- **Rheoleiddio Dŵr (e.e. llifogydd):** effaith gadarnhaol fach ar draws yr ABA, a fyddai o bwys lleol yn y cymunedau penodol lle cymerir camau i leihau'r perygl o lifogydd i bobl ac eiddo.
- **Rheoleiddio Pridd ac Erydiad:** effaith gadarnhaol fach ar draws yr ABA o ganlyniad i leihad yn y perygl o ddifrod mawr yn sgil stormydd ac erydu gan lifogydd a hefyd o ganlyniad i newidiadau mewn trefniadau carthu cyrsiau dŵr.

### Gwasanaethau diwylliannol

- **Treftadaeth Ddiwylliannol:** effaith negyddol fach am y gall mesurau darfu ar archeoleg gladdedig nas gwyddys amdani ac effeithio ar nodweddion hysbys o'r dreftadaeth ddiwylliannol a thirweddau. Asesiad rhagofalus yw hwn o gofio bod cryn ansicrwydd ynglŷn â chynllun y mesurau. Er mwyn gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, bydd hi'n bwysig bod unrhyw gynlluniau unigol yn nodi, cyn gynted â phosibl, unrhyw asedau treftadaeth sydd wedi'u dynodi neu sydd heb eu dynodi, gan gynnwys y risg o archeoleg gladdedig nas gwyddys amdani, er mwyn nodi unrhyw effeithiau andwyol posibl yn ogystal â chyfleoedd gwella; penderfynu a ddylid gweithredu yn sgil arwyddocâd yr asedau treftadaeth a'r effeithiau tebygol; llywio opsiynau'r cynllun a'r dyluniadau manwl; a llunio strategaeth liniaru briodol. Mae angen pwyso a mesur yr effaith hefyd yn erbyn y diogelwch y mae mesurau sydd ar waith eisoes, mesurau y cytunwyd arnynt a mesurau arfaethedig yn ei gynnig i asedau treftadaeth ddiwylliannol.
- **Hamdden a Thwristiaeth (gan gynnwys mannau glas a gwyrdd hygyrch):** effaith negyddol fach ar hamdden a thwristiaeth yn lleol, oherwydd gall cynlluniau lliniaru llifogydd arwain at golli tir hamdden neu dir amwynder, amharu ar hawliau tramwy cyhoeddus a newid lefelau dŵr a allai effeithio ar weithgareddau dŵr. Gellir lliniaru hyn drwy gynnwys buddiannau perthnasol yn gynnar yn y prosiect er mwyn nodi effeithiau posibl a chytuno ar gamau lliniaru sy'n benodol i'r cynllun. Chwilir am gyfleoedd i gynlluniau wella mynediad cyhoeddus, adnoddau dehongli a rhwydweithiau llwybrau troed a beicio, a gwella tir hamdden a thir amwynder.
- **Gwerth Esthetig (e.e. tirwedd, morlun, tawelwch):** effaith negyddol fach yn lleol yn dibynnu ar leoliad y cynlluniau rheoli perygl llifogydd, y math o gynlluniau dan sylw a'u dyluniad. Bydd y camau a gymerir i liniaru effeithiau negyddol posibl yn cynnwys ymgynghori'n gynnar yn y prosiect â buddiannau perthnasol o ran y dirwedd ac, os oes angen, cynnal asesiadau o effeithiau gweledol a'r effaith ar y dirwedd er mwyn helpu i ddylunio'r cynllun a lliniaru'r effaith.

### Gwasanaethau ategol

- **Darparu Cynefinoedd:** effaith negyddol fach. Caiff mesurau sydd ar waith eisoes a mesurau y cytunwyd arnynt o dan Gynllun Rheoli Traethlin drafft yr ail genhedlaeth eu hategu gan brosiectau darparu cynefinoedd cydadferol o dan y Rhaglen Creu

Cynefinoedd Genedlaethol. Gall mesurau arfaethedig gael effaith leol yn dibynnu ar leoliad y cynlluniau rheoli perygl llifogydd, y math o gynlluniau dan sylw a'u dyluniad.  Bydd y camau a gymerir i liniaru effeithiau negyddol posibl ar gynefinoedd a rhywogaethau yn cynnwys ymgynghori'n gynnar â buddiannau ym maes cadwraeth natur er mwyn nodi ac asesu unrhyw effeithiau posibl ar lefel prosiect (gan gynnwys safleoedd y dynodwyd eu bod o ddiddordeb o ran cadwraeth natur a rhywogaethau a warchodir) a chytuno ar gamau lliniaru sy'n benodol i'r cynllun. Drwy ymgynghori'n gynnar â buddiannau ym maes cadwraeth natur, bydd modd nodi cyfleoedd i greu cynefinoedd, gan wella amrywiaeth cynefinoedd a chyflwr a chysylltedd safleoedd, a nodi cyfleoedd i wella llwybrau pysgod a llysywod a chynefinoedd eraill ar gyfer rhywogaethau a warchodir.

Yn gyffredinol, rhagwelir y caiff cynllun rheoli perygl llifogydd drafft Gorllewin Cymru effaith gadarnhaol ar reoleiddio dŵr a rheoleiddio pridd ac erydiad, gan ei fod yn cynnig mesurau i reoli'r perygl o lifogydd i'r cymunedau a'r asedau hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Gellir lleihau'r effeithiau negyddol a nodwyd ar lefel prosiectau drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwaith dylunio amgylcheddol da a chymorth y Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol. Nodwyd cysylltiadau a gwrthdaro posibl â CRhBA Gorllewin Cymru hefyd er mwyn helpu i weithredu mesurau'r CRhPLl.

Er mwyn cadarnhau bod hyn yn digwydd, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro effeithiau'r cynllun ar yr amgylchedd. Bydd hyn yn digwydd yn bennaf drwy'r cynllun rheoli basn afon a fydd yn arwain at adroddiad blynyddol ar agweddau amrywiol ar ansawdd dŵr. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn defnyddio gwybodaeth sydd ar gael yn hawdd a gwybodaeth a gesglir yn rheolaidd gan ffynonellau presennol er mwyn monitro newidiadau sy'n gysylltiedig â'r effeithiau amgylcheddol eraill a ragwelir. Fel hyn, gall Cyfoeth Naturiol Cymru benderfynu a oes angen rheoli effeithiau amgylcheddol ehangach cynllun rheoli perygl llifogydd Gorllewin Cymru.

Cyhoeddwyd yr adroddiad amgylcheddol hwn gyda'r diweddariad drafft i gynllun rheoli basn afon Gorllewin Cymru ar 10 Hydref 2014 a bydd yr ymgynghoriad yn para am chwe

mis. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 31 Ionawr 2015. Croesawn eich barn ac rydym wedi cynnwys rhai cwestiynau ymgynghori penodol isod:

---

**1. Ydych chi'n cytuno â chasgliadau'r asesiad amgylcheddol? (ydw / nac ydw)**

  a. **Os nad ydych, eglurwch pam.**

**2. Ydych chi'n meddwl y dylai'r asesiad hwn roi sylw i unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol eraill sy'n gysylltiedig â'r cynllun drafft? (ydw / nac ydw).**

  b. **Oes felly, disgrifiwch yr effeithiau hyn.**

**3. Fel rhan o'r adroddiad amgylcheddol, rydym wedi nodi mesurau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol ar yr amgylchedd, yn ogystal â chyfleoedd i effeithio mewn ffordd gadarnhaol ar yr amgylchedd.**

  c. **A oes unrhyw fesurau lliniaru eraill neu gyfleoedd eraill i wella'r amgylchedd y dylem eu hystyried ar gyfer y cynllun? (oes / nac oes)**

  d. **Os felly, rhowch fanylion.**

---

## Sut i ymateb

Byddai'n well gan Cyfoeth Naturiol Cymru pe baech yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost:

Flood.risk.management.plan@naturalresourceswales.gov.uk

Bydd hyn yn eich galluogi i wneud eich sylwadau'n fwy effeithiol ac, ar yr un pryd, bydd yn ein helpu i gasglu a chrynhoi ymatebion yn gyflym ac yn gywir. Fodd bynnag, os hoffech ymateb mewn ffordd arall, cysylltwch â chanolfan cyswllt cwsmeriaid CNC ar 0300 0653000.

Dylid dychwelyd ymatebion ysgrifenedig erbyn 31 Ionawr 2015 at:

Rachel Siôn

Cyfoeth Naturiol Cymru

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

# Cynnwys

Sut i ymateb ........ 7
1. Cyflwyniad ........ 9
Cynlluniau rheoli perygl llifogydd drafft ........ 9
Dull Cyfoeth Naturiol Cymru o Reoli’r Perygl o Lifogydd ........ 9
Diben yr adroddiad amgylcheddol ........ 13
Deall yr adroddiad hwn ........ 14
2. Cynnal yr asesiad ........ 17
Dull gweithredu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ........ 17
Y dull gwasanaethau ecosystem a'r AAS ........ 18
Cwmpas yr asesiad ........ 21
Asesu arwyddocâd ........ 23
Dull asesu ........ 24
Opsiynau amgen a ystyriwyd ........ 25
Y dull o ddatblygu'r CRhPLl ........ 25
Mesurau sydd eisoes ar waith a mesurau y cytunwyd arnynt o gynlluniau sy'n bodoli eisoes ........ 25
Mesurau arfaethedig yn y CRhPLl ........ 26
Asesiad rheoliadau cynefinoedd ........ 26
3. Cyd-destun amgylcheddol y cynllun ........ 28
Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ........ 28
Adolygiad o gynlluniau a pholisïau perthnasol yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ........ 31
4. Effeithiau arwyddocaol Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru ........ 34
5. Monitro effeithiau'r cynllun ........ 87
6. Beth sy'n digwydd nawr? ........ 89
Sut i ymateb ........ 89
Y camau nesaf ........ 90
Atodiad A: Cynlluniau, polisïau a rhaglenni a adolygwyd ar gyfer yr AAS ........ 91
Atodiad B: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cwmpasu ........ 105

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Amgylcheddol yn rhoi manylion am ganlyniad yr Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r diweddariad drafft i Gynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru (CRhBA). Defnyddir yr Asesiad Amgylcheddol Strategol i ystyried yr effeithiau tebygol ar yr amgylchedd ehangach wrth ddatblygu'r cynllun.

### Cynlluniau rheoli perygl llifogydd drafft

Mae'r Gyfarwyddeb Llifogydd Ewropeaidd yn nodi gofynion i reoli'r perygl o lifogydd o bob ffynhonnell er mwyn lleihau effaith llifogydd ar iechyd pobl, gweithgarwch economaidd a'r amgylchedd. Cafodd y Gyfarwyddeb Llifogydd Ewropeaidd ei hymgorffori yng nghyfraith Cymru a Lloegr gan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009 ac mae pedwar prif gam i gyflawni gofynion y rheoliadau. Cynhelir pob un o'r camau hyn ar ffurf cylch chwe blynedd:

1. Paratoi adroddiad asesu rhagarweiniol ar y perygl o lifogydd sy'n rhoi manylion llifogydd yn y gorffennol a chanlyniadau posibl llifogydd yn y dyfodol. Cwblhawyd y cam hwn ym mis Rhagfyr 2011.
2. Nodi ardaloedd lle ceir perygl sylweddol o lifogydd dŵr wyneb. Cwblhawyd y cam hwn ym mis Rhagfyr 2011.
3. Paratoi mapiau bygythiadau llifogydd sy'n dangos maint y llifogydd a mapiau o beryglon a chyflymder/dyfnder llifogydd sy'n dangos y canlyniadau i ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Cwblhawyd y cam hwn ym mis Rhagfyr 2013.
4. Datblygu cynlluniau rheoli perygl llifogydd (CRhPLl). Rydym wrthi'n ymgynghori ar gynlluniau rheoli perygl llifogydd drafft.

### Dull Cyfoeth Naturiol Cymru o Reoli’r Perygl o Lifogydd

Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yw'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer rheoli’r perygl o lifogydd yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gweithio ar sail y perygl i gymunedau er mwyn blaenoriaethu'r ardaloedd y dylid buddsoddi'n uniongyrchol ynddynt. Caiff y gwaith hwn ei lywio gan y fframwaith strategol a ddarperir gan Gynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch (CRhPLlDau) a'r ail genhedlaeth o Gynlluniau Rheoli Traethlin (CRhTau) drafft. Mae'r

fframwaith strategol a osodir gan y cynlluniau hyn yn galluogi CNC i wneud penderfyniadau byrdymor i reoli'r perygl presennol gan ystyried y perygl tymor hwy hefyd. Caiff yr asesiadau o'r perygl presennol, yn seiliedig ar y perygl i'r gymuned, eu cyflawni drwy Gofrestr CNC o Gymunedau sy'n wynebu Perygl. Mae'r adnodd hwn yn ystyried nifer o ffactorau er mwyn rhoi syniad o leoliad y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd o brif afonydd a'r môr yng Nghymru. Caiff ei ddefnyddio wedyn i lywio, cynllunio a blaenoriaethu ein rhaglen fuddsoddi er mwyn targedu buddsoddiad at y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf.

Amcanion y CRhPLl yng Nghymru yw:

1. Lleihau'r risg o niwed i fywyd yn sgil llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr, i bobl a chymunedau.
2. Gwella cydnerthedd gwasanaethau, asedau a seilwaith i'r perygl o lifogydd.
3. Gwella dealltwriaeth o’r perygl o lifogydd fel bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael.
4. Gwella ymwybyddiaeth a chydnerthedd cymunedau o ran llifogydd.
5. Ymateb mewn ffordd effeithiol a chynaliadwy i lifogydd.
6. Dyrannu arian ac adnoddau i bob ffynhonnell o lifogydd ar sail y perygl o lifogydd.
7. Defnyddio'r dull ecosystem wrth reoli’r perygl o lifogydd.

## CRhPLl Gorllewin Cymru

Nod cynllun rheoli perygl llifogydd Gorllewin Cymru yw cyflawni'r 'Strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru, 2011' drwy nodi mesurau i reoli’r perygl o lifogydd rhwng 2015 a 2021 a thu hwnt. Mae'n dwyn ynghyd gynlluniau sy'n bodoli eisoes i reoli’r perygl o lifogydd, gan ddibynnu'n helaeth ar wybodaeth o gynlluniau rheoli perygl llifogydd dalgylch (CRhPLlDau), cynlluniau rheoli traethlin (CRhTau) a Chofrestr CNC o Gymunedau sy'n wynebu Perygl.

O dan y gyfraith, mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd lunio cynlluniau rheoli perygl llifogydd ar gyfer pob **ardal basn afon (ABA)**. Rhaid i'r CRhPLlau hyn ymdrin â llifogydd o brif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr.


O dan y gyfraith, mae'n rhaid i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLlA) lunio CRPLlau ar gyfer pob **ardal sy'n wynebu perygl o lifogydd**, gan ymdrin â llifogydd o

ffynonellau lleol, sy'n cynnwys dŵr wyneb, cyrsiau dŵr cyffredin a dŵr daear. Mae pob ALlLlA yng Nghymru wedi ymrwymo i lunio CRhPLl ar wahân, yn hytrach na llunio CRhPLlau ar y cyd.  Mae dau ALlLlA yn ABA Gorllewin Cymru (Cyngor a Dinas Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) sydd ag ardaloedd sy'n wynebu perygl o lifogydd ac felly byddant yn llunio CRhPLl i fodloni gofynion y Rheoliadau Perygl Llifogydd.

Mae'r cynllun rheoli perygl llifogydd wedi'i ddatblygu ar ddwy raddfa:

- Mae'r cynllun yn ymdrin â phroblemau llifogydd ar gyfer prif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr ar draws yr **ardal basn afon** i gyd. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys fel gofyniad statudol.
- Mae'r ardal basn afon wedi'i rhannu'n **ddalgylchoedd rheoli**. Mae dalgylch yn cynnwys sawl corff dŵr sy'n aml yn gysylltiedig â'i gilydd (afonydd, llynnoedd, dŵr daear a dyfroedd arfordirol) ac maent yn seiliedig ar y dalgylchoedd a ddefnyddir mewn cynlluniau rheoli basn afon. Mae naw dalgylch rheoli yn ardal basn afon Gorllewin Cymru. Mae'r cynllun yn nodi'r amcanion a'r mesurau i reoli'r perygl o lifogydd i gymunedau sy'n wynebu perygl o du prif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr ymhob dalgylch rheoli fel gofyniad statudol.

**Ffigur 1.1: Dalgylchoedd Rheoli Ardal Basn Afon Gorllewin**




**Cymru**

Mae CRhPLl drafft Gorllewin Cymru wedi'i rannu'n dair rhan fras:

1. Mae'r adran gyntaf yn disgrifio ein dull o reoli’r perygl o lifogydd yng Nghymru.
2. Mae'r ail adran yn canolbwyntio ar Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ac yn disgrifio'r ardal dan astudiaeth, casgliadau mapiau bygythiadau llifogydd a pherygl llifogydd, yr amcanion a throsolwg o'r mesurau rheoli’r perygl o lifogydd, a hynny i gyd ar gyfer yr Ardal Basn Afon.
3. Mae'r drydedd adran yn canolbwyntio ar y dalgylchoedd rheoli ac yn disgrifio'r dalgylch, casgliadau mapiau bygythiadau llifogydd a pherygl llifogydd a throsolwg o'r mesurau rheoli’r perygl o lifogydd ar gyfer dalgylch. Mae'r adran ar ddalgylchoedd yn cynnwys mesurau manwl ar gyfer cymunedau penodol, gan gynnwys mesurau sydd eisoes ar waith, mesurau y cytunwyd arnynt a mesurau arfaethedig (Tabl 1.1).

**Tabl 1.1: Disgrifiad o fesurau sydd eisoes ar waith, mesurau y cytunwyd arnynt a mesurau arfaethedig**

| |
|---|
| *Mesurau rheoli’r perygl o lifogydd **sydd eisoes ar waith**. Mae'r mesurau hyn eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad ac wedi'u mabwysiadu mewn cynlluniau sydd eisoes ar waith ac nid ymgynghorir arnynt yn benodol yn y CRhPLl.* |
| *Mesurau **y cytunwyd arnynt** sydd eisoes wedi'u cynllunio ac y mae arian wedi'i ddyrannu iddynt mewn egwyddor. Mae'r mesurau hyn wedi'u nodi mewn cynlluniau sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad ac sydd wedi'u mabwysiadu, fel mesurau a ddaw o gynlluniau rheoli perygl llifogydd dalgylch. Nid ymgynghorir arnynt yn benodol yn y CRhPLl hwn.* |
| *Mesurau **arfaethedig** i'w rhoi ar waith o 2015 ymlaen nad ydynt wedi bod yn destun ymgynghoriad hyd yma. Dyma'r mesurau yr ymgynghorir yn benodol arnynt yn y CRhPLl hwn.* |

## Diben yr adroddiad amgylcheddol

Diben yr adroddiad hwn yw ystyried effeithiau amgylcheddol arwyddocaol CRhPLl Gorllewin Cymru ar raddfa'r ardal basn afon. Rydym wedi asesu effeithiau amgylcheddol y

mesurau mewn dalgylchoedd rheoli ac ardaloedd sy'n wynebu perygl o lifogydd er mwyn ystyried eu harwyddocâd ar gyfer yr ardal basn afon.

Cynhaliwyd yr asesiad amgylcheddol strategol hefyd er mwyn bodloni gofynion 'Rheoliadau asesiadau amgylcheddol o gynlluniau a rhaglenni 2004' (neu'r 'rheoliadau asesiadau amgylcheddol strategol' fel y'u gelwir). O dan y rheoliadau hyn, rhaid llunio cynlluniau o fewn sectorau penodol (gan gynnwys y sector dŵr) sy'n rhoi fframwaith i gynnal asesiadau amgylcheddol strategol o ddatblygiadau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ystyried o'r dechrau. Mae Tabl 1.2 yn nodi'r gofynion am adroddiad amgylcheddol a lunnir yn unol â'r rheoliadau asesiadau amgylcheddol strategol ac yn nodi ble yr eir i'r afael â'r rhain yn yr adroddiad hwn.

## Deall yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi sut rydym wedi ystyried yr amgylchedd wrth ddatblygu'r cynllun rheoli perygl llifogydd:

- **adran 2:** mae **'cynnal yr asesiad'** yn disgrifio sut rydym wedi asesu'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol a'r dewisiadau amgen
- **adran 3:** mae **'cyd-destun amgylcheddol y cynllun'** yn rhoi trosolwg o gyd-destun amgylcheddol y cynllun o ran yr amgylchedd ffisegol a'r cyd-destun cynllunio a pholisi
- **adran 4:** mae **'effeithiau arwyddocaol y cynllun rheoli perygl llifogydd'** yn nodi effeithiau amgylcheddol arwyddocaol y cynllun ar raddfa'r ardal basn afon
- **adran 5:** mae **'monitro effeithiau'r cynllun'** yn nodi ein cynigion cychwynnol i fonitro effeithiau arwyddocaol y cynllun
- **adran 6:** mae **'beth sy'n digwydd nawr?'** yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut y gallwch wneud sylwadau ar y cynllun a/neu'r adroddiad amgylcheddol ac yn gofyn cwestiynau penodol yr hoffem glywed eich barn arnynt

**Tabl 1.2: Sut mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion y rheoliadau asesiadau amgylcheddol strategol.**

| Gofyniad y rheoliadau AAS | Sut y cafodd ei fodloni | Adran |
|---|---|---|
| **1.** Amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion y cynllun neu'r rhaglen, a'i gydberthynas/chydberthynas â chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill. | *Mae Adran 1 yn nodi prif amcanion y cynlluniau rheoli perygl llifogydd a cheir amlinelliad o gynnwys y cynllun yn Adran 4.*<br>*Mae Adran 3 yn nodi'r themâu allweddol perthnasol a ddaeth i'r amlwg wrth* | *1, 3 a 4 Atodiad A* |

| | | |
|---|---|---|
| | *adolygu cynlluniau a rhaglenni perthnasol. Ceir rhestr lawn o'r cynlluniau a adolygwyd yn Atodiad A.* | |
| **2.** Yr agweddau perthnasol ar gyflwr yr amgylchedd ar hyn o bryd a'r ffordd y maent yn debygol o esblygu heb weithredu'r cynllun neu'r rhaglen. | *Ceir trosolwg o'r ardal basn afon yn Adran 3. Mae Adran 4 yn disgrifio cyflwr y gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan yr amgylchedd dŵr ar hyn o bryd a sut mae'r rhain yn debygol o esblygu os na roddir y cynllun ar waith.* | *3 a 4* |
| **3.** Nodweddion amgylcheddol yr ardaloedd sy'n debygol o brofi effeithiau arwyddocaol. | | |
| **4.** Unrhyw broblemau amgylcheddol sy'n bodoli eisoes sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen gan gynnwys, yn enwedig, y rhai sy'n gysylltiedig ag ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol arbennig, fel ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n unol â Chyfarwyddeb Cyngor 79/409/EEC ar gadwraeth adar gwyllt (**a**) a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. | *Caiff problemau amgylcheddol sy'n bodoli eisoes eu cyflwyno fel rhan o'r llinell sylfaen yn Adran 4.*<br><br>*Caiff safleoedd dynodedig (ACA, AGA a safleoedd Ramsar) eu hystyried yn Adran 4.10, Darparu Cynefin (Bioamrywiaeth)* | *4* |
| **5.** Yr amcanion o ran amddiffyn yr amgylchedd, sydd wedi'u pennu'n rhyngwladol, neu ar lefel Cymuned neu Aelod-wladwriaeth, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen a sut mae'r amcanion hyn ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hystyried wrth baratoi'r cynllun neu'r rhaglen. | *Caiff amcanion o ran amddiffyn yr amgylchedd eu crynhoi fel rhan o'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni perthnasol yn Adran 3.* | *3* |
| **6.** Yr effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd, gan gynnwys effeithiau byrdymor, tymor canolig a hirdymor, effeithiau parhaol ac effeithiau dros dro, effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau eilaidd, cronnol a synergeddol. | *Disgrifir effeithiau arwyddocaol tebygol y cynllun yn Adran 4* | *4* |
| **7.** Y mesurau y rhagwelir y byddant yn atal, yn lleihau ac yn gwrthbwyso cymaint â phosibl unrhyw effeithiau andwyol arwyddocaol ar yr amgylchedd yn sgil gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen. | *Mae mesurau lliniaru a chyfleoedd i wneud rhagor o welliannau i'r amgylchedd wedi'u nodi yn Adran 4.* | *4* |
| **8.** Amlinelliad o'r rhesymau dros ddewis yr opsiynau amgen a ystyriwyd a disgrifiad o'r ffordd y cafodd yr asesiad ei gynnal, gan | *Mae Adran 2 yn nodi'r opsiynau amgen a ystyriwyd ynghyd â'r rhesymau dros ddewis yr un a gyflwynir yn y cynllun rheoli perygl llifogydd drafft.* | *2* |

| | | |
|---|---|---|
| gynnwys unrhyw anawsterau (fel diffygion technegol neu ddiffyg gwybodaeth) a gododd wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol. | | |
| **9.** Disgrifiad o'r mesurau a ragwelir ym maes monitro yn unol â rheoliad 17. | *Mae'r cynigion ar gyfer monitro wedi'u cynnwys yn Adran 5* | *5* |
| **10.** Crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth a ddarperir o dan baragraffau 1 i 9. | *Mae crynodeb annhechnegol ar flaen y ddogfen hon ac mae ar gael fel dogfen ar wahân.* | |

## 2. Cynnal yr asesiad

Yn yr adran hon nodwn sut y cafodd materion amgylcheddol eu hystyried wrth ddatblygu'r cynllun; sut y cafodd opsiynau amgen eu hystyried a sut y gwnaethom asesu effeithiau amgylcheddol arwyddocaol y cynllun drafft.

### Dull gweithredu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol

Diben yr asesiad amgylcheddol strategol yw bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio wrth baratoi a mabwysiadu cynlluniau sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd[1].

Wrth gynllunio'r AAS ar gyfer y CRhPLl drafft, rydym wedi ystyried nifer o ffactorau:

- Mae CRhPLl yn gynlluniau newydd, fodd bynnag, mae Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd[2] eisoes yn cynllunio ar gyfer llifogydd a daw cyfran helaeth o CRhPLl Gorllewin Cymru o gynlluniau sy'n bodoli eisoes sydd wedi bod yn destun ymgynghoriadau ac AASau blaenorol. Nodir y rhain fel mesurau rheoli'r perygl o lifogydd **sydd eisoes ar waith** a mesurau **y cytunwyd arnynt** yn y CRhPLl ac nid ymgynghorir arnynt. Cânt eu disgrifio yn yr AAS hwn fel rhan o'r cyd-destun amgylcheddol a chânt eu hystyried ar wahân i fesurau arfaethedig y CRhPLl.
- Mae CRhPLl Gorllewin Cymru yn cynnwys nifer o fesurau newydd ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd a gaiff eu rhoi ar waith o 2015 ymlaen. **Mesurau arfaethedig** yw'r rhain, yr ymgynghorir arnynt fel rhan o'r CRhPLl. Mae'r mesurau arfaethedig wedi'u blaenoriaethu gan ddefnyddio Cofrestr CNC o Gymunedau sy'n wynebu Perygl. Mae'r gofrestr yn blaenoriaethu gweithrediadau perygl llifogydd arfordirol ac afonol yn seiliedig ar y perygl o lifogydd o'r fath. Mae'r AAS hwn yn asesu eu heffaith ar yr amgylchedd ehangach er mwyn sicrhau bod y CRhPLl yn ystyried hyn.

[1] Paragraff 4 o'r rhagymadrodd i Gyfarwyddeb 2001/42/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor a wnaed ar 27 Mehefin 2001 ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd (y Gyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol)

[2] Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd yw Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, cynghorau dosbarth mewn ardaloedd lle nad oes awdurdodau unedol, byrddau draenio mewnol, cwmnïau dŵr ac awdurdodau priffyrdd

O gofio'r ffactorau hyn, mae'r asesiad yn canolbwyntio ar y mesurau arfaethedig a'u heffeithiau amgylcheddol, gan nodi hefyd yr effeithiau cronnol sy'n deillio o fesurau sydd eisoes ar waith a mesurau y cytunwyd arnynt yn yr ardal basn afon.

**Tabl 2.1: Mathau o fesurau a disgrifiad ohonynt**

| Math o Fesur | Disgrifiad |
|---|---|
| Atal | Atal difrod gan lifogydd:<br>1. Drwy osgoi adeiladu tai a diwydiannau mewn ardaloedd sy'n dueddol o brofi llifogydd nawr ac yn y dyfodol;<br>2. Drwy addasu derbynyddion presennol i'r perygl o lifogydd; a sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn ystyried y perygl o lifogydd;<br>3. Drwy hyrwyddo defnydd tir priodol. |
| Amddiffyn | Rhoi mesurau strwythurol ac anstrwythurol ar waith i leihau'r tebygolrwydd o lifogydd mewn lleoliad penodol. |
| Parodrwydd | Rhoi gwybodaeth i'r boblogaeth am y perygl o lifogydd a beth i'w wneud os bydd llifogydd, gan gynnwys ymateb brys; datblygu cynlluniau ymateb brys i'w gweithredu pe bai llifogydd yn digwydd. |
| Adfer ac Adolygu | Dychwelyd i normalrwydd cyn gynted â phosibl a lliniaru'r effeithiau cymdeithasol ac economaidd ar y boblogaeth dan sylw. |

## Y dull gwasanaethau ecosystem a'r AAS

Mae'r CRhPLlau drafft yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r gyfres o ddiweddariadau drafft i'r cynlluniau rheoli basn afon (CRhBA) yr ymgynghorir arnynt ar yr un pryd. Mae'r asesiad amgylcheddol strategol o'r CRhBAau a'r CRhPLlau yn seiliedig ar y dull gwasanaethau ecosystem. Drwy ddefnyddio'r un dull i asesu'r ddau gynllun, gallwn gymharu'r effeithiau amgylcheddol yn uniongyrchol ac ystyried sut mae'r ddau gynllun yn rhyngweithio â'i gilydd.

Mae'r dull gwasanaethau ecosystem yn seiliedig ar yr egwyddor y bydd ecosystem iach yn darparu gwasanaethau a fydd yn cyflwyno manteision i gymdeithas sy'n hanfodol er mwyn datblygu mewn ffordd gynaliadwy. Mae enghreifftiau yn cynnwys hanfodion bywyd, fel aer glân, dŵr, bwyd a thanwydd; gwasanaethau sy'n helpu i reoleiddio prosesau naturiol fel llifogydd; a gwasanaethau sy'n cyfrannu at les ac ansawdd bywyd, fel hamdden a thwristiaeth a thirweddau prydferth.

Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno y byddwn yn mabwysiadu'r dull ecosystem yn yr holl waith a wnawn i reoli a chynllunio adnoddau naturiol. Nod y dull

ecosystem yw rheoli'r amgylchedd fel bod ei gydrannau gwahanol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd, gan gynnwys ei system naturiol a manteision yr amgylchedd i bobl. Mae Bil yr Amgylchedd sydd ar ddod yn gosod fframwaith newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a bydd yn adeiladu ar Gonfensiwn Amrywiaeth Biolegol y Cenhedloedd Unedig. Mae'r dull ecosystem yn seiliedig ar 12 egwyddor.

Mae mwy o gefnogaeth i fabwysiadu dull ecosystemau mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn ogystal ag adnoddau sy'n ategu penderfyniadau fel Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac Asesiadau Effaith Amgylcheddol. Felly, dewiswyd mabwysiadu'r dull ecosystemau i asesu effeithiau amgylcheddol ar gyfer yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

O'r 12 o Egwyddorion Craidd y Dull Ecosystem, bydd yr AAS yn ystyried y canlynol yn benodol:

- Effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl y cynllun ar ecosystemau cyfagos ac ecosystemau eraill.
- Ystyried effeithiau posibl y cynllun ar strwythur a swyddogaeth y gwasanaethau ecosystem a bydd hyn yn ei dro yn dylanwadu ar y cynllun a ddatblygir er mwyn sicrhau bod ecosystemau'n gydnerth.
- Effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar wasanaethau ecosystem, gan gynnwys effeithiau cronnol. Caiff y rhain eu hasesu yn erbyn terfynau penodol pan fo hynny'n bosibl ond os nad oes data neu derfynau penodol, cynhelir asesiad ansoddol.
- Effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar Amrywiaeth Biolegol a'r gwasanaethau sy'n dibynnu arno.

Mae Ffigur 2.1 yn dangos y gydberthynas rhwng gwasanaethau ecosystem a'r derbynyddion amgylcheddol y mae'n rhaid i ni eu hystyried o dan y rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol. Mae hyn yn dangos, hyd yn oed ar sail cymhariaeth geidwadol, bod asesiadau sy'n seiliedig ar wasanaethau ecosystem yn ymdrin â'r derbynyddion fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau.

**Ffigur 2.1: Y gydberthynas rhwng gwasanaethau ecosystem a'r ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried o dan y rheoliadau asesiadau amgylcheddol strategol.**

| | Gwasanaethau ecosystem | Ffactorau amgylcheddol Rheoliadau AAS: Bioamrywiaeth, fflora a ffawna | Y boblogaeth ac iechyd dynol | Pridd | Dŵr | Aer | Ffactorau hinsawdd | Treftadaeth ddiwylliannol | Tirwedd | Asedau Materol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau darparu | Dŵr croyw | | | | * | | | | | |
| | Bwyd (e.e. cnydau, ffrwythau, bwyd gwyllt a gesglir) | * | * | | | | | | | * |
| | Ffeibr a thanwydd (e.e. pren a gwlân) | | * | | | | | | | |
| | Adnoddau genetig | * | | | | | | | | |
| | Meddyginiaethau naturiol, biogemegau | | * | | | | | | | |
| | Dŵr na chaiff ei yfed (e.e. Ynni dŵr, mordwyo) | | * | | * | | | | | * |
| Gwasanaethau rheoleiddio | Rheoleiddio ansawdd aer | | | | | * | | | | |
| | Rheoleiddio'r hinsawdd | | | | | | * | | | |
| | Rheoleiddio dŵr (e.e. llifogydd) | | * | | * | | | | | |
| | Rheoleiddio peryglon naturiol | | * | | | | | | | |
| | Rheoleiddio clefydau a phlâu | | * | | | | | | | |
| | Rheoleiddio pridd ac erydiad | * | * | * | | | | | | |
| | Puro dŵr a thrin gwastraff | * | | | * | | | | | |
| | Peillio | * | | | | | | | | |
| | Rheoleiddio sŵn a golau | * | * | | | | | | | |
| Gwasanaethau diwylliannol | Treftadaeth ddiwylliannol | | | | | | | * | * | |
| | Hamdden a thwristiaeth (mannau glas a gwyrdd hygyrch) | | * | | | | | | | * |
| | Gwerth esthetig (e.e. tirwedd, morlun, tawelwch) | | | | | | | | * | |
| | Gwerth addysgol, deallusol a gwyddonol | | * | | | | | | | |
| | Gwerth ysbrydol a chrefyddol | | * | | | | | | | |
| | Gwerth bodolaeth (gwerthfawrogi byd natur a bywyd gwyllt) | * | | | | | | * | * | |
| Gwasanaethau ategol | Ffurfiant pridd (geoamrywiaeth) | | | * | | | | | | |
| | Cynhyrchu cynradd | * | | | | | | | | |
| | Cylchoedd maeth | | | * | | | | | | |
| | Ailgylchu dŵr | | | | * | | | | | |
| | Ffotosynthesis | * | | | | | | | | |
| | Darparu cynefinoedd (bioamrywiaeth) | * | | | | | | | | |

## Cwmpas yr asesiad

Lluniwyd cwmpas yr asesiad amgylcheddol strategol ar sail yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2014 gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (tîm Asesu Strategol y Gyfarwyddiaeth Llywodraethu) a Cadw, fel Ymgyngoreion statudol o dan y rheoliadau AAS. Mae Atodiad B yn dangos sylwadau'r cyrff a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad a sut y cafodd y rhain eu hystyried yn ystod yr asesiad.

Mae cwmpasu yn broses barhaus ac ar ôl dechrau'r asesiad, roeddem wedi gallu nodi gwasanaethau ecosystem na ddisgwylir iddynt newid rhyw lawer o ganlyniad i'r cynllun. Er mwyn rhoi ffocws i'r asesiad, gwnaethom gynnal adolygiad cychwynnol o'r mesurau rheoli'r perygl o lifogydd posibl y gellid eu cynnwys yn y cynllun a'r gwasanaethau ecosystem y gallent gael effaith arwyddocaol arnynt. Roedd hi'n annhebygol y byddai angen ystyried gwasanaethau eraill ymhellach.

Hefyd, wrth gynnal yr asesiad, nodwyd mwy o wasanaethau ecosystem eraill lle nad oedd unrhyw effeithiau arwyddocaol. Fel hyn, rydym wedi cyfyngu'r gwasanaethau nad ystyrir eu bod yn arwyddocaol ar raddfa'r ABA. Felly nid ydym wedi ystyried y gwasanaethau ecosystem canlynol ymhellach yn yr adroddiad hwn:

| | | |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau darparu** | Ffeibr a thanwydd | Mae ecosystemau yn darparu amrywiaeth mawr o ddeunyddiau ar gyfer adeiladu a thanwydd gan gynnwys pren, biodanwyddau ac olewau planhigion a ddaw'n uniongyrchol o rywogaethau o blanhigion gwyllt a phlanhigion a gaiff eu trin. |
| | Adnoddau genetig | Mae hyn yn cynnwys y genynnau a'r wybodaeth enetig a ddefnyddir i fridio anifeiliaid a phlanhigion a biotechnoleg. |
| | Darparu biogemegau, meddyginiaethau naturiol, cyffuriau | Daw llawer o feddyginiaethau, bywleiddiaid, ychwanegion bwyd fel alginadau a deunyddiau biolegol o ecosystemau. |
| | Darparu adnoddau addurniadol | Defnyddir cynhyrchion anifeiliaid a phlanhigion, fel crwyn, cregyn a blodau fel addurniadau, a defnyddir planhigion cyfan at ddibenion tirlunio ac fel addurniadau. |
| **Gwasanaethau** | Rheoleiddio ansawdd | Mae ecosystemau yn cyfrannu cemegau i'r |

| | | |
|---|---|---|
| **rheoleiddio** | aer | atmosffer ac yn tynnu cemegau o'r atmosffer, gan ddylanwadu ar sawl agwedd ar ansawdd aer. |
| | Rheoleiddio'r hinsawdd | Mae ecosystemau'n dylanwadu ar hinsawdd yn lleol ac yn fyd-eang. Er enghraifft, yn lleol, gall newidiadau mewn gorchudd tir effeithio ar dymheredd a glawiad. Ar lefel fyd-eang, mae ecosystemau'n chwarae rhan bwysig yn yr hinsawdd drwy amsugno neu ryddhau nwyon tŷ gwydr. |
| | Rheoleiddio peryglon naturiol | Gall presenoldeb ecosystemau arfordirol fel morfeydd heli, leihau'r niwed a achosir gan gorwyntoedd neu donnau mawr. |
| | Puro dŵr a thrin gwastraff | Gall ecosystemau fod yn ffynhonnell o amhurdebau (e.e. mewn dŵr croyw). Fodd bynnag, gallant helpu i hidlo a phydru gwastraff organig a gaiff eu cyflwyno i ddyfroedd mewndirol ac ecosystemau arfordirol a morol a gallant hefyd dreulio a dadwenwyno cyfansoddion drwy brosesau pridd ac isbridd. |
| | Rheoleiddio plâu | Mae ecosystemau'n bwysig er mwyn rheoleiddio plâu sy'n ymosod ar blanhigion, anifeiliaid a phobl. Mae ecosystemau'n rheoleiddio plâu drwy weithgareddau ysglyfaethwyr a pharaseitiaid. Mae adar, ystlumod, gwenyn, brogaod a ffyngau yn gweithredu fel rheolyddion naturiol. |
| | Rheoleiddio clefydau | Mae ecosystemau'n bwysig er mwyn rheoleiddio clefydau a gludir gan fector sy'n ymosod ar blanhigion, anifeiliaid a phobl. Mae ecosystemau'n rheoleiddio clefydau drwy weithgareddau ysglyfaethwyr a pharaseitiaid. Mae adar, ystlumod, gwenyn, brogaod a ffyngau yn gweithredu fel rheolyddion naturiol. |
| | Peillio | Mae pryfed a'r gwynt yn peillio planhigion a choed sy'n hanfodol i ddatblygiad ffrwythau, llysiau a hadau. |
| | Rheoleiddio sŵn a golau | Gall sŵn, neu sŵn nad oes neb ei eisiau, a golau gael effaith negyddol ar les pobl a bywyd gwyllt, ond gallant gael eu rheoleiddio gan ecosystemau. |
| **Gwasanaethau diwylliannol** | Gwerth addysgol, deallusol a gwyddonol | Mae'r amgylchedd naturiol yn ystafell ddosbarth ac yn labordy awyr agored i astudio ac addysgu amrywiaeth eang o bynciau. |
| | Gwerth ysbrydol a chrefyddol | Mae llawer o grefyddau yn priodoli gwerthoedd ysbrydol a chrefyddol i ecosystemau neu |

| | | |
|---|---|---|
| | | gydrannau ecosystemau. |
| | Cydberthnasau cymdeithasol | Mae ecosystemau'n dylanwadu ar y mathau o gydberthnasau cymdeithasol a gaiff eu sefydlu a gallant gefnogi cydlyniant cymdeithasol a gweithgareddau cymunedol. |
| | Gwerthoedd bodolaeth | Y gwerth y mae unigolion yn ei roi ar wybod bod ecosystem neu gydran ohoni yn bodoli, hyd yn oed os na fyddant byth yn ei defnyddio. |

Gwnaethom hefyd hepgor mesurau rheoli’r perygl o lifogydd na fyddai disgwyl iddynt newid unrhyw rai o'r gwasanaethau ecosystem mewn ffordd arwyddocaol. O ganlyniad, cafodd mesurau parodrwydd am lifogydd, atal ac adfer ac adolygu eu hepgor. Felly, canolbwyntiodd yr asesiad hwn ar y mesurau amddiffyn a oedd yn debygol o osod fframwaith ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Y rheswm am hyn yw bod y rhan fwyaf o fesurau amddiffyn i reoli’r perygl o lifogydd yn cynnwys gwaith ffisegol mawr, er enghraifft adeiladau amddiffynfeydd llifogydd newydd neu greu ardaloedd storio llifogydd, a allai gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd.

## Asesu arwyddocâd

Mae effeithiau arwyddocaol y cynllun rheoli perygl llifogydd wedi'u nodi ar raddfa'r ardal basn afon. Nid oes unrhyw feini prawf penodol y gellir eu defnyddio i benderfynu a yw effaith yn arwyddocaol, yn enwedig wrth asesu newid i wasanaeth ecosystem. Yn hytrach, rydym wedi pennu arwyddocâd drwy nodweddu'r mathau o effeithiau a fyddai'n cael eu hystyried yn arwyddocaol:

- Effeithiau sy'n ymestyn ar draws yr ardal basn afon i gyd.
- Effeithiau lleol sy'n ddigon mawr i gael eu hystyried yn arwyddocaol i'r ardal basn afon. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys prosiect mawr i greu cynefin.
- Effeithiau sy'n debygol o arwain at newid amlwg yn iechyd a/neu les cymdeithasol neu economaidd cymunedau.

Mae effeithiau arwyddocaol y cynllun yn debygol o ddigwydd dros y tymor hir. Fodd bynnag, mae'r asesiad yn nodi effeithiau a allai ddigwydd yn y tymor byr i'r tymor canolig. Er eglurder, rydym wedi diffinio'r termau hyn fel a ganlyn:

- tymor byr - o fewn cylch y cynllun arfaethedig presennol, 2015 i 2021
- tymor canolig - o fewn cylch y diweddariad cyntaf i'r cynllun, 2021 i 2027

- tymor hir - y tu hwnt i 2027

## Dull asesu

Dilynodd yr asesiad amgylcheddol nifer o gamau:

- Cafodd mesurau rheoli'r perygl o lifogydd sydd eisoes ar waith a mesurau y cytunwyd arnynt o gynlluniau yr ymgynghorwyd arnynt yn barod (e.e. CRhTau, CRhPLlDau, Strategaeth Llanw Clwyd, Strategaeth Llanw Dyfi) eu hadolygu yn erbyn y mesurau arfaethedig er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â pholisïau sydd eisoes ar waith.
- Cafodd y mesurau rheoli'r perygl o lifogydd arfaethedig a gafodd eu cynnwys yn yr AAS eu hasesu ar sail eu heffaith ar wasanaethau ecosystem. Gwnaethom argymell mesurau lliniaru i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol a gwelliannau a fyddai'n sicrhau manteision ychwanegol.

Gwnaethom asesu'r effeithiau gan ddefnyddio Tabl Arfarnu Cryno ar gyfer pob dalgylch rheoli. Roedd y rhain yn cofnodi llinell sylfaen bresennol pob gwasanaeth ecosystem a sut y byddent yn esblygu pe na châi'r cynllun ei roi ar waith. Aseswyd sut y byddai'r llinell sylfaen yn esblygu pe câi'r mesurau arfaethedig eu rhoi ar waith, nodwyd yr effeithiau cadarnhaol a negyddol, ystyriwyd am ba hyd y byddai'r effeithiau a ragwelir yn para a cheisiwyd darogan unrhyw effeithiau eilaidd a chronnol. Ystyriwyd y wybodaeth hon a phennwyd arwyddocâd yr effaith a ragwelir ar raddfa Ardal Basn Afon. Mae Pennod 4 o'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau'r asesiad hwn, gyda ffigurau'n dangos effeithiau cadarnhaol a negyddol arwyddocaol ar wasanaethau ecosystem ymhob cymuned sy'n wynebu perygl, lle cynigiwyd rhoi mesurau ar waith yn ystod oes y cynllun hwn.

Mae'r adroddiad amgylcheddol hwn yn nodi'r newidiadau arwyddocaol disgwyliedig yn yr ardal basn afon. Mabwysiadwyd dull rhagofalus wrth ymdrin ag unrhyw ansicrwydd yn ystod yr asesiad, er enghraifft, lleoliad neu gynllun unrhyw fesurau rheoli'r perygl o lifogydd penodol, neu werth rhai o'r gwasanaethau ecosystem y mae'r mesurau yn debygol o effeithio arnynt.

## Opsiynau amgen a ystyriwyd

### Y dull o ddatblygu'r CRhPLl

Ym mis Awst 2012, cynhaliodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ymgynghoriad tri mis ar y dull strategol o ddatblygu'r CRhPLlau ar gyfer y cylch cynllunio cyntaf hwn (2015-2021) ac ar gyfer cylchoedd cynllunio yn y dyfodol hefyd. E-ymgynghoriad oedd hwn, a chyhoeddwyd y cwestiynau ar ein gwefan. Gwnaethom hefyd gynnal cyfarfodydd â sefydliadau unigol a gwahodd awdurdodau rheoli perygl llifogydd a rhanddeiliaid cenedlaethol i gyfrannu eu barn. Gwnaethom awgrymu tri opsiwn ar gyfer datblygu'r cynlluniau rheoli perygl llifogydd:

- Opsiwn A. ALlLlAau i baratoi CRhPLlau ar gyfer ardaloedd sy'n wynebu perygl o lifogydd, gan ymdrin â ffynonellau lleol o lifogydd posibl. Cyfoeth Naturiol Cymru i baratoi CRhPLl ar gyfer prif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr.
- Opsiwn B. Cyfoeth Naturiol Cymru i lunio CRhPLl cyfun mewn partneriaeth ag eraill gan ddwyn gwybodaeth ynghyd o gynlluniau gwahanol.
- Opsiwn C. Datblygu CRhPLl mewn partneriaeth gan ddefnyddio un proses integredig sy'n ymdrin â phob ffynhonnell o lifogydd posibl.

Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dull gweithredu arfaethedig ym mis Mehefin 2013, ar ôl ystyried adborth o'r ymgynghoriad. Opsiwn B, sef CRhPLl cyfun, oedd yr opsiwn gorau o ran CRhPLlau, fodd bynnag, ar ôl gohebu a thrafod â'r ALlLlAau, gwnaethant ddewis llunio cynlluniau annibynnol.

### Mesurau sydd eisoes ar waith a mesurau y cytunwyd arnynt o gynlluniau sy'n bodoli eisoes

Fel y nodwyd yn adran 1, daw cyfran helaeth o'r cynllun rheoli perygl llifogydd hwn o gynlluniau sydd wedi bod yn destun ymgynghoriadau ac asesiadau amgylcheddol strategol yn barod (CRhPLlDau, CRhTau, Strategaeth Llanw Dyfi a Strategaeth Llanw Clwyd). Roedd y cynlluniau hyn wedi ystyried opsiynau amgen ar y pryd ac ar y raddfa briodol, felly nid oes angen eu hadolygu yn y CRhPLl nac AAS y CRhPLl.

## Mesurau arfaethedig yn y CRhPLl

Mae mesurau arfaethedig y CRhPLl ar gyfer yr ardal basn afon yn nodi anghenion rheoli yn y dyfodol ar draws ffynonellau o lifogydd posibl yn y dalgylch, ar y traethlin ac yn lleol. Ar y raddfa hon, maent yn tueddu i bennu camau rhagarweiniol i ymchwilio i arfarniadau o achosion busnes ac opsiynau a'u datblygu yn y dyfodol. Bydd prosesau cynllunio eraill ac asesiadau amgylcheddol ategol yn canolbwyntio ar opsiynau amgen ar lefel prosiect a rhaglen. Felly mae ffocws opsiynau amgen ar gyfer AAS y CRhPLl hwn yn gyfyngedig ac wedi canolbwyntio ar y meysydd lle mae'r asesiad amgylcheddol wedi nodi bod mesurau rheoli’r perygl o lifogydd arfaethedig yn debygol o gael effaith andwyol arwyddocaol ar yr amgylchedd. Disgrifir hyn yn Adran 4.

## Asesiad rheoliadau cynefinoedd

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rheoliadau (OS 490, 2010), neu'r 'Rheoliadau Cynefinoedd' fel y'u gelwir, yn gweithredu 'Cyfarwyddeb Cynefinoedd' yr UE (Cyfarwyddeb (92/43/EEC) ar Warchod cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna gwyllt, ac elfennau penodol o'r 'Gyfarwyddeb Adar' (2009/147/EC). Y ddeddfwriaeth hon sy'n gosod y fframwaith cyfreithiol i amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd yng Nghymru.
Mae'r safleoedd gwarchodedig yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau, a gaiff eu dosbarthu o dan y Gyfarwyddeb Adar), ymgeiswyr am statws ACA (yACA), Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol (SPC) ac, fel mater o bolisi llywodraethol, darpar Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (dAGA) a safleoedd Ramsar (safleoedd a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar 1972 am eu gwlyptiroedd rhyngwladol bwysig). Cyfeirir at yr holl safleoedd hyn yn yr adroddiad fel 'safleoedd Ewropeaidd'. Mae Rheoliad 9(5) o'r Rheoliadau Cynefinoedd yn datgan bod yn rhaid i awdurdod cymwys ystyried gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd wrth arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau, gan gynnwys asesu cynlluniau a phrosiectau a allai effeithio ar safleoedd Ewropeaidd.

Ystyrir bod y cynllun rheoli perygl llifogydd yn cyd-fynd â'r diffiniadau o 'gynllun' a nodir yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Felly, fel rhan o'r CRhPLl, rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau

Cynefinoedd (ARhC), a chaiff yr asesiad hwn ei deilwra yn unol â natur y cynllun. Cyhoeddir adroddiad ar wahân ar yr ARhC ar ôl trafod â Cyfoeth Naturiol Cymru (Tîm Asesu Strategol yn y Gyfarwyddiaeth Llywodraethu). Ystyriwyd effeithiau ar AGAau, ACAau a safleoedd Ramsar fel rhan o'r AAS hefyd, o fewn y gwasanaeth ecosystem 'Darparu Cynefin', ac mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod y mesurau rheoli'r perygl o lifogydd yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar yr AGAau, ACAau a'r safleoedd Ramsar. Er gwaethaf y casgliad hwn, cynhaliwyd ARhC unigol ar gyfer yr holl gynlluniau sydd eisoes yn bodoli sydd wedi cyfrannu at y CRhPLl ac mae'n bosibl bod effeithiau arwyddocaol wedi'u nodi yn y rhain. Yn yr achosion hyn, rydym wedi ystyried y canfyddiadau hyn wrth asesu'r cynllun cyffredinol ac wedi cymryd rhagofalon. Fodd bynnag, nid bwriad y cynllun hwn yw ailystyried yr ARhC nac unrhyw Ddatganiadau Achos a wnaed fel rhan o'r ARhC.

## 3. Cyd-destun amgylcheddol y cynllun

Yn yr adran hon, rhown drosolwg o gyd-destun amgylcheddol ABA Gorllewin Cymru. Ystyriwn hefyd sut mae cynlluniau cenedlaethol a lleol eraill yn cysylltu â'r CRhPLl. Mewn rhai achosion, bydd y rhain yn cynnig cyfleoedd drwy amcanion neu feysydd gweithgarwch cyffredin. Mewn meysydd eraill, gall fod heriau posibl pan fo amcanion fel pe baent yn gwrthdaro â'r pethau y mae'r CRhPLl am eu cyflawni.

### Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Mae Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn cynnwys ardal 16,653 cilomedr sgwâr. Mae'n gorchuddio hanner gorllewinol Cymru i gyd, o Fro Morgannwg yn y de i Sir Ddinbych yn y gogledd.

Mae'r prif ganolfannau poblogaeth i gyd ar yr arfordir ac yn y rhan orllewinol o Gymoedd De Cymru. Y prif ganolfannau trefol yw Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd yn y de, Aberystwyth ar arfordir y canolbarth, a Bangor yn y gogledd. Ardal wledig ydyw yn bennaf a chaiff y rhan fwyaf o'r tir ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae diwydiannau morol, olew a nwy ffyniannus yn weithgareddau economaidd hollbwysig, ynghyd â diwydiant trwm fel y gweithfeydd dur ym Mhort Talbot a physgodfeydd masnachol a thwristiaeth ar hyd arfordir Cymru.


Mae llynnoedd ac afonydd yr ardal yn enwog am bysgota gêm a bras. Mae eogiaid, brithyllod a brithyllod môr yn bresennol mewn llawer o'r afonydd gan gynhyrchu refeniw sylweddol i'r ardal drwy dwristiaeth pysgota. Mae gwahanol fathau o bysgota môr yn digwydd ar y dyfroedd arfordirol at ddibenion hamdden a masnachol. Mae arfordir Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yn cynnwys asedau amgylcheddol ac economaidd eithriadol o bwysig. Hefyd, mae tua 70 y cant o arfordir yr Ardal wedi'i ddynodi (dan Gyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd a chyfraith y DU) am ei ansawdd amgylcheddol.

Mae gwelyau cocos mawr a gwerthfawr yn Nhraeth Lafan yn y gogledd a Chilfach Tywyn yn y de. Caiff cregyn gleision eu cynaeafu o welyau naturiol yn aberoedd Conwy a Dyfi a'u ffermio yn Afon Menai ar rai o welyau cregyn gleision mwyaf cynhyrchiol Ewrop. Defnyddir llawer o'r ucheldir er mwyn ffermio anifeiliaid byw (yn enwedig defaid) ac at ddibenion coedwigaeth. Ffermio llaeth sydd fwyaf poblogaidd ar lethrau mwy graddol Sir Benfro a Sir

Gaerfyrddin, ac mae hinsawdd fwynach De Sir Benfro hefyd yn golygu bod modd cynhyrchu llawer o gynnyrch âr.

Mae amgylchedd dramatig arfordir yr Ardal a'r ffaith ei fod mor agos i boblogaeth sylweddol hefyd yn fodd o egluro pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth arfordirol sy'n cyfrannu dros £350 miliwn y flwyddyn i economi Cymru.

**Ffigur 3.1 Y prif afonydd a'r môr - yr amgylchedd naturiol a hanesyddol sydd mewn perygl**




© Natural Resources Wales copyright and/or database right 2014. All rights reserved. © Environment Agency copyright and/or database right 2014. All rights reserved.

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Natural Resources Wales, 100019741, 2014. Environment Agency, 100026380, 2014.

Copyright resides with the data suppliers (see coversheet for details) and the map must not be reproduced without their permission. Some information is a snapshot of information that is being maintained or continually updated by the originating organisation.

Contact Us: Natural Resources Wales - Customer Care Centre, Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP. Telephone: 0300 065 3000 (Mon-Fri, 8am - 6pm). Email address: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
Contact Us: Environment Agency - National Customer Contact Centre, PO Box 54, Rotherham, S60 1BY. Telephone: 03708 506 506 (Mon to Fri, 8am to 6pm). Email address: enquiries@environment-agency.gov.uk

Ceir gwaelodlin manylach ar gyfer y gwasanaethau hynny sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad yn Adran 4. Datblygwyd y gwaelodlin amgylcheddol drwy gydweithio'n agos â'r cynlluniau rheoli basn afon. Os hoffech gael rhagor o fanylion am gyd-destun amgylcheddol pob dalgylch rheoli.

## Adolygiad o gynlluniau a pholisïau perthnasol yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Mae'r Rheoliadau AAS yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried y gydberthynas â chynlluniau a rhaglenni eraill ac amcanion amgylcheddol a bennir ar lefel ryngwladol, lefel cymuned (Ewropeaidd) neu lefel genedlaethol. O gofio maint daearyddol y cynllun hwn, dim ond polisïau, cynlluniau, strategaethau a deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r ABA a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad hwn. Mae Tabl 3.1 yn nodi'r prif themâu a gododd o'r adolygiad o bolisïau. Diben yr adolygiad yw ystyried amcanion y dogfennau pwysig hyn yn yr asesiad er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn ategu ac yn atgyfnerthu polisïau a deddfwriaeth amgylcheddol eraill yn hytrach na'u tanseilio. Nodir y dogfennau dan sylw yn Atodiad A.

Gall yr adolygiad hefyd helpu i nodi meysydd lle gallai sefydliadau a phrosesau cynllunio eraill weithio gyda'r broses o gynllunio camau i reoli'r perygl o lifogydd. Mae Tabl 3.1 isod yn rhestru'r prif themâu a ddeilliodd o'r adolygiad hwn o ran meysydd o ddylanwad cyffredin â'r CRhPLl.

**Tabl 3.1 Prif themâu'r adolygiad o bolisïau, cynlluniau a rhaglenni**

| Pwnc Amgylcheddol | Themâu Cyffredin |
|---|---|
| Cynnal ac adfer cynefinoedd | Bydd amcanion y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn helpu i wella'r amgylchedd naturiol am y bydd llai o gynefinoedd yn cael eu colli a llai o farwolaethau'n digwydd o ganlyniad i lifogydd, felly mae'n gyson â nodau polisïau, cynlluniau a rhaglenni (PCRhau) i amddiffyn, cynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd daearol. Fodd bynnag, mae angen ystyried cynefinoedd dyfrol wrth gynllunio a gweithredu mesurau i gyflawni'r amcanion, a rhaid cymryd gofal i sicrhau nad yw'r seilwaith ffisegol a ddefnyddir drwy'r CRhPLlau yn difrodi'r cynefinoedd dyfrol hyn nac yn amharu ar waith i'w hadfer. |
| Gwella statws ac amrywiaeth rhywogaethau | Y cyfeiriad polisi yw amddiffyn a gwella bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol; wrth roi'r CRhPLl ar waith, rhaid sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i amddiffyn, digolledu a gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd er mwyn cyd-fynd â'r PCRhau. |
| Tirwedd | Mae'r PCRhau yn gyffredinol yn ceisio gwarchod a gwella tirweddau gwerthfawr; mae cyfleoedd i newid y ffordd y caiff tir ei reoli neu'i ddefnyddio er lles y dirwedd, yn ogystal â chyflawni amcanion y CRhPLl i leihau'r perygl o lifogydd. |
| Adnoddau dŵr / effeithlonrwydd dŵr / | Mae'r PCRhau yn ceisio amddiffyn adnoddau naturiol. Mae rhai PCRhau yn ein hannog i ddefnyddio llai o ddŵr a defnyddio dŵr mewn ffordd fwy effeithlon, tra |

| Pwnc Amgylcheddol | Themâu Cyffredin |
|---|---|
| tynnu dŵr | bydd eraill yn rhoi pwysau ar adnoddau dŵr. Nid oes fawr o gysylltiad rhwng y CRhPLl a gwarchod adnoddau dŵr, ond rhaid cymryd gofal i sicrhau nad oes unrhyw leihad yn y perygl o lifogydd drwy fesurau fel prosiectau gwella amddiffynfeydd, yn fwyaf nodedig, yn digwydd ar draul adnoddau dŵr. |
| Ansawdd dŵr | Mae cysondeb yn y PCRhau y dylid diogelu a gwella ansawdd dŵr yfed a dŵr anyfadwy, drwy amrywiaeth eang o strategaethau. Rhaid cymryd gofal i sicrhau nad oes unrhyw leihad yn y perygl o lifogydd drwy fesurau fel prosiectau gwella amddiffynfeydd, yn fwyaf nodedig, yn digwydd ar draul cyflenwadau dŵr yfed. |
| Y perygl o lifogydd | Mae'r PCRhau yn cytuno bod angen rheoli'r perygl o lifogydd a chodi ymwybyddiaeth o'r perygl o lifogydd ac y dylid cefnogi ymdrechion i wneud hyn. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn gan ystyried hefyd yr amgylchedd ehangach a'r effeithiau y gallai lleihau'r perygl o lifogydd eu cael. Mae'n amlwg bod ymgais i symud oddi wrth amddiffynfeydd llifogydd uniongyrchol, gyda dulliau rheoli'r perygl o lifogydd yn cynnig cyfleoedd i gyflwyno gwelliannau amgylcheddol ehangach. Bydd y CRhPLl yn gyson â'r thema hon mewn CPRhau. |
| Gwastraff/llygredd | Mae'r CPRhau yn amlinellu awydd i leihau gwastraff a chynyddu effeithlonrwydd adnoddau. Caiff camau i leihau gwastraff a llygredd eu llywio, yn anuniongyrchol, gan y CRhPLl felly mae cysondeb cyffredinol rhwng y CRhPLl a'r CPRhau. |
| Asedau materol | Nod y PCRhau yw darparu rhwydweithiau trafnidiaeth cynaliadwy. Bydd y CRhPLl yn helpu i gyflawni'r nod drwy leihau'r perygl o lifogydd sy'n wynebu seilwaith allweddol lle bo angen. |
| Cynllunio | Mae'r CPRhau yn nodi y dylid cynllunio defnydd tir yn y dyfodol ar sail yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac y dylai'r amgylchedd dŵr gael ei ystyried yn benodol hefyd. Bydd y CRhPLl yn helpu i gyflawni'r nodau hyn drwy leihau'r perygl o lifogydd mewn mwy o ardaloedd. Rhaid cymryd gofal i sicrhau nad yw'r lleihad hwn yn y perygl o lifogydd yn amharu ar ffactorau eraill sy'n berthnasol i ddatblygu cynaliadwy. |
| Lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo | Mae cydnabod bod angen addasu i newidiadau yn yr hinsawdd yn thema gyffredin drwy'r PCRhau ac mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o newidiadau i'r economi, cymdeithas a dulliau rheoli amgylcheddol fel newidiadau i arferion defnydd tir a rheoli pridd. Addasu i berygl uwch o lifogydd o ganlyniad i dywydd eithafol difrifol a mwy rheolaidd a chynnydd yn lefel y môr yw un o brif themâu'r PCRhau, ac mae'r CRhPLl yn ceisio sicrhau'r addasiadau hyn. |
| Defnydd Tir | Mae arferion ffermio yn newid er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y diwydiant, e.e. newid i ffermio organig, hyrwyddo cynhyrchwyr lleol; ac mae mwy a mwy o arferion amaethyddol yn ceisio amddiffyn a gwella'r dirwedd. Nod dulliau rheoli coetir yw cynhyrchu coetiroedd o ansawdd, gyda chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd. Bydd y CRhPLl yn lleihau'r perygl o lifogydd i ardaloedd amaethyddol, ardaloedd trefol ac ardaloedd eraill a byddant yn amddiffyn mathau allweddol o ddefnydd tir. |
| Adnoddau Naturiol | Mae rheoli adnoddau naturiol Cymru yn thema bwysig yn y CPRhau, ac mae hyn yn cynnwys cadw'r rhywogaethau a chynefinoedd amrywiol ac asedau tirwedd a threftadaeth Cymru, gan gyflawni'r manteision economaidd sy'n gysylltiedig â choedwigaeth, pysgodfeydd, amaethyddiaeth ac adnoddau |

| Pwnc Amgylcheddol | Themâu Cyffredin |
|---|---|
| | mwynol. Mae awydd i herio'r dulliau traddodiadol o reoli llifogydd yn y PCRhau, gan roi llawer mwy o bwyslais ar reoli’r perygl o lifogydd yn ei gyfanrwydd, gan ddechrau drwy gadw mwy o ddŵr yn yr ucheldiroedd ac arafu ei hynt, gan adael i fwy o iseldiroedd gael eu gorlifo'n naturiol er mwyn gwasgaru'r effeithiau. Bydd y CRhPLl yn ystyried hyn yn fanwl. |
| Hamdden a thwristiaeth yn y dŵr/ar lan y dŵr | Mae'r PCRhau yn nodi bod yr amgylchedd dŵr yn adnodd twristiaeth a hamdden pwysig. Maent yn hyrwyddo cyfleoedd i ddarparu gweithgareddau hamdden priodol yn y dŵr. Mae angen i'r CRhPLlau ystyried y defnydd a wneir o afonydd, llynnoedd a dyfroedd arfordirol Cymru fel adnodd hamdden ac iechyd. Ni ddylai amcanion y CRhPLl amharu ar fynediad i'r dyfroedd hyn fel y gellir parhau i'w defnyddio at ddibenion hamdden. |
| Amgylchedd Hanesyddol | Dylai'r CRhPLl sicrhau nad yw'n amharu ar yr amgylchedd hanesyddol wrth gyflawni ei amcanion, gan fod y PCRhau yn nodi awydd i warchod a gwella asedau treftadaeth, ac yn darparu fframwaith i werthfawrogi'r asedau hyn. |

## 4. Effeithiau arwyddocaol Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru

Yn yr adran hon, nodwn effeithiau arwyddocaol y CRhPLl. Rydym wedi eu cyflwyno yn nhermau'r ffordd y maent yn effeithio ar y gwasanaethau ecosystem a gawn ar hyn o bryd gan y dŵr a'r amgylchedd cysylltiedig. Pan fo effeithiau andwyol, rydym wedi cynnig mesurau lliniaru a fydd yn helpu i'w hosgoi neu'u lleihau. Rydym wedi asesu'r effeithiau amgylcheddol gan ddefnyddio cyfuniad o brofiad blaenorol o'r dalgylchoedd a'n profiad ehangach o gynnal asesiadau amgylcheddol strategol.

### Trosolwg o effeithiau Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd wedi'i ddiweddaru Gorllewin Cymru

Fel y nodir yn adran 2, wrth gwmpasu'r asesiad, gwnaethom ganolbwyntio ar y mesurau rheoli'r perygl o lifogydd statudol a oedd yn gosod y fframwaith ar gyfer caniatáu datblygiad neu benderfynu ar opsiwn penodol i reoli'r perygl o lifogydd. Caiff y rhain eu galw'n gyffredinol yn fesurau amddiffyn. Gwnaethom gwmpasu mesurau atal (er enghraifft, mesurau osgoi, cynllunio defnydd tir ac amddiffyn eiddo unigol), mesurau paratoi (er enghraifft, proffwydo llifogydd, rhybuddion llifogydd ac ymwybyddiaeth gyhoeddus) a mesurau adfer ac adolygu (er enghraifft, gwaith glanhau a gweithgareddau cymorth ar ôl llifogydd). Yn sgil hyn, cafodd llawer o'r mesurau y cytunwyd arnynt, y mesurau sydd eisoes ar waith a'r mesurau arfaethedig eu hepgor o'r asesiad.

Er bod atal, paratoi ac adfer wedi'u hepgor o'r asesiad, mae'n bwysig cydnabod y buddiannau iechyd a lles sy'n gysylltiedig â'r mesurau hyn. Mae tystiolaeth gref i ddangos bod llifogydd yn cael effaith andwyol ar iechyd. Gall marwolaethau ddigwydd ond yr effeithiau seicolegol sydd fwyaf cyffredin. Mewn astudiaeth ar effeithiau cymdeithasol llifogydd yn yr Alban[3], ystyriwyd bod effeithiau annirweddol yn bwysicach na chOlledion materol. Roedd yr effeithiau annirweddol hyn yn cynnwys straen y llifogydd eu hunain, y pryder sy'n gysylltiedig â gorfod gadael eich cartref, yr anesmwythyd o orfod byw mewn llety dros dro a'r amser a'r ymdrech sy'n gysylltiedig â delio ag yswirwyr ac adeiladwyr. Roedd yr effeithiau tymor hwy yn cynnwys ofn llifogydd yn y dyfodol a cholli eitemau sentimental/eitemau na all unrhyw beth gymryd eu lle. Roedd yr effeithiau hyn yn waeth yn achos teuluoedd ar incwm isel, yr henoed neu grwpiau eraill sy'n agored i niwed. Gall

[3] Werritty A, et al (2007), Exploring the social impacts of flood risk and flooding in Scotland, Scottish Executive Social Research, Caeredin.

straen arwain at broblemau iechyd meddwl neu gorfforol a dangoswyd hefyd y gall waethygu cyflyrau sy'n bodoli eisoes. Caiff hyn effaith economaidd sylweddol ar y system gofal iechyd a busnesau â chyflogeion y mae llifogydd wedi effeithio arnynt.
Mae mesurau atal yn cynnig cyfle i osgoi'r effeithiau andwyol hyn ar gymdeithas ac iechyd.

Gall mesurau paratoi ac adfer liniaru a lleihau difrifoldeb yr effeithiau. Er enghraifft, drwy ddarparu neu wella rhybuddion llifogydd, gall pobl symud eiddo gwerthfawr i le diogel, defnyddio mesurau i amddiffyn eiddo unigol a diffodd eu cyflenwadau trydan a nwy cyn gadael yr eiddo a gall y gwasanaethau cyhoeddus reoli camau i gau ffyrdd neu reilffyrdd, er enghraifft, er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd. Mae'r rhain yn lleihau'r straen sy'n gysylltiedig â'r llifogydd eu hunain a byddant hefyd yn helpu gyda'r broses adfer.

**Tabl 4.1: Nifer y mesurau arfaethedig ar gyfer CRhPLl Gorllewin Cymru**

| Mesurau | Tawe i Dregatwg | Bae Caerfyrddin a Gŵyr | Cleddau a Sir Benfro | Teifi a Gogledd Ceredigion | Meirionnydd | Llŷn ac Eryri | Ynys Môn | Conwy | Clwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Atal** | 22 | 18 | 2 | 11 | 5 | 5 | 6 | 8 | 7 |
| **Paratoi** | 37 | 26 | 16 | 26 | 12 | 15 | 0 | 9 | 13 |
| **Amddiffyn** | 2 | 6 | 7 | 4 | 18 | 23 | 7 | 11 | 6 |
| **Adfer ac Adolygu** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Canolbwyntiodd yr asesiad ar yr effeithiau mwyaf arwyddocaol ar yr amrywiaeth o wasanaethau ecosystem. Ystyriwyd pa fathau o fesurau sy'n achosi effeithiau fel arfer a pha wasanaethau ecosystem fyddai'n cael eu heffeithio ganddynt fwyaf. Nodir y canlyniadau isod, fel a ganlyn:

- effeithiau a allai fod yn arwyddocaol ar draws yr ardal basn afon
- effeithiau a allai fod yn llai arwyddocaol ar y raddfa hon ond a fyddai'n fwy arwyddocaol yn lleol
- effeithiau ar wasanaethau sy'n cefnogi ecosystemau

## Effeithiau arwyddocaol cynllun rheoli perygl llifogydd Gorllewin Cymru

Aseswyd y gallai'r cynllun rheoli perygl llifogydd gael effaith arwyddocaol ar y gwasanaethau ecosystem canlynol ar draws yr ardal basn afon:

### Gwasanaethau Darparu

- Bwyd

Gwasanaethau Rheoleiddio

- Rheoleiddio dŵr
- Rheoleiddio pridd ac erydiad

Gwasanaethau Diwylliannol

- Treftadaeth ddiwylliannol
- Hamdden a thwristiaeth
- Gwerth esthetig

Gwasanaethau ategol

- Darparu cynefinoedd (Bioamrywiaeth)

O dan bob un o'r penawdau hyn, rydym wedi amlinellu statws presennol y gwasanaeth yn yr ardal basn afon, sut yr ystyrir y bydd y gwasanaeth yn newid o ganlyniad i'r cynllun rheoli perygl llifogydd ac unrhyw fesurau lliniaru y mae'n debygol y bydd eu hangen os ystyrir bod yr effeithiau yn andwyol.

At ddiben yr asesiad, gwnaed y tybiaethau canlynol:

- Ystyriwyd mai'r cynlluniau rheoli perygl llifogydd a oedd eisoes yn bodoli yn ABA Gorllewin Cymru oedd y CRhPLlDau, CRhTau, Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Llanw Clwyd a Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Llanw Dyfi.

## 1. Bwyd (e.e. cnydau, ffrwythau, bwyd gwyllt a gesglir)

**Beth yw gwasanaethau Bwyd?**

Mae ecosystemau yn darparu'r amodau i dyfu bwyd. Daw bwyd yn bennaf o agro-ecosystemau a reolir ond mae systemau morol a dŵr croyw neu goedwigoedd hefyd yn darparu bwyd ar gyfer pobl.

**Beth yw gwaelodlin presennol y gwasanaeth hwn yn ABA Gorllewin Cymru?**

Ardal wledig yw'r ABA yn bennaf, gyda chanolfannau trefol yn y dalgylchoedd isaf i'r de. Defnyddir tir gwledig ABA Gorllewin Cymru ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth yn bennaf. Ceir cymysgedd o ffermio defaid a gwartheg eidion yn yr ucheldiroedd. Mae pysgota masnachol yn digwydd yn Aber Bae Caerfyrddin, a cheir pysgodfa gocos bwysig yn yr aber. Yn y dyfroedd uchaf, gellir pysgota gêm am eogiaid a brithyllod a cheir

cyfleoedd ardderchog i bysgota plu am Frithyllod, Brithyllod Môr, Eogiaid a Changhennau Glas.

**Gwaelodlin yn y dyfodol - pa wasanaethau bwyd sy'n debygol o gael eu darparu yn y dyfodol heb y cynllun?**

Heb y cynllun, mae'n debygol y bydd tir a dyfroedd yn parhau i gael eu rheoli at ddibenion amaethyddol ac er mwyn cynhyrchu bwyd, a bydd mwy o ddatblygiadau technolegol a gwyddonol yn gwella cynhyrchiant tir a dyfroedd yr ABA ac, felly, faint o fwyd a gynhyrchir. Mae gwaith datblygu yn ardaloedd isaf yr ABA yn debygol o ymestyn i dir amaethyddol o gwmpas y canolfannau trefol fel Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerfyrddin, a fydd yn golygu y bydd llai o dir amaethyddol ar gael ac, felly, y bydd llai o fwyd yn cael ei gynhyrchu ac y bydd gwerth y gwasanaeth hwn yn yr ABA yn lleihau. Os caiff y dalgylch isaf ei ddefnyddio mwy at ddibenion diwydiannol, gallai hyn beri newidiadau i ansawdd dŵr ac argaeledd dŵr a allai, yn ei dro, leihau poblogaethau pysgod.

**Sut y rhagwelir y bydd CRhPLl Gorllewin Cymru yn effeithio ar y manteision i'r gwasanaeth hwn?**

Mae'r mesurau allweddol a allai effeithio ar y gwasanaeth bwyd yn yr ABA yn cynnwys:

- Yn y tymor byr, gall adeiladu amddiffynfeydd a chynlluniau newydd arwain at leihad bach yn y tir amaethyddol sydd ar gael, yn dibynnu ar y cynlluniau a ddefnyddir. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o'r gwaith sydd wedi'i gynllunio yn ymdrin ag asedau sy'n bodoli eisoes, felly ni fydd fawr ddim tir yn cael ei golli. Gall y golled hon arwain at leihau'r cyflenwad bwyd a chynyddu costau i ffermwyr yn yr ardal hon. Fodd bynnag, yn y tymor hir, byddai'r gwaith yn cael effaith gadarnhaol am y câi'r tir amaethyddol y tu ôl i'r amddiffynfeydd ei amddiffyn rhag llifogydd a difrod posibl i gnydau.
- Yn y tymor hir, gall cynefinoedd pysgod ddirywio drwy leihad mewn amrywiaeth geomorffolegol, ac yn y tymor byr bydd mwy o bysgod yn marw yn sgil gwaith mewn afonydd i wella cludiant dŵr mewn sianelau. Gallai hyn leihau'r poblogaethau pysgod yn y sianel a chael effaith negyddol ar y gwasanaeth bwyd. Gall yr asesiadau carthu arfaethedig ar draws yr ABA olygu y caiff sianelau eu rheoli mewn

ffordd fwy cynaliadwy ac y caiff prosesau gwaddodi naturiol eu hadfer a allai arwain at welliant mewn cynefinoedd pysgod yn y dyfodol.


- Disgwylir y bydd gwaith a gynhelir yn y dyfodol o ganlyniad i'r asesiadau cychwynnol yn cael effeithiau tymor hir cadarnhaol a negyddol. Gallai gael effaith gadarnhaol os caiff llifogydd eu lleihau neu'u hatal ar dir amaethyddol ar y gorlifdir o gwmpas y trefi, gan leihau'r difrod i gnydau a'r pridd. Gallai hefyd gael effaith negyddol am y gallai cynllun newydd gymryd tir ar gyfer argloddiau neu ardaloedd storio gan olygu y bydd llai o dir ar gael at ddefnydd amaethyddol. Yn olaf, gallai mesurau effeithio ar gynefinoedd naturiol, er enghraifft, gallai defnyddio blociau cerrig i atgyfnerthu glannau afon sy'n erydu olygu bod yr afon yn llai addas i bysgod, ac achosi lleihad mewn poblogaethau pysgod lleol gan greu effaith negyddol.

Yn gyffredinol, o ganlyniad i'r CRhPLl, rhagwelir y bydd effaith uniongyrchol fach ar y gwasanaethau bwyd a ddarperir yn ABA Gorllewin Cymru yn y tymor hir wrth i dir amaethyddol gael ei gymryd ac wrth i gynefinoedd pysgod ddirywio, ond bydd y CRhPLlau yn cael effaith fuddiol anuniongyrchol drwy sicrhau bod effeithiau llifogydd yn cael eu lleihau i'r eithaf yn yr ardaloedd hyn. Cyfyngir yr effeithiau yn bennaf i'r ardaloedd o gwmpas y cymunedau lle caiff y camau gweithredu eu cymryd, ac mae'r rhain wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol yn ne'r ABA ac o gwmpas yr arfordir fel y dangosir yn Ffigur 4.1.

Er mwyn lliniaru'r effeithiau negyddol posibl ar y gwasanaeth hwn, dylid cymryd y mesurau lliniaru canlynol:

- Lleoli gwaith oddi wrth y graddau uchaf o dir amaethyddol (h.y. tir Gradd 1 neu 2 o dan y Dosbarthiad Tir Amaethyddol);
- Rhoi gwybodaeth i'r tirfeddianwyr dan sylw a chysylltu â hwy er mwyn lleihau'r effeithiau posibl;
- Bydd angen i gynlluniau a gwaith yn y dyfodol ystyried effeithiau posibl ar gynefinoedd a llwybrau pysgod, sicrhau bod pob gwaith yn cydymffurfio â Chyfarwyddebau Ewropeaidd yn ogystal â cheisio cyfleoedd i wella amrywiaeth cynefinoedd. Bydd hyn yn arbennig o bwysig mewn dalgylchoedd ag ardaloedd silio a/neu bysgodfeydd o bwysigrwydd lleol.

**Ffigur 4.1: Dosbarthiad yr effeithiau posibl ar wasanaethau bwyd yn ABA Gorllewin Cymru**


No potential effect
Potential positive effect
Potential negative effect
Gronant
Holyhead
Penrhyn Bay
Prestatyn
Rhyl
Llandudno
Towyn
Kinmel Bay
Conwy
Rhuddlan
Pen-y-ffordd
Llanfairfechan
St Asaph / Llanelwy
Ffrith
Bangor
Denbigh
Llanrwst
Greenfield
Tremadog
Porthmadog
Pwllheli
Talsarnau
Dolgellau
Barmouth
Fairbourne
Aberystwyth
Llanrhystud
Aberaeron
Lampeter
Cwmann
Bridgend (Ceredigion)
Cardigan
Llechryd
Llanybydder
Llanwrda
Llangadog
Solva
Abergwili
Haverfordwest
Little Haven
Llanddowror
Llandybie
Ammanford
Ystradgynlais
Pontyates
Stepaside
Blaengwrach
Dale
Pontarddulais
Pembrey
Dafen
Tenby
Loughor
Gowerton
Llansamlet
Swansea
Black Pill
Maesteg
Margam
Aberkenfig
Pyle
Sarn
Pencoed
Bridgend
Cowbridge
Dinas Powys
Sully

**Pa effeithiau arwyddocaol y bydd gweithredu CRhPLl Gorllewin Cymru yn eu cael ar y gwasanaeth hwn?**

Ni ragwelir y bydd gweithredu CRhPLl Gorllewin Cymru yn cael effaith arwyddocaol ar wasanaethau bwyd yn yr ABA, fodd bynnag rhagwelir y bydd effaith negyddol fach ar wasanaethau bwyd yn gyffredinol, wedi'i chanoli mewn ardaloedd penodol o'r ABA. Gallai fod manteision anuniongyrchol drwy leihad mewn difrod llifogydd. Y prif bartïon yr effeithir arnynt fydd y diwydiannau amaethyddol a physgota oherwydd gallai eu tir fod yn llai cynhyrchiol ac efallai na fydd yr amgylchedd dŵr yn cynnal yr un poblogaethau o bysgod a physgodfeydd cregyn. Nodir effeithiau anuniongyrchol a chronnol y gwelliannau i'r gwasanaeth bwyd yn Adran 3 isod.

## 2. Rheoleiddio Dŵr (e.e. llifogydd)

**Beth yw gwasanaethau rheoleiddio dŵr?**

Gall newidiadau mewn gorchudd tir ddylanwadu'n fawr ar amseriad a maint dŵr ffo, llifogydd a phrosesu i ailgyflenwi'r ddyfrhaen a gall y newidiadau hyn gynnwys, yn benodol, addasiadau sy'n newid gallu'r system i storio dŵr fel trosi gwlyptiroedd neu ddisodli coedwigoedd â thir ffermio neu ddisodli tir ffermio ag ardaloedd trefol.

**Beth yw gwaelodlin presennol y gwasanaeth hwn yn ABA Gorllewin Cymru?**

Mae'r ABA yn cynnwys cyfran fawr o arfordir helaeth Cymru ac mae 60% o boblogaeth Cymru yn byw ar yr arfordir neu gerllaw iddo. Mae'r Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru[4] yn amcangyfrif y gallai fod tua 80,000 eiddo mewn perygl o gwmpas yr arfordir yn achos llifogydd â siawns o 0.1%. Llifogydd yw'r rhain sydd â siawns ystadegol o 0.1% o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn benodol. Mae gan Gymru rwydwaith o amddiffynfeydd arfordirol sydd wedi esblygu'n nodweddiadol er mwyn diwallu anghenion lleol. Mewn rhai lleoliadau, gall hyn gynnwys strwythurau unigol fel waliau ac argloddiau, ond mewn llawer o leoliadau ceir cydberthynas gymhleth rhwng amodau blaendraeth a'r amddiffynfeydd. Gall amodau blaendraeth gynnwys strwythurau yn y môr, grwyni, morfeydd heli a thraethau. Gall y rhain

[4] Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru, Adroddiad Cam 2. Cyfoeth Naturiol Cymru. 30 Ebrill 2014

helpu i reoli symudiad gwaddodion a faint o waddodion a gollir, yn ogystal â gwasgaru ynni'r tonnau cyn iddynt daro yn erbyn y llinell amddiffyn.

Mae afonydd ABA Gorllewin Cymru yn ymestyn tuag allan o'r ucheldiroedd canolog i'r arfordir. Mae prif ddalgylchoedd yr ardal yn cynnwys dalgylchoedd afonydd Clwyd a Chonwy yn y gogledd, afonydd Mawddach, Dyfi a Theifi yn y canolbarth ac afonydd Tywi, Tawe a Nedd yn y de. Gall ardaloedd storio yn y dalgylchoedd ucheldirol mewn cronfeydd dŵr fel Llyn Brianne a chorsydd fel Cors Caron storio dŵr am gyfnod, gan leihau'r perygl o lifogydd yn is i lawr yr ABA.

Defnyddir tir yn ABA Gorllewin Cymru at ddibenion amaethyddol, coedwigaeth a threfol yn bennaf, a cheir ardaloedd bach o fawnog ar ucheldiroedd. Mae addasiadau ffisegol i'w gweld ymhob dalgylch yn yr ABA ac mae 7% o gyrff dŵr yn ABA Gorllewin Cymru yn methu â chyflawni eu hamcanion oherwydd addasiadau ffisegol. Gall strwythurau a adeiladir er mwyn dargyfeirio, cludo a storio dŵr, er enghraifft, newid llif naturiol dŵr drwy ddalgylchoedd. Mae'r prif fathau'n cynnwys dyfnhau, sythu a chreu cwlfertau ar gyfer sianelau at ddibenion amddiffyn rhag llifogydd, draenio a mordwyo yn ogystal ag adeiladu strwythurau fel coredau, llifddorau, llifddorau llanw a chloddiau llifogydd. Mae'r addasiadau hyn o fantais sylweddol i bobl a'r economi, ond mae llawer ohonynt yn cael effaith negyddol ar fywyd gwyllt, er enghraifft, rhwystro pysgod rhag mudo a lleihau amrywiaeth ac ansawdd cynefinoedd.  Gall addasiadau hefyd ddatgysylltu afonydd oddi wrth eu gorlifdir naturiol, gan leihau gallu ardaloedd i gadw a storio dŵr llifogydd yn naturiol a hidlo gwaddodion a llygryddion.

Llifogydd ac erydu arfordirol yw dau o'r peryglon naturiol mwyaf sy'n effeithio ar ddiogelwch a chynaliadwyedd cymunedau ledled Cymru ac amcangyfrifir bod un o bob chwe eiddo yn wynebu perygl llifogydd o afonydd, y môr a dŵr wyneb.[5] Mae tua 1,551,656 o bobl a 4,282 o wasanaethau yn yr Ardal Basn Afon. O'r rhain, ystyrir bod 40,952 o bobl a 264 o wasanaethau yn wynebu perygl canolig o lifogydd gydag un siawns allan o 100 (1%) yn fwy o lifogydd mewn unrhyw flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o'r cymunedau hyn sy'n

[5] Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Llywodraeth Cymru 2012.

wynebu lefel uchel o berygl mewn ardaloedd arfordirol neu ar brif afonydd yn y dalgylchoedd deheuol, lle mae dwyseddau poblogaeth yn llawer uwch nag yn nalgylchoedd gogleddol yr ABA.

Caiff ardaloedd trefol yr ABA (e.e. Abertawe, Bangor, Aberystwyth, Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr) eu nodweddu gan gyrsiau dŵr sydd wedi'u haddasu'n sylweddol, ynghyd â datblygiadau preswyl a diwydiannol sy'n golygu bod y gorlifdir gwreiddiol wedi diflannu. Mae dŵr ffo wyneb o ardaloedd trefol a phriffyrdd yn digwydd yn sydyn fel arfer, gan ymateb yn gyflym i lawiad a chynyddu'r perygl o lifogydd o afonydd a dŵr wyneb.

**Gwaelodlin yn y dyfodol - pa wasanaethau rheoleiddio dŵr sy'n debygol o gael eu darparu yn y dyfodol heb y cynllun?**

Heb y cynllun, mae'n debygol y bydd gwasanaethau rheoleiddio dŵr dan bwysau cynyddol yn ABA Gorllewin Cymru o ganlyniad i waith datblygu newydd, dwysâd mewn amaethyddiaeth a newid yn yr hinsawdd.  Bydd estyniadau trefol, er enghraifft, yn cynyddu cyfraddau dŵr ffo wyneb ac yn lleihau gallu gorlifdiroedd naturiol i gadw a storio dŵr llifogydd ymhellach.  Gallai dwysâd amaethyddol hefyd gynyddu dŵr ffo wyneb yn ardaloedd gwledig yr ABA.

Bydd gweithgareddau rheoli’r perygl o lifogydd sy'n rhan o gynlluniau sy'n bodoli eisoes yn effeithio ar wasanaethau rheoleiddio dŵr.  Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys: rhoi cynlluniau arfaethedig i liniaru llifogydd ar waith; adnewyddu neu wella amddiffynfeydd llifogydd sy'n bodoli eisoes; ymestyn rhaglenni Amddiffyn Lefel Eiddo unigol; creu SDCau mewn ardaloedd trefol a gwledig; gwaith parhaol i gynnal a chadw cyrsiau dŵr; mentrau i adfer cyrsiau dŵr naturiol (e.e. dadsianelu) ac ailgysylltu cyrsiau dŵr â'u gorlifdir, fel cael gwared ar amddiffynfeydd uchel; a mentrau lleol i greu cynefinoedd ac ailalinio mewn ffordd reoledig.  Gallai'r gweithgareddau hyn effeithio ar wasanaethau rheoleiddio dŵr mewn ffyrdd gwahanol yn dibynnu ar y math o weithgaredd a'i faint. Er enghraifft, bydd cynlluniau lliniaru llifogydd newydd sy'n cynnwys peirianneg galed yn cael effaith negyddol am y byddant yn newid morffoleg naturiol cwrs dŵr ac yn datgysylltu'r cwrs dŵr oddi wrth ei orlifdir naturiol.  Gall mesurau eraill fod o fudd i wasanaethau rheoleiddio dŵr drwy

weithio gyda phrosesau naturiol i leihau dŵr ffo wyneb ac adfer swyddogaeth naturiol cwrs dŵr.  Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, mentrau i ddadsianelu a chreu SDCau trefol a gwledig.

Mae cyfleoedd a nodwyd i gael gwared ar amddiffynfeydd uchel ac ailalinio mewn ffordd reoledig gan greu cynefinoedd cysylltiedig hefyd yn debygol o fod o fudd i wasanaethau rheoleiddio dŵr drwy ailgysylltu cyrsiau dŵr â'u gorlifdir naturiol.  Bydd hyn yn gwella gallu'r ardaloedd hyn i gadw a storio dŵr yn naturiol ac yn helpu'r dŵr i ymdreiddio a allai, yn ei dro, helpu i leihau maint ac amseroedd ymateb llifoedd dŵr i lawr yr afon a helpu ardaloedd arfordirol i ymdopi â dyfroedd llanw.

Er gwaethaf yr effeithiau hyn, yn y tymor hwy, mae gwasanaethau rheoleiddio dŵr yn yr ABA yn debygol o fod dan fwy o bwysau oherwydd newidiadau a ragwelir yn yr hinsawdd. Mae rhagfynegiadau UKCIP yn dangos, erbyn y 2050au, y gallai glawiad yn ystod y gaeaf yn ABA Gorllewin Cymru gynyddu (e.e. o 2% i 27%). Er y rhagwelir lleihad o fwy na thraean o bosibl mewn lefelau glawiad yn ystod yr haf, gall newidiadau mewn patrymau tywydd arwain at fwy o stormydd.  Mae disgwyl i lefel y môr gynyddu hefyd ac mae'n debygol y bydd y perygl o lifogydd llawn yn cynyddu.  Gallai'r newidiadau hyn olygu y bydd llai o ddŵr ar gael yn enwedig yn ystod misoedd yr haf, yn ogystal â chynyddu nifer y bobl ac eiddo sy'n wynebu perygl o lifogydd.

**Sut y rhagwelir y bydd CRhPLl Gorllewin Cymru yn effeithio ar y manteision i'r gwasanaeth hwn?**

Mae'r mesurau allweddol a allai effeithio ar y gwasanaeth rheoleiddio dŵr yn yr ABA yn cynnwys:

- Bydd gwelliannau i sianelau ac asesiadau carthu yn gwella'r gwasanaeth rheoleiddio dŵr drwy wella gallu draenio yn yr ABA a bydd llai o berygl o lifogydd o gwlfertau wedi'u blocio, a fydd yn cael effaith gadarnhaol yn y tymor byr. Bydd mân welliannau, gwaith i atgyweirio amddiffynfeydd a chreu ardaloedd storio ledled yr ABA hefyd yn lleihau'r perygl o lifogydd;

- Gallai asesiadau cychwynnol a fydd yn arwain at weithredu cynlluniau lliniaru llifogydd a gwella safonau amddiffynfeydd llifogydd sy'n bodoli eisoes, gael effaith negyddol ar wasanaethau rheoleiddio dŵr yn dibynnu ar y math o gamau/gwaith a'u cynllun.  Bydd mesurau i godi amddiffynfeydd llifogydd i lefel uwch yn y tymor hwy mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd yn cynnal neu'n gwaethygu'r datgysylltiad rhwng cwrs dŵr a'i orlifdir naturiol gan atal cyfleoedd i ddŵr ymdreiddio a chael ei storio'n well.  Gallai cynlluniau posibl i liniaru llifogydd mewn cymunedau penodol sy'n cynnwys peirianneg galed ac addasiadau ffisegol mawr i'r sianel a'r glannau, gael effaith andwyol ar brosesau naturiol drwy arwain at golli cynefinoedd, llai o amrywiaeth morffolegol a mwy o ddŵr ffo wyneb o ardaloedd cyfagos.


Cydnabyddir y gallai llawer o'r camau hyn gael eu rhoi ar waith mewn nifer o ffyrdd er mwyn sicrhau'r lleihad dymunol yn y perygl o lifogydd. Bydd adfer cyrsiau dŵr naturiol (e.e. dadsianelu) a lleihau dwysedd gweithgareddau cynnal a chadw hefyd o fudd i wasanaethau rheoleiddio dŵr drwy hwyluso cyrsiau dŵr sy'n fwy naturiol o ran morffoleg eu sianelau a'u cynefinoedd.  Bydd creu ac ailsefydlu cynefinoedd, er enghraifft, yn helpu i leihau faint o ddŵr ffo wyneb sy'n ymuno â chyrsiau dŵr a bydd gwella amrywiaeth morffolegol yn helpu i arafu llifoedd dŵr ac amseroedd ymateb cyrsiau dŵr i ddigwyddiadau glawiad.

Mae camau i gael gwared ar amddiffynfeydd llifogydd neu eu symud yn ôl a chyfleoedd i ailalinio mewn ffordd reoledig gan greu cynefinoedd cysylltiedig (e.e. morfeydd heli, corsydd pori ar orlifdir) hefyd yn debygol o fod o fudd i wasanaethau rheoleiddio dŵr. Bydd y mesurau hyn yn helpu i ailgysylltu cyrsiau dŵr â'u gorlifdir ac yn gwella eu gallu i storio dŵr a'i gwneud yn haws i'r dŵr ymdreiddio.  Bydd mentrau ailalinio rheoledig sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol, yn cynnal gallu'r ardaloedd hyn i ymdopi â dyfroedd llanw ac yn helpu i wasgaru grym erydu dyfroedd llanw yn ogystal â gwella gallu'r ardaloedd hyn i wrthsefyll stormydd.

Yn gyffredinol, o ganlyniad i'r cynllun, disgwylir y bydd effaith gadarnhaol fach ar y gwasanaeth rheoleiddio dŵr a ddarperir yn ABA Gorllewin Cymru. Cyfyngir yr effeithiau yn

bennaf i'r ardaloedd o gwmpas y cymunedau lle caiff y camau gweithredu eu cymryd, sydd wedi'u canoli yn ardal ddeheuol a mwyaf poblog yr ABA ac o gwmpas yr arfordir fel y dangosir yn Ffigur 4.2.

**Ffigur 4.2**: **Dosbarthiad yr effeithiau posibl ar wasanaethau rheoleiddio dŵr yn ABA Gorllewin Cymru**


No potential effect
Potential positive effect
Potential negative effect
Gronant
Holyhead
Llandudno
Penrhyn Bay
Prestatyn
Rhyl
Towyn
Kinmel Bay
Conwy
Rhuddlan
Pen-y-ffordd
Llanfairfechan
St Asaph / Llanelwy
Ffrith
Bangor
Denbigh
Llanrwst
Greenfield
Tremadog
Porthmadog
Pwllheli
Talsarnau
Dolgellau
Barmouth
Fairbourne
Aberystwyth
Llanrhystud
Aberaeron
Lampeter
Cwmann
Bridgend (Ceredigion)
Llanybydder
Llanwrda
Llangadog
Solva
Abergwili
Haverfordwest
Llanddowror
Llandybie
Little Haven
Ammanford
Ystradgynlais
Stepaside
Pontyates
Blaengwrach
Dale
Pontarddulais
Tenby
Pembrey
Dafen
Llansamlet
Swansea
Black Pill
Maesteg
Aberkenfig
Pencoed
Bridgend
Cowbridge
Dinas Powys

**Pa mor arwyddocaol fydd y newidiadau a ragwelir i wasanaethau rheoleiddio dŵr yn ABA Gorllewin Cymru?**

Rhagwelir y bydd y cynllun yn cael effaith arwyddocaol ar wasanaethau rheoleiddio dŵr yn yr ABA. Effaith gadarnhaol fydd hon yn bennaf ond fe'i cyfyngir i'r cymunedau penodol lle caiff y camau eu rhoi ar waith. Bydd yr effaith gadarnhaol hon o'r budd mwyaf i drigolion a busnesau yn ardaloedd iseldirol a threfol yr ABA, gan y bydd llai o berygl o lifogydd.

Gallai mesurau i wella safonau amddiffynfeydd presennol, adnewyddu asedau presennol neu osod rhai newydd yn eu lle a'r cynlluniau newydd i ymdrin â'r perygl o lifogydd mewn cymunedau penodol gael effaith andwyol ar wasanaethau rheoleiddio dŵr lleol yn dibynnu ar y math o opsiwn a ddewisir a'i gynllun. Wrth ddatblygu prosiect, dylid ystyried dulliau sy'n osgoi effeithiau negyddol posibl ac ymyriadau sy'n defnyddio prosesau naturiol cymaint â phosibl, fel defnyddio SDCau, adfer cyrsiau dŵr naturiol a chreu cynefinoedd. Nodir effeithiau anuniongyrchol a chronnol y gwelliannau i'r gwasanaeth rheoleiddio dŵr yn Adran 3 isod.

## 3. Rheoleiddio Pridd ac Erydiad

**Beth yw gwasanaethau rheoleiddio pridd ac erydiad?**

Proses naturiol yw erydiad tir lle caiff gronynnau pridd eu symud a'u gwaddodi, yn bennaf gan ddŵr ac aer. Mae Gwasanaethau Rheoleiddio Erydiad yn ffordd o ddisgrifio gallu cynefinoedd a phlanhigion i helpu i gadw priddoedd a lleihau cyfraddau erydu.

**Beth yw gwaelodlin presennol y gwasanaeth hwn yn ABA Gorllewin Cymru?**

Mae ffactorau fel glawiad, llethr, y math o bridd, y math o lystyfiant a maint y gorchudd yn dylanwadu ar gyfraddau erydiad tir. Os bydd llystyfiant yn diflannu oherwydd tocio, pori neu ddatgoedwigo, er enghraifft, bydd cyfraddau erydu yn cynyddu fel arfer. Ystyrir mai arferion amaethyddol yw prif achos erydiad tir yng Nghymru. Gyda'i lefelau glawiad uchel, dalgylchoedd ucheldirol serth a'r ardal gymharol fawr o dir gwledig a ddefnyddir at ddefnydd amaethyddiaeth, gall fod cyfraddau erydiad tir uchel yn ABA Gorllewin Cymru.

Mae erydiad tir a gwaddodi yn broblem gyffredin a achosir gan amlaf gan gyfraddau uchel o ddŵr ffo wyneb o dir amaethyddol (llygredd gwasgaredig). Mae hyn yn digwydd fel arfer o ganlyniad i leiniau clustogi ar lannau afonydd, arferion amaethyddol, prosesau cywasgu pridd, difrod i lannau wrth iddynt gael eu sathru gan anifeiliaid a digwyddiadau glawiad trwm.

Mae rhai mathau o bridd yn ABA Gorllewin Cymru yn haws i'w herydu. Gall priddoedd asidig yr ucheldir yn nalgylchoedd uchaf yr ABA gael eu rhigoli a gallant golli gronynnau, yn enwedig os oes llystyfiant wedi'i golli neu'i ddifrodi. Gall y priddoedd asidig tenau ar lethrau gweunydd serth gael eu herydu, yn enwedig drwy bori neu bwysau cerdded. Mae ardaloedd o erydu a achosir gan afonydd a llynnoedd yn yr ABA hefyd, ac erydu arfordirol a achosir gan y tonnau.

**Gwaelodlin yn y dyfodol - pa wasanaethau rheoleiddio pridd ac erydiad sy'n debygol o gael eu darparu yn y dyfodol heb y cynllun?**

Heb y cynllun, bydd y newid a ragwelir yn yr hinsawdd a'r cynnydd dilynol yn nifrifoldeb digwyddiadau tywydd, erydiad a achosir gan law, cynnydd yn lefelau afonydd a difrod stormydd (e.e. coed sy'n cwympo), yn ogystal â'r cynnydd disgwyliedig yn y boblogaeth a fydd yn arwain at fwy o drefoli ac yn dwysáu cynhyrchiant bwyd, yn arwain at fwy o erydiad tir yn yr ABA a bydd llai o wasanaethau rheoleiddio erydiad. Gallai mentrau sy'n mynd rhagddynt i adfer mawndiroedd leihau'r newidiadau i'r gwasanaeth hwn a lleihau cyfraddau erydiad yn yr ucheldiroedd ac mae ymwybyddiaeth gynyddol o ddulliau da o reoli pridd yn y gymuned amaethyddol yn gwella cynhyrchiant.

Gallai newidiadau hinsawdd sy'n codi lefel y môr ac yn achosi rhagor o stormydd waethygu erydiad arfordirol mewn lleoliadau penodol, er enghraifft, erydiad y twyni tywod ger Pwllheli.


**Sut y rhagwelir y bydd CRhPLl Gorllewin Cymru yn effeithio ar y manteision i'r gwasanaeth hwn?**

Mae'r mesurau allweddol a allai effeithio ar y gwasanaeth rheoleiddio pridd ac erydiad yn yr ABA yn cynnwys:

- Gallai asesiadau cychwynnol, sy'n arwain at adeiladu cynlluniau lliniaru llifogydd, gael effaith gadarnhaol yn y tymor hir drwy leihau neu atal llifogydd a difrod stormydd a, thrwy hynny, erydiad. Gall cyfraddau erydiad tir neu erydiad arfordirol gynyddu mewn mannau yn ystod ac yn union ar ôl gwaith adeiladu wrth i'r gorchudd llystyfiant gael ei golli ac wrth i'r uwchbridd gael ei stripio a'i storio. Fodd bynnag, gellir rheoli'r sefyllfa drwy ddefnyddio arferion rheoli a storio pridd priodol a gaiff eu monitro drwy'r Cynllun Gweithredu Amgylcheddol (CGA).
- Gallai camau i ychwanegu mwy o seilwaith glannau caled yn dilyn yr asesiadau cychwynnol, fel waliau llifogydd neu waliau cynnal, a hefyd waith i atgyweirio seilwaith presennol, effeithio ar brosesau gwaddodi naturiol a phrosesau erydu ar lan yr afon neu'r arfordir dan sylw, gan arwain at effaith negyddol yn y tymor hir.
- Gallai creu ardaloedd storio a strwythurau cronni newid prosesau erydu yn yr ABA ac achosi gwaddodion artiffisial a gwaddodion i fyny'r afon, gan gael effaith negyddol yn gyffredinol. Mae'r mesurau hyn wedi'u cyfyngu i nifer fach o gymunedau, felly ni ddisgwylir i'r effeithiau fod yn arwyddocaol.
- Gallai asesiadau carthu, i werthuso effaith amgylcheddol ac effeithiolrwydd cyffredinol gwaith carthu mewn rhai afonydd yn yr ABA, gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y gwasanaeth hwn - gallai prosesau erydu naturiol gael eu hadfer os bydd lefelau carthu yn lleihau neu efallai y bydd angen gwneud mwy o waith carthu er mwyn ymateb i'r perygl o lifogydd.

Yn gyffredinol, o ganlyniad i'r CRhPLl, rhagwelir y bydd effaith gadarnhaol ac uniongyrchol fach ar y gwasanaethau pridd ac erydiad a ddarperir yn ABA Gorllewin Cymru yn y tymor hir o ganlyniad i leihad yn y perygl o ddifrod stormydd sylweddol ac erydiad a achosir gan lifogydd, a newidiadau i drefniadau carthu. Cyfyngir yr effeithiau yn bennaf i'r ardaloedd o gwmpas y cymunedau lle caiff y camau gweithredu eu cymryd, a'r rhai sydd ymhellach i lawr afonydd yn achos cymunedau afonol. Mae'r rhain yn bennaf yn ne-ddwyrain yr ABA ac o gwmpas yr arfordir gorllewinol, fel y dangosir yn Ffigur 4.3.

**Ffigur 4.3: Dosbarthiad yr effeithiau posibl ar wasanaethau rheoleiddio pridd ac erydiad yn ABA Gorllewin Cymru**


No potential effect
Potential positive effect
Potential negative effect
Gronant
Holyhead
Dyffryn
Llandudno
Penrhyn Bay
Prestatyn
Rhyl
Towyn
Kinmel Bay
Conwy
Rhuddlan
Pen-y-ffordd
Llanfairfechan
St Asaph / Llanelwy
Ffrith
Bangor
Denbigh
Llanrwst
Greenfield
Tremadog
Porthmadog
Talsarnau
Pwllheli
Dolgellau
Barmouth
Fairbourne
Aberystwyth
Llanrhystud
Aberaeron
Lampeter
Cwmann
Cardigan
Bridgend (Ceredigion)
Llechryd
Llanybydder
Llanwrda
Llangadog
Solva
Abergwili
Haverfordwest
Llanddowror
Little Haven
Llandybie
Ammanford
Ystradgynlais
Pontyates
Stepaside
Dale
Blaengwrach
Pontarddulais
Tenby
Pembrey
Dafen
Loughor
Gowerton
Llansamlet
Swansea
Cwmafan
Black Pill
Maesteg
Margam
Aberkenfig
Pyle
Sarn
Pencoed
Bridgend
Cowbridge
Dinas Powys
Sully

**Pa effeithiau arwyddocaol y bydd gweithredu CRhPLl Gorllewin Cymru yn eu cael ar y gwasanaeth hwn?**

Ni ragwelir y bydd gweithredu CRhPLl Gorllewin Cymru yn cael effaith arwyddocaol ar wasanaethau rheoleiddio pridd ac erydiad yn yr ABA, fodd bynnag rhagwelir y bydd effaith gadarnhaol fach ar y gwasanaeth yn gyffredinol, wedi'i chanoli mewn ardaloedd penodol o'r ABA. Bydd yr effaith hon o'r budd mwyaf i drigolion y cymunedau dan sylw, y gymuned bysgota oherwydd bydd prosesau erydu naturiol yn cael eu hadfer a'r diwydiannau amaethyddol oherwydd bydd llai o dir yn cael ei erydu. Nodir effeithiau anuniongyrchol a chronnol y gwelliannau i'r gwasanaeth rheoleiddio pridd ac erydiad yn Adran 3 isod.

## 4. Treftadaeth Ddiwylliannol

**Beth yw gwasanaethau treftadaeth ddiwylliannol?**

Mae llawer o gymdeithasau yn rhoi llawer o werth ar gynnal tirweddau sy'n hanesyddol bwysig ('tirweddau diwylliannol') a nodweddion eraill (adeiladau, archeoleg, a chysylltiadau â chyn-ddefnydd diwydiannol).

**Beth yw gwaelodlin presennol y gwasanaeth hwn yn ABA Gorllewin Cymru?**

Mae gan ABA Gorllewin Cymru gyfoeth o asedau treftadaeth dynodedig, er enghraifft, henebion, adeiladau rhestredig, parciau a gerddi cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth. Mae'r asedau hyn i'w gweld ledled yr ABA ac fel arfer maent yn gysylltiedig â threfi arfordirol ac afonol hanesyddol Cymru, gan gynnwys Aberystwyth, Porthmadog, Talacharn, Llandudno a Llanbedr Pont Steffan. Mae Safle Treftadaeth y Byd o fewn yr ABA, sef Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd (pedwar safle: Biwmares, Caernarfon, Harlech a Chonwy). Mae'r moroedd o gwmpas Cymru yn cynnwys cyfoeth eithriadol o safleoedd ac olion archeolegol ac mae llawer o safleoedd arfordirol a llongddrylliadau wedi'u rhestru a chaiff rhai ohonynt eu diogelu o dan Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973.

Mae dros 2,500 o Henebion Rhestredig, yn ogystal â llu o safleoedd o bwysigrwydd hanesyddol neu archeolegol yn yr ABA (e.e. Adeiladau Rhestredig, a thua 200 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig). Yn y mewndir, mae gan lawer o strwythurau fel melinau, pontydd, coredau a llifddorau statws rhestredig neu maent o bwysigrwydd hanesyddol

lleol. Mae etifeddiaeth y diwydiant glo yn yr ABA wedi effeithio ar ansawdd y dŵr, ond gall unrhyw nodweddion glofaol sydd wedi goroesi fod yn bwysig am eu gwerth treftadaeth hefyd. Mae llawer iawn o'r 58 o Dirweddau Hanesyddol sydd yng Nghymru wedi'u lleoli yn yr ABA gan ymestyn dros 300,000ha. Gall nodweddion archeolegol ar orlifdir a thir sy'n llawn dŵr wyneb wynebu perygl yn sgil prosesau sychu, erydu neu orlifo.

**Gwaelodlin yn y dyfodol - pa wasanaethau treftadaeth ddiwylliannol sy'n debygol o gael eu darparu yn y dyfodol heb y cynllun?**

Mae gwaelodlin y gwasanaethau diwylliannol yn y dyfodol yn dibynnu ar y camau a gymerir gan amrywiaeth o randdeiliaid (h.y. sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol) i warchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, asedau treftadaeth a'u lleoliadau. Heb y cynllun, gallai asedau treftadaeth yn ABA Gorllewin Cymru gael eu heffeithio gan weithgareddau tynnu dŵr a newidiadau dilynol mewn llifoedd dŵr daear a chemeg ar olion archeolegol a phalaeo-amgylcheddol dirlawn, sydd wedi'u claddu mewn dyffrynnoedd afonydd, gorlifdir a chynefinoedd gwlyptir. Gallai'r canlynol effeithio arnynt hefyd: camau i roi cynlluniau arfaethedig i liniaru llifogydd ar waith; adnewyddu neu wella amddiffynfeydd llifogydd sy'n bodoli eisoes; ymestyn rhaglenni Amddiffyn Lefel Eiddo unigol; creu SDCau mewn ardaloedd trefol a gwledig; gwaith parhaol i gynnal a chadw cyrsiau dŵr; a mentrau lleol i greu cynefinoedd ac ailalinio mewn ffordd reoledig.

Yn benodol, gall gwaith cloddio effeithio ar olion archeolegol a gallai cyflwyno strwythurau neu nodweddion newydd amharu ar gymeriad ac ymddangosiad trefluniau hanesyddol neu effeithio ar gynefin asedau treftadaeth. Gall asedau treftadaeth wynebu mwy o berygl o lifogydd hefyd yn sgil newidiadau yn yr hinsawdd ac wrth i bwysau datblygu cynyddol mewn ardaloedd trefol arwain at fwy o lifogydd afonol a dŵr wyneb difrifol.

**Sut y rhagwelir y bydd CRhPLl Gorllewin Cymru yn effeithio ar y manteision i'r gwasanaeth hwn?**

Mae'r prif fesurau a allai arwain at effeithiau negyddol ar y gwasanaeth treftadaeth ddiwylliannol yn yr ABA yn cynnwys newidiadau i ddefnydd tir neu waith cloddio ymwthiol sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw, gwella neu adeiladu amddiffynfeydd newydd. Gallai'r

gweithgareddau hyn niweidio nodweddion o ddiddordeb hanesyddol ac olion archeolegol, gan gynnwys gwaddodion mawn a sianelau palaeo-amgylcheddol yn ogystal ag olion archeolegol sydd wedi'u claddu ac asedau treftadaeth adeiledig fel pontydd, coredau neu felinau rhestredig.

Gallai cynlluniau ailalinio rheoledig a roddir ar waith drwy'r RhCCG effeithio ar asedau treftadaeth ar yr arfordir. Gall hyn ddigwydd wrth i dir ychwanegol gael ei gymryd er mwyn adleoli'r amddiffynfeydd yn ogystal â'r posibilrwydd y bydd maint ac amlder llifogydd yn cynyddu.  Gall argloddiau llifogydd fod o ddiddordeb hanesyddol ynddynt eu hunain a chyfrannu at gymeriad hanesyddol y dirwedd leol.

Fodd bynnag, gallai mesurau fod o fudd i wasanaethau treftadaeth ddiwylliannol.  Yn lleol, wrth adnewyddu asedau llifogydd presennol neu osod rhai newydd yn eu lle, gellir gwella eu cynllun er mwyn lleihau eu heffaith weladwy ar gynefin asedau treftadaeth neu'r treflun hanesyddol cyfagos.  Mae cynnal yr amddiffynfeydd llifogydd a rhoi cynlluniau lliniaru llifogydd ar waith mewn cymunedau penodol hefyd yn debygol o fod o fudd i asedau treftadaeth yn yr ardaloedd hynny drwy leihau'r perygl o lifogydd a helpu i sicrhau eu bod yn parhau i gael eu defnyddio a'u cynnal.

Er mwyn lliniaru'r effeithiau negyddol posibl, dylid cynnal asesiad treftadaeth ddiwylliannol mewn perthynas ag unrhyw waith ymwthiol, gan wneud cymaint o ddefnydd â phosibl o wybodaeth leol, cyn rhoi'r mesur perthnasol ar waith. Bydd hyn yn sicrhau y caiff yr holl effeithiau ar y dreftadaeth archeolegol neu adeiledig eu rheoli'n briodol. Mae cyfleoedd i wneud newidiadau cadarnhaol lleol o ran gwasanaethau treftadaeth ddiwylliannol drwy gadw a chofnodi unrhyw dreftadaeth sydd mewn perygl a thrwy feithrin ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a mwynhad o'r amgylchedd hanesyddol.  Gallai'r newidiadau cadarnhaol hyn ddigwydd drwy godi ymwybyddiaeth tirfeddianwyr a chymunedau lleol o asedau treftadaeth sy'n gysylltiedig â dŵr a'u harwyddocâd; hyrwyddo camau i'w gwarchod a'u gwella drwy reoli'r dalgylch mewn ffordd integredig a thrwy reoli tir yn gynaliadwy; a gwella mynediad cyhoeddus ac adnoddau dehongli.

Yn gyffredinol, o ganlyniad i'r CRhPLl, rhagwelir y gall fod effaith negyddol fach ar y gwasanaethau treftadaeth ddiwylliannol a ddarperir yn ABA Gorllewin Cymru. Mae hyn yn dibynnu'n fawr ar leoliad y mesurau fodd bynnag, gan fod y dreftadaeth ddiwylliannol yn yr ABA wedi'i chyfyngu i ardaloedd a thirweddau penodol ac os bydd y mesurau hyn yn osgoi'r ardaloedd a'r tirweddau hyn, bydd llai o botensial am effeithiau. Caiff yr effeithiau eu cyfyngu'n bennaf i'r cymunedau lle bwriedir cymryd camau gweithredu, fel y dangosir yn Ffigur 4.4. Bydd angen i waith ynghanol aneddiadau ystyried asedau'r dreftadaeth adeiledig, ac efallai y bydd angen i waith a wneir i fyny neu i lawr yr afon o'r cymunedau hyn, er mwyn creu ardaloedd storio neu strwythurau cronni o bosibl, ystyried archeoleg wedi'i chladdu yn fanylach.

**Pa mor arwyddocaol fydd y newidiadau a ragwelir i wasanaethau treftadaeth ddiwylliannol yn ABA Gorllewin Cymru?**

Ni ragwelir y bydd gweithredu CRhPLl Gorllewin Cymru yn cael effaith arwyddocaol ar wasanaethau treftadaeth ddiwylliannol, fodd bynnag rhagwelir y bydd effaith negyddol fach. Rhagofal yw hyn o gofio bod cryn ansicrwydd drwy'r ABA bron i gyd ynghylch cynllun y mesurau a'r math o nodweddion treftadaeth ddiwylliannol y gallent effeithio arnynt. Bydd yr effaith negyddol hon yn bennaf perthnasol i'r rhai sy'n ymweld â'r asedau ac yn eu defnyddio, hynny yw, y rhai sy'n gwerthfawrogi treftadaeth ddiwylliannol yr ABA. Gallai'r mesurau effeithio ar werth treftadaeth cynhenid yr ABA hefyd.

Er mwyn gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, bydd hi'n bwysig bod unrhyw gynlluniau unigol yn nodi, cyn gynted â phosibl, unrhyw asedau treftadaeth sydd wedi'u dynodi neu sydd heb eu dynodi, gan gynnwys y risg o archeoleg gladdedig nas gwyddys amdani, er mwyn nodi unrhyw effeithiau andwyol posibl yn ogystal â chyfleoedd gwella; penderfynu a ddylid gweithredu yn sgil arwyddocâd yr asedau treftadaeth a'r effeithiau tebygol; llywio opsiynau'r cynllun a'r dyluniadau manwl; a llunio strategaeth liniaru briodol.

Os nodir effeithiau andwyol posibl, bydd angen datblygu mesurau lliniaru penodol mewn ymgynghoriad â'r sefydliadau perthnasol, gan gynnwys Cadw, yr Ymddiriedolaeth Archeolegol berthnasol a swyddog cadwraeth yr awdurdod lleol. Nodir effeithiau

anuniongyrchol a chronnol y gwelliannau i'r gwasanaeth treftadaeth ddiwylliannol yn Adran 3 isod.

**Ffigur 4.4**: **Dosbarthiad yr effeithiau posibl ar wasanaethau treftadaeth ddiwylliannol yn ABA Gorllewin Cymru**


No potential effect
Potential positive effect
Potential negative effect
Gronant
Holyhead
Llandudno
Penrhyn Bay
Prestatyn
Rhyl
Conwy
Towyn
Kinmel Bay
Rhuddlan
Pen-y-ffordd
St Asaph / Llanelwy
Ffrith
Llanfairfechan
Bangor
Denbigh
Greenfield
Tremadog
Porthmadog
Pwllheli
Barmouth
Fairbourne
Aberystwyth
Llanrhystud
Aberaeron
Lampeter
Bridgend (Ceredigion)
Llanybydder
Llanwrda
Llangadog
Abergwili
Haverfordwest
Little Haven
Dale
Stepaside
Tenby
Llandybie
Ammanford
Pontyates
Pontarddulais
Pembrey
Dafen
Gowerton
Swansea
Black Pill
Blaengwrach
Maesteg
Margam
Pyle
Bridgend
Cowbridge
Dinas Powys
Sully

## 5. Hamdden a Thwristiaeth (gan gynnwys mannau glas a gwyrdd hygyrch)

**Beth yw gwasanaethau hamdden a thwristiaeth?**

Mae pobl yn aml yn dewis ble i dreulio eu hamser hamdden yn rhannol ar sail nodweddion y tirweddau naturiol neu'r tirweddau wedi'u trin mewn ardal benodol.

**Beth yw gwaelodlin presennol y gwasanaeth hwn yn ABA Gorllewin Cymru?**

Mae cyfleoedd hamdden a thwristiaeth amrywiol iawn yn yr ABA sy'n amrywio o bysgota a chwaraeon dŵr i gerdded a chyrchfannau poblogaidd i ymwelwyr fel Eryri, Ynys Môn, Sir Benfro, Gŵyr a Bannau Brycheiniog. Mae twristiaeth yn rhan bwysig o economi leol yr ABA, yn enwedig yn yr ardaloedd hyn.

Mae gan yr ABA rwydwaith o lwybrau cerdded gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru, sy'n denu nifer fawr o ymwelwyr, tua 3 miliwn o bobl o fewn 12 mis cyntaf ar ôl iddo agor. Mae amrywiaeth o chwaraeon mordwyo a dŵr yn yr ABA, gan gynnwys canŵio, rhwyfo, hwylio a bordhwylio. Mae llawer o gyfleoedd beicio yn yr ABA hefyd, o feicio mynydd yng Nghoed y Brenin ger Dolgellau, i feicio ar hyd Llwybr Arfordirol y Mileniwm yn Llanelli. Hefyd, mae'r nifer o draethau o ansawdd uchel sydd o gwmpas yr arfordir yn ased pwysig i'r ABA, gan eu bod yn darparu cyfleoedd hamdden er budd pobl Cymru ac ymwelwyr.

Mae pysgota yn weithgarwch hamdden poblogaidd yn yr ABA. Gellir pysgota am eogiaid, brithyllod môr a brithyllod ar afonydd fel y Teifi, gellir pysgota bras mewn llynnoedd a chamlesi fel Camlas Nedd a gellir pysgota yn y môr ar arfordir yr ABA. Mae'r ABA yn cynnwys ardaloedd poblogaidd i wylio adar a bywyd gwyllt, gan gynnwys Ynys Sgomer a Gwarchodfa Natur Ynys-hir, sy'n 700ha, yn Aber Dyfi.

Gall yr adnoddau hamdden hyn ar y tir ac yn y dŵr helpu i wella ansawdd bywyd ac iechyd pobl. Maent o fudd i'r economi hefyd.

**Gwaelodlin yn y dyfodol - pa wasanaethau hamdden a thwristiaeth sy'n debygol o gael eu darparu yn y dyfodol heb y cynllun?**

Heb y cynllun, rhagwelir y bydd y gwasanaeth hamdden a thwristiaeth yn newid ac yn datblygu dros amser, dan ddylanwad prosiectau a strategaethau i ddatblygu rhai ardaloedd penodol o'r ABA.

Yn y tymor hwy, gall newid hinsawdd olygu y bydd asedau hamdden a thwristiaeth penodol yn wynebu mwy o berygl o lifogydd. Fel y nodwyd eisoes yn yr asesiad o wasanaethau treftadaeth ddiwylliannol, gallai'r cynnydd a ragwelir mewn lefelau glawiad a dwysedd ac amlder stormydd olygu y bydd llifogydd mwy difrifol a rheolaidd yn effeithio ar drefi arfordirol ac afonol hanesyddol yr ABA, yn ogystal ag asedau treftadaeth eraill. Mae llawer o'r trefi hyn yn ganolfannau hamdden a thwristiaeth pwysig ac yn denu ymwelwyr o'r ardal ei hun yn ogystal ag ymwelwyr cenedlaethol. Gallai llifogydd hir a mwy rheolaidd gael effaith andwyol ar yr economi dwristiaeth leol drwy amharu ar dwristiaeth ac arwain at gostau atgyweirio a lleihad posibl yn nifer yr ymwelwyr yn sgil delweddau negyddol yn y wasg.

**Sut y rhagwelir y bydd CRhPLl Gorllewin Cymru yn effeithio ar y manteision i'r gwasanaeth hwn?**


Y prif fesurau a allai effeithio ar y gwasanaeth hamdden a thwristiaeth yn yr ABA yw gwaith adeiladu sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw, atgyweirio a gwella strwythurau presennol, a gwaith i adeiladu cynlluniau rheoli perygl llifogydd newydd o'r asesiadau a'r arolygiadau cychwynnol. Pan fo'r rhain wedi'u lleoli mewn cymunedau ac aneddiadau ag asedau hamdden a thwristiaeth fel Aberystwyth, Porthmadog neu Ben-bre, gallent gael effaith negyddol yn y tymor byr ar y gwasanaeth hamdden a thwristiaeth yn yr ABA. Bydd hyn o ganlyniad i aflonyddwch posibl ar fynediad cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus, cyfyngiadau ar ddefnyddio meysydd chwarae neu gyfyngiadau mynediad i lannau afonydd at ddibenion pysgota hamdden, cynlluniau i gau neu gyfyngu ar gyfleusterau hamdden eraill ac atyniadau twristiaeth. Fel arfer, bydd yr effaith fyrdymor hon yn diflannu unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau, ar yr amod y defnyddir cynlluniau amgylcheddol da. Fodd bynnag, gallai fod effaith negyddol hirdymor yn yr ardaloedd hyn os oes angen

cynlluniau neu strwythurau newydd a allai effeithio'n sylweddol ar y dirwedd a'r amgylchedd presennol a'r defnydd a wneir ohonynt at ddibenion hamdden a thwristiaeth.

Yn gyffredinol, o ganlyniad i'r cynllun, rhagwelir y bydd effaith negyddol fach ar y gwasanaethau hamdden a thwristiaeth a ddarperir yn ABA Gorllewin Cymru. Caiff yr effeithiau eu cyfyngu'n bennaf i'r cymunedau lle bwriedir cymryd camau gweithredu, fel y dangosir yn Ffigur 4.5. Gallai cynlluniau i liniaru llifogydd gael effeithiau negyddol os byddai eu lleoliad neu eu cynllun yn cyfyngu ar fynediad i gwrs dŵr neu'n amharu ar y defnydd a wneir ohono ar gyfer gweithgareddau dŵr (e.e. mynd mewn cwch, canŵio). Gallai cynlluniau newydd a chamau i wella safonau amddiffynfeydd llifogydd presennol gael effaith weladwy ar y dirwedd gyfagos a threfluniau sy'n adnabyddus am eu nodweddion esthetig. Gallai gwaith ailalinio rheoledig, gwaith i gael gwared ar amddiffynfeydd uchel presennol neu beidio â'u cynnal a'u cadw mwyach effeithio ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, gan gynnwys llwybrau troed pellter hir fel Llwybr Arfordir Cymru. Gallai lleihad yn nwysedd gwaith cynnal a chadw gael effaith negyddol hefyd ar apêl esthetig ac atyniad cyrsiau dŵr a gaiff eu gorchuddio gan dyfiant, gan eu gwneud yn anaddas ar gyfer gweithgareddau dŵr. Yn olaf, gall addasu amddiffynfeydd llifogydd presennol neu osod rhai newydd yn eu lle (e.e. clwydi llanw neu afonydd) arwain at newidiadau yn lefelau a llif y dŵr a allai effeithio ar y defnydd hamdden a wneir o gwrs dŵr, fel mynd mewn cwch neu hwylio.

Er mwyn lliniaru'r effaith bosibl hon, rhaid dylunio gwaith mewn ffordd sy'n briodol i'r ardal leol, gan gytuno â'r cyrff llywodraethu priodol ynglŷn â gorffeniadau a dulliau gwaith. Mae cyfleoedd i liniaru'r effeithiau hyn a gwella cymunedau lleol drwy waith cynllunio amgylcheddol da. Mae creu amgylcheddau afonol mwy naturiol ac atyniadol (e.e. gwasanaethau esthetig) yn debygol o annog mwy o weithgareddau dŵr hamdden a gweithgareddau hamdden anffurfiol fel cerdded a gwylio adar. Bydd newidiadau i drefniadau cynnal a chadw fel carthu, yn debygol o wella cynefinoedd pysgod ac adnoddau cyrsiau dŵr ar gyfer pysgota hamdden. Bydd cyfleoedd ailalinio rheoledig a chyfleoedd i greu cynefin rhynglanwol drwy'r RhCCG yn ychwanegu ymhellach at apêl yr ardal fel lle i wylio adar.

**Ffigur 4.5: Dosbarthiad yr effeithiau posibl ar wasanaethau hamdden a thwristiaeth yn ABA Gorllewin Cymru**




Yn fwy cyffredinol, fel y nodwyd eisoes yn yr asesiad o wasanaethau treftadaeth ddiwylliannol, gall yr economi dwristiaeth leol gael budd o'r ffaith y bydd trefi arfordirol ac

afonol hanesyddol yr ABA ac asedau treftadaeth eraill yn wynebu llai o berygl o lifogydd. Bydd hyn yn digwydd o ganlyniad i gynlluniau lliniaru llifogydd, gwelliannau i amddiffynfeydd llifogydd presennol a mesurau ehangach yn y dalgylch i reoleiddio dŵr.

**Pa mor arwyddocaol fydd y newidiadau a ragwelir i wasanaethau hamdden a thwristiaeth yn ABA Gorllewin Cymru?**

Ni ragwelir y bydd gweithredu CRhPLl Gorllewin Cymru yn cael effaith arwyddocaol ar y gwasanaeth hamdden a thwristiaeth yn yr ABA, fodd bynnag rhagwelir y bydd effaith negyddol fach ar y gwasanaeth hamdden a thwristiaeth yn gyffredinol. Bydd yr effaith negyddol hon yn bennaf perthnasol i'r rhai sy'n ymweld â'r afonydd, llynnoedd ac aberoedd ac yn eu defnyddio, oherwydd mae'n bosibl y bydd y dirwedd a darpariaethau hamdden yn newid. Dylai gwaith cynllunio amgylcheddol da ac ymdrechion i gydweithio â grwpiau defnyddwyr lleol helpu i liniaru'r effeithiau a gwella'r gwasanaeth hwn lle bo hynny'n bosibl. Bydd y diwydiant twristiaeth yn cael budd anuniongyrchol o leihad yn y perygl o lifogydd oherwydd bydd llai o aflonyddwch a cholledion busnes.

Nodir effeithiau anuniongyrchol a chronnol y gwelliannau i'r gwasanaeth hamdden a thwristiaeth yn Adran 3 isod.

## 6. Gwerth Esthetig (e.e. tirwedd, morlun, tawelwch)

**Beth yw gwasanaethau gwerth esthetig?**

Mae llawer o bobl yn teimlo bod agweddau amrywiol ar ecosystemau yn hardd neu o werth esthetig, fel y dangosa'r gefnogaeth i barciau a theithiau ceir drwy ardaloedd o harddwch a'r lleoliadau a ddewisir i adeiladu tai.

**Beth yw gwaelodlin presennol y gwasanaeth hwn yn ABA Gorllewin Cymru?**

Mae tirwedd yr ABA yn amrywio'n fawr o fynyddoedd a llynnoedd Eryri ac aberoedd arfordir y Canolbarth, i draethau a chlogwyni Sir Benfro a threftadaeth ddiwydiannol Cymoedd y De.

Mae rhannau helaeth o'r ABA (65,926ha) wedi'u dynodi'n Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNEau), sef tua 4% o'r ABA. Mae'r rhain yn cynnwys Pen Llŷn, Gŵyr, Ynys Môn a rhan o Fryniau Clwyd. Mae tua 500km o Arfordir Cymru wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth. Mae tri Pharc Cenedlaethol (Bannau Brycheiniog, Sir Benfro a rhannau o Eryri) yn gorchuddio 287,830ha o'r ABA, sef tua 17% o'r ABA. Dyfarnwyd statws awyr dywyll rhyngwladol i Fannau Brycheiniog ym mis Chwefror 2013, dim ond un o bum lle yn y byd sydd wedi cael y statws hwn.

**Gwaelodlin yn y dyfodol - pa wasanaethau gwerth esthetig sy'n debygol o gael eu darparu yn y dyfodol heb y cynllun?**

Heb y cynllun, mae'n debygol y bydd y tirweddau sensitif yn parhau i gael eu datblygu er mwyn gwella eu hansawdd ac, felly, y gwasanaethau gwerth esthetig a ddarperir ganddynt. Fodd bynnag, yn yr iseldiroedd, mae mwy o risg o newidiadau i'r dirwedd ac amwynder gweladwy yn sgil datblygiadau masnachol, preswyl a diwydiannol.

**Sut y rhagwelir y bydd CRhPLl Gorllewin Cymru yn effeithio ar y manteision i'r gwasanaeth hwn?**

Mae'r mesurau allweddol a allai effeithio ar y gwasanaeth gwerth esthetig yn yr ABA yn cynnwys:

- Gall gwaith adeiladu i gynnal a chadw, atgyweirio neu wella asedau presennol ar draws yr ABA gael effaith negyddol yn y tymor byr ar y dirwedd a dyfroedd lleol;
- Gallai asesiadau cychwynnol sy'n arwain at waith adeiladu yn y dyfodol, yn ogystal â gwaith a wneir o ganlyniad i'r astudiaethau dichonoldeb, gael effaith negyddol yn y tymor byr oherwydd bydd gweithgareddau adeiladu yn amharu ar y dirwedd. Hefyd, os caiff strwythurau mwy o faint a mwy gweladwy eu gosod mewn ardaloedd sensitif fel yr Ardaloedd Cadwraeth yn y trefi, gallai hyn achosi effaith negyddol yn y tymor hir ac, yn dibynnu ar eu maint, gallent newid cymeriad tirwedd yr ardal yn sylweddol.
- Gall gwaith ailalinio rheoledig a gwaith i gael gwared ar amddiffynfeydd neu eu gwthio nôl a chreu cynefinoedd cysylltiedig hefyd greu ymddangosiad mwy naturiol. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, gall argloddiau llifogydd uchel fod yn rhan

sefydledig o'r dirwedd leol a gallant fod yn gysylltiedig â gwasanaethau eraill fel hamdden a thwristiaeth, os ydynt yn rhan o lwybrau troed pellter hir (e.e. Llwybr Mawddach). Gallai lleihad yn nwysedd gweithgareddau cynnal a chadw wella apêl esthetig cwrs dŵr drwy ei gwneud hi'n haws i sefydlu cynefinoedd a chreu ymddangosiad mwy amrywiol a naturiol. Gall gwaith i adnewyddu amddiffynfeydd llifogydd presennol neu osod rhai newydd yn eu lle fod yn gyfle i wneud cynlluniau (e.e. maint, deunyddiau, tirlunio) sy'n adlewyrchu'r cyd-destun lleol yn well.

Fodd bynnag, cydnabyddir yn yr asesiad bod llawer o'r newidiadau i'r gwasanaeth hwn yn oddrychol ac yn dibynnu ar natur yr unigolyn a'r gwerth a roddir ar dirweddau penodol.

Yn gyffredinol, o ganlyniad i'r cynllun, rhagwelir y bydd effaith negyddol fach ar y gwasanaethau gwerth esthetig a ddarperir yn ABA Gorllewin Cymru. Caiff yr effeithiau eu cyfyngu'n bennaf i'r cymunedau lle bwriedir cymryd camau gweithredu, fel y dangosir yn Ffigur 4.6. Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl, bydd angen cysylltu'n gynnar â'r bwrdd cadwraeth neu'r awdurdod cynllunio lleol os gwneir unrhyw waith o fewn tirwedd ddynodedig neu gerllaw. Os bydd gwaith yn debygol o gynnwys ymyriadau ffisegol (e.e. basnau storio llifogydd, strwythurau adeiledig, argloddiau uchel), efallai y bydd angen cynnal asesiad o'r effaith weladwy a'r effaith ar gymeriad y dirwedd er mwyn helpu i lywio cynllun y prosiect. Gall cynlluniau rheoli Parciau Cenedlaethol ac AHNE ac astudiaethau o gymeriad tirwedd gael eu defnyddio er mwyn helpu i nodi cyfleoedd i gydweithio a helpu i lywio datblygiad a chynllun prosiectau.

**Pa mor arwyddocaol fydd y newidiadau a ragwelir i wasanaethau gwerth esthetig yn ABA Gorllewin Cymru?**

Ni ragwelir y bydd gweithredu CRhPLl Gorllewin Cymru yn cael effaith arwyddocaol ar wasanaethau gwerth esthetig yn yr ABA, fodd bynnag rhagwelir y bydd effaith negyddol fach ar wasanaethau gwerth esthetig yn gyffredinol, yn gyfyngedig i'r ardaloedd penodol lle bwriedir cymryd camau gweithredu. Bydd yr effeithiau hyn yn bennaf perthnasol i'r rhai sy'n ymweld â'r afonydd, llynnoedd ac aberoedd ac yn eu defnyddio, yn ogystal â thrigolion

a busnesau yn y cymunedau. Nodir effeithiau anuniongyrchol a chronnol y gwelliannau i'r gwasanaeth gwerth esthetig yn Adran 3 isod.

**Ffigur 4.6**: **Dosbarthiad yr effeithiau posibl ar wasanaethau gwerth esthetig yn ABA Gorllewin Cymru**



No potential effect
Potential positive effect
Potential negative effect
Gronant
Holyhead
Llandudno
Penrhyn Bay
Prestatyn
Rhyl
Towyn
Kinmel Bay
Conwy
Rhuddlan
Pen-y-ffordd
St Asaph / Llanelwy
Ffrith
Llanfairfechan
Bangor
Denbigh
Llanrwst
Greenfield
Tremadog
Porthmadog
Pwllheli
Talsarnau
Dolgellau
Barmouth
Fairbourne
Aberystwyth
Llanrhystud
Aberaeron
Lampeter
Cwmann
Cardigan
Bridgend (Ceredigion)
Llechryd
Llanybydder
Llanwrda
Llangadog
Solva
Abergwili
Haverfordwest
Little Haven
Llanddowror
Llandybie
Ammanford
Ystradgynlais
Pontyates
Stepaside
Dale
Blaengwrach
Pontarddulais
Tenby
Pembrey
Dafen
Loughor
Gowerton
Penclawdd
Swansea
Llansamlet
Cwmafan
Black Pill
Maesteg
Margam
Aberkenfig
Sarn
Pencoed
Pyle
Bridgend
Cowbridge
Dinas Powys
Sully

## 7. Darparu Cynefinoedd (Bioamrywiaeth)

**Beth yw gwasanaethau cynefin?**

Mae cynefinoedd yn darparu popeth sydd ei angen ar blanhigyn neu anifail unigol i fyw: bwyd; dŵr; a lloches. Mae pob ecosystem yn cynnwys cynefinoedd gwahanol a all fod yn hanfodol ar gyfer cylch oes rhywogaethau. Mae llawer o rywogaethau adar, pysgod, mamaliaid a phryfed yn dibynnu ar ecosystemau gwahanol wrth iddynt fudo.

**Beth yw gwaelodlin presennol y gwasanaeth hwn yn ABA Gorllewin Cymru?**

Mae gwlyptiroedd yr ABA yn cynnal bywyd gwyllt amrywiol a chaiff pwysigrwydd cynefinoedd gwlyptir ei adlewyrchu gan nifer ac amrywiaeth y dynodiadau cadwraeth natur rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Mae tua 70% o arfordir Cymru wedi'i ddynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), yn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) neu'n safleoedd Ramsar, gydag amrywiaeth o gynefinoedd fel morfeydd heli arfordirol, corsydd pori, gwastadeddau llaid, gwelyau cyrs, clogwyni, twyni a graean.

Mae dulliau i reoli'r arfordir fel mesurau atgyfnerthu traethlin, amddiffynfeydd llifogydd, draeniau a chamau i adfer tir wedi bygwth cynefinoedd arfordirol ac wedi creu heriau o ran dulliau rheoli yn y dyfodol.

O'r dynodiadau Ewropeaidd yn yr ABA, mae 60 o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) a 12 o'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) yn ddibynnol ar ddŵr. Mae gan lawer o'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) yn yr ABA gysylltiad agos â'r amgylchedd dŵr hefyd.

Yn achos pob un o'r Safleoedd Ewropeaidd hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n adolygu Amcanion Cadwraeth er mwyn sicrhau bod y safleoedd yn cael statws cadwraeth ffafriol.

Mae'r ABA yn cynnwys llawer o afonydd sy'n dal eogiaid a brithyllod (498 o Ddyfroedd Pysgod Dŵr Croyw) ac mae dros hanner y Brithyllod Môr a gaiff eu dal yng Nghymru a Lloegr yn dod o afonydd Cymru. Yn ogystal â physgod, mae cyrff dŵr a gwlyptiroedd yn yr

ABA yn gartref i nifer o rywogaethau a warchodir (fel Dyfrgwn, y mae eu poblogaeth yn tyfu yng Nghymru) a rhywogaethau â blaenoriaeth a restrir yng Nghynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth (fel yr Herlyn a'r Wangen, Llygoden Bengron y Dŵr, Cimwch yr Afon Crafanc Gwyn a Chregyn Gleision Cywasgedig yr Afon). Mae rhywogaethau goresgynnol yn yr ABA yn cynnwys Clymog Japan, Jac y Neidiwr a Chimwch Afon America.

Ar y môr, mae rhannau o'r amgylchedd morol wedi'u dynodi o fewn y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cynnwys gwahanol lefelau o warchodaeth ac maent yn cynnwys AGAau, ACAau a SoDdGAau sydd â rhannau morol, yn ogystal â Gwarchodfeydd Natur Forol (Ynys Sgomer ac Ynys Wair).

**Gwaelodlin yn y dyfodol - pa wasanaethau cynefin sy'n debygol o gael eu darparu yn y dyfodol heb y cynllun?**

Heb y cynllun, bydd newid hinsawdd yn rhoi mwy o bwysau ar y gwasanaeth hwn, fodd bynnag, mae gwasanaethau cynefin yn debygol o wella'n raddol dros amser yn sgil mentrau eraill a deddfwriaeth sy'n ceisio sicrhau gwelliannau amgylcheddol a'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

Rhagwelir y bydd yr amddiffynfeydd presennol o gwmpas arfordir Gorllewin Cymru yn peri i gynefinoedd rhynglanwol gael eu colli wrth i lefel y môr godi. Caiff hyn effaith arwyddocaol ar nodweddion safleoedd â dynodiadau Ewropeaidd. Rhoddodd y CRhT2au amcangyfrif o'r cynefinoedd a allai gael eu colli a pharatowyd Datganiadau Achos a ddaeth i'r casgliad nad oedd unrhyw opsiynau gwell a bod hwn yn achos o fudd cyhoeddus tra phwysig. Yna, rhoddwyd manylion pecyn cydbwyso arfaethedig. Caiff y pecynnau cydbwyso eu cyflwyno gan y Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol (RhCCG). Y nod yw gwneud iawn am gynefinoedd a gollir cyn iddynt ddiflannu a chaiff prosiectau Lliniaru Llifogydd arfordirol a phrosiectau'r RhCCG eu rhoi ar waith yn unol â pholisïau CRhT2 a chaiff Asesiadau o Reoliadau Cynefinoedd eu cynnal ar lefel prosiect. Nid oes bwriad i ailystyried nac ailadrodd yr ARhCau a gynhaliwyd ar gyfer CRhT2au.

Yn y tymor byr (cyfnod 1 neu hyd at 2025), drwy gynlluniau i weithredu prosiectau creu cynefinoedd, mae'r RhCCG ar y trywydd cywir i greu digon o gynefinoedd i sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r Rheoliadau Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae ardaloedd sy'n destun ceisiadau ailalinio rheoledig yn y dyfodol hefyd yn cael eu harfarnu gan CNC ar hyn o bryd.

**Sut y rhagwelir y bydd CRhPLl Gorllewin Cymru yn effeithio ar y manteision i'r gwasanaeth hwn?**

Mae'r mesurau allweddol a allai effeithio ar y gwasanaeth darparu cynefinoedd yn yr ABA yn cynnwys:

- Gallai gwaith i gynnal a chadw, atgyweirio neu wella asedau presennol ar draws yr ABA arwain at glirio ardaloedd bach o lystyfiant a fydd yn cael effaith negyddol yn y tymor byr ar y gwasanaeth hwn.
- Bydd gwaith carthu i wella sianelau yn effeithio ar gynefinoedd pysgod drwy farwolaethau posibl ymhlith pysgod a lleihad mewn amrywiaeth geomorffolegol a fydd yn cael effaith negyddol yn y tymor byr hyd nes y caiff y cynefinoedd eu hadfer i'w cyflwr naturiol.
- Gall asesiadau carthu i asesu addasrwydd sianelau carthu arwain at newidiadau i drefniadau carthu a chael effaith gadarnhaol yn y tymor hir ar y gwasanaeth darparu cynefinoedd.
- Gallai asesiadau cychwynnol, a allai arwain at waith adeiladu ffisegol, gael effaith negyddol yn y tymor hir yn sgil unrhyw gynllun a fydd yn arwain at golli cynefin yn uniongyrchol. Fodd bynnag, gallent gael effaith gadarnhaol yn y tymor hir os bydd y perygl o lifogydd yn is ac os bydd llai o lifogydd yn amharu ar rywogaethau a chynefinoedd lleol.

Gallai gwaith i ddatblygu cynlluniau lliniaru llifogydd newydd arwain at golli cynefinoedd ar lannau afonydd ac mewn sianelau yn uniongyrchol, gan gynnwys ardaloedd silio pysgod. Gallai gweithgareddau cynnal a chadw, fel carthu, gael effaith negyddol ar gynefinoedd pysgod hefyd drwy leihau amrywiaeth morffolegol y sianel a chynyddu gwaddodiad.  Fodd bynnag, bydd gwaith i adnewyddu amddiffynfeydd llifogydd presennol neu osod rhai

newydd yn eu lle yn rhoi cyfle i wella llwybrau pysgod a llysywod er mwyn cydymffurfio â Chyfarwyddebau Ewropeaidd.

Gallai cynlluniau lliniaru llifogydd a gwelliannau i safonau amddiffynfeydd llifogydd presennol arwain at golli cynefinoedd oherwydd bydd yn rhaid cymryd tir i gyflawni'r gwaith hwn a gallent hefyd newid ffurf a swyddogaeth naturiol cyrsiau dŵr gan effeithio ar yr amrywiaeth o gynefinoedd sydd ar gael i bysgod a rhywogaethau eraill a warchodir (e.e. llygod pengrwn y dŵr). Gallai cynlluniau newydd a ddatblygir a chamau i gyflwyno SDCau a basnau storio llifogydd arwain at newidiadau ym mhroses hydrolegol cynefinoedd sy'n dibynnu ar ddŵr yn yr ardal gyfagos. Fodd bynnag, gallai mesurau fel SDCau a basnau storio llifogydd hefyd gynnwys creu a gwella cynefinoedd fel rhan hanfodol o'r cynllun.

Yn gyffredinol, o ganlyniad i'r CRhPLl, rhagwelir y bydd effaith negyddol fach ar y gwasanaethau darparu cynefinoedd a ddarperir yn ABA Gorllewin Cymru. Bydd yr effeithiau i'w teimlo'n bennaf yn yr ardaloedd o gwmpas y cymunedau lle bwriedir cymryd camau gweithredu, fel y dangosir yn Ffigur 4.7.

Er mwyn lliniaru'r effeithiau negyddol posibl ar y gwasanaeth hwn, câi arolygon ecolegol priodol eu cynnal er mwyn dylanwadu ar gynlluniau a chaiff elfennau pob cynllun eu lleoli'n ofalus er mwyn sicrhau bod cyn lleied o dir a chynefinoedd â phosibl yn cael eu colli. Bydd gwaith plannu newydd yn digwydd hefyd er mwyn gwneud iawn am unrhyw gynefinoedd a gollir gan sicrhau na fydd unrhyw golled net.

**Ffigur 4.7**: **Dosbarthiad yr effeithiau posibl ar wasanaethau darparu cynefinoedd yn ABA Gorllewin Cymru**


No potential effect
Potential positive effect
Potential negative effect
Gronant
Penrhyn Bay
Prestatyn
Rhyl
Llandudno
Towyn
Kinmel Bay
Conwy
Rhuddlan
Pen-y-ffordd
Llanfairfechan
St Asaph / Llanelwy
Ffrith
Bangor
Denbigh
Llanrwst
Greenfield
Tremadog
Porthmadog
Pwllheli
Talsarnau
Dolgellau
Barmouth
Fairbourne
Aberystwyth
Llanrhystud
Aberaeron
Lampeter
Cwmann
Cardigan
Bridgend (Ceredigion)
Llechryd
Llanybydder
Llanwrda
Llangadog
Solva
Abergwili
Haverfordwest
Llanddowror
Little Haven
Llandybie
Ammanford
Ystradgynlais
Stepaside
Pontyates
Dale
Blaengwrach
Pontarddulais
Tenby
Pembrey
Dafen
Loughor
Gowerton
Llansamlet
Penclawdd
Swansea
Cwmafan
Black Pill
Maesteg
Margam
Aberkenfig
Pyle
Sarn
Pencoed
Bridgend
Cowbridge
Dinas Powys
Sully

**Pa mor arwyddocaol fydd y newidiadau a ragwelir i wasanaethau darparu cynefinoedd yn ABA Gorllewin Cymru?**

Ni ragwelir y bydd gweithredu CRhPLl Gorllewin Cymru yn cael effaith arwyddocaol ar y gwasanaethau darparu cynefinoedd yn yr ABA, fodd bynnag rhagwelir y bydd effaith negyddol fach. Bydd yr effaith hon yn bennaf perthnasol i'r cynefinoedd a'r rhywogaethau yn yr ABA oherwydd efallai y bydd llai o amrywiaeth o rywogaethau a llai o gynefinoedd, a hefyd i'r rhai sy'n defnyddio'r afonydd, y llynnoedd a'r aberoedd ac yn ymweld â nhw, oherwydd efallai y bydd y dirwedd yn llai naturiol gyda llai o lystyfiant a gorchudd coed. Nodir effeithiau anuniongyrchol a chronnol y gwelliannau i'r gwasanaeth gwerth esthetig yn Adran 3 isod.

Caiff effeithiau tebygol y cynllun ar nodweddion y safleoedd â dynodiadau Ewropeaidd yn yr ABA eu hasesu o dan y Rheoliadau Cynefinoedd a'u cofnodi mewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân. Mae'n arfer da gwneud hyn yn iteraidd wrth ddatblygu'r cynllun. Felly cynigir y byddwn yn cynnal yr ARhC yn ystod y cyfnod ymgynghori presennol.

### Asesu'r effeithiau ar wasanaethau ategol

Mae gwasanaethau ategol yn sail i'r holl wasanaethau ecosystem eraill a ddarperir. Maent yn cynnwys ffurfiant priddoedd, cylchoedd maeth a dŵr, bioamrywiaeth a'r ddarpariaeth cynefinoedd. Yn yr Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol, nodir bod rhyngberthynas agos iawn rhwng y gwasanaethau hyn ac y cânt eu hategu gan amrywiaeth helaeth o ryngweithiadau ffisegol, cemegol a biolegol. Prin yw ein dealltwriaeth o'r rhyngweithiadau hyn a'u dylanwad ar wasanaethau ategol, yn enwedig pan fyddwn yn eu hystyried ar raddfa ehangach.

Nododd yr asesiad fod y cynllun rheoli perygl llifogydd yn debygol o ddylanwadu ar y gwasanaethau ategol hyn. Fodd bynnag, mae llawer o ansicrwydd ynglŷn â maint tebygol ac, felly, arwyddocâd yr effeithiau hyn. O ganlyniad, rydym wedi rhoi trosolwg o'r effeithiau tebygol yn yr adran hon heb geisio pennu unrhyw arwyddocâd iddynt. Yr eithriad yn hyn o beth yw'r ddarpariaeth cynefinoedd. Am y gall gweithgareddau rheoli’r perygl o lifogydd

effeithio ar gamau i greu a gwella cynefinoedd yn yr amgylchedd dŵr, rydym wedi mynd i'r afael â hyn yn yr adran ar asesu effeithiau arwyddocaol.

### Ffurfiant pridd

Mae ffurfiant pridd yn y DU yn broses tymor hir sy'n digwydd dros ddegawdau a chanrifoedd. Yn ôl yr Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol, y prif ffactorau sy'n effeithio ar ffurfiant tir a bygythiadau cysylltiedig yn y DU yw defnydd tir, newid hinsawdd a threfoli. Yn ystod yr hanner canrif diwethaf, mae priddoedd amgylcheddol y DU wedi newid yn sylweddol. Gallai'r cynllun rheoli perygl llifogydd hyrwyddo mesurau rheoli tir fel plannu coed newydd. Gall cynlluniau mawr i blannu coed ar dir amaethyddol ddylanwadu ar ffurfiant pridd am fod coed yn ymwreiddio'n ddyfnach ac am fod sbwriel a sylweddau organig yn cronni ar yr arwyneb, sy'n debygol o effeithio ar nodweddion ffisegol a chylchoedd maeth.

### Cylchoedd maeth

Mae cylchoedd maeth yn cyfeirio at y ffordd mae planhigion a'u hamgylcheddau yn amsugno, yn defnyddio, yn rhyddhau ac yn storio maethynnau. Nododd yr Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol mai'r duedd fwyaf dramatig mewn cylchoedd nitrogen dros y 50 mlynedd diwethaf yw bod cynefinoedd daearol y DU yn llawn nitrogen am fod gwrtaith nitrogen yn cael ei ddefnyddio ar dir a reolir ac am fod nitrogen atmosfferig yn cael ei waddodi mewn systemau rhannol naturiol. Gall cynnydd yn y maethynnau sydd ar gael effeithio ar gyfansoddiad ac amrywiaeth cymunedau planhigion, gan ffafrio'r planhigion hynny sy'n tyfu'n gyflym ac sy'n gallu manteisio ar yr adnodd ychwanegol. Ni fydd fawr ddim cysylltiad rhwng y cynllun rheoli perygl llifogydd â'r naill ffynhonnell na'r llall.

### Cynhyrchiant cynradd

Mae cynhyrchiant cynradd yn golygu ffurfio sylweddau biolegol drwy sefydlogi carbon deuocsid drwy ffotosynthesis a chymhathu maethynnau. Ystyrir mai cynhyrchiant bwyd a ffeibr a'r datblygiadau sydd wedi arwain at gynnydd mewn cynhyrchiant dros y 150 o flynyddoedd diwethaf yw'r prif ddylanwad ar gynhyrchiant cynradd. Llwyddwyd i gynyddu cynhyrchiant cynradd yn achos cnydau bwyd drwy ychwanegu maethynnau. Fodd bynnag, bu rhai effeithiau andwyol, yn enwedig pan fo hyn yn effeithio ar gyrff dŵr, ansawdd y dŵr a chyfansoddiad rhywogaethau.  Mewn rhai achosion, mae ewtroffigedd yn digwydd sy'n effeithio ar bysgod, pysgod cregyn ac infertebratau mewn afonydd, llynnoedd ac amgylcheddau morol.

Mae'r cynllun rheoli perygl llifogydd yn cynnwys mesurau i adfer afonydd ac ailgysylltu afonydd â'u gorlifdir a all olygu y caiff llai o orfaethynnau o dir amaethyddol eu golchi i mewn i afonydd.  Bydd hyn yn golygu y caiff gorfaethynnau eu defnyddio'n fwy effeithiol i ddarparu bwyd a ffeibr a bydd yn lleihau'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd dŵr.

### Cylchoedd dŵr

Fel gwasanaethau ecosystem ategol, mae cylchoedd dŵr yn cynnwys y prif lifau dŵr (glaw, anwedd-drydarthiad, llif afon) ac adnoddau storio dŵr (pridd, dŵr daear, llynnoedd) sy'n cyfuno i ddylanwadu ar faint o ddŵr sydd ar gael. Mae gweithgareddau dynol yn dylanwadu'n fawr ar y cylch dŵr, er enghraifft, defnydd tir, draenio, cronni dŵr, newid strwythur afonydd (sydd â chysylltiad penodol â rheoli’r perygl o lifogydd) a thynnu dŵr. Mae'n debygol y caiff effeithiau'r gweithgareddau hyn eu dwysáu gan newid hinsawdd, twf yn y boblogaeth a chynnydd cysylltiedig mewn trefoli. Bydd y ffactorau hyn yn golygu y bydd mwy o gystadleuaeth am adnodd cyfyngedig, yn enwedig yn ystod yr hafau sychach disgwyliedig sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

Mae gwrthdaro wrth reoli adnoddau dŵr yn gyffredin ac mae rheoli llifogydd yn un enghraifft o wrthdaro o'r fath. Gall amddiffynfeydd sy'n cynnwys strwythurau peirianyddol amharu ar y cylch dŵr drwy ddatgysylltu'r afon oddi wrth ei gorlifdir, a bydd mesurau i adfer afonydd a phrosesau naturiol yn helpu i sicrhau bod dŵr ar gael i ddarparu gwasanaethau ecosystem eraill.

### Effeithiau Anuniongyrchol a Chronnol

Gan fod cysylltiad cynhenid rhwng yr amgylchedd naturiol a'r holl wasanaethau ecosystem, ni ellir eu hystyried ar eu pen eu hunain ac maent yn achosi effeithiau anuniongyrchol a chronnol. Mae effaith anuniongyrchol yn digwydd pan fo un o effeithiau'r cynllun yn cael effaith ddilynol ar wasanaeth ecosystem arall ac mae effaith gronnol yn digwydd, er enghraifft, pan fo effeithiau sawl cynllun, polisi a rhaglen yn arwyddocaol gyda'i gilydd, ond nid ar eu pen eu hunain; neu pan fo llawer o effeithiau unigol y cynllun yn cael effaith gyfun.

Cafodd effeithiau cronnol polisïau CRhT2au a CDRhPLl gyda'r mesurau arfaethedig a nodir yn y CRhPLl eu hystyried yn y Tablau Arfarnu Cryno, fodd bynnag, gan fod yr holl

fesurau arfaethedig yn unol â pholisïau mwy strategol y CRhPLlDau a'r CRhT2au, nid oedd unrhyw effeithiau arwyddocaol. Cynhelir ymgynghoriad ar CRhBA drafft Gorllewin Cymru ochr yn ochr â CRhPLl Gorllewin Cymru. Mae'r CRhBA yn cynnig rhaglen o fesurau i wella'r amgylchedd dŵr. Gall mesurau rheoli’r perygl o lifogydd ryngweithio mewn ffordd gadarnhaol a negyddol â'r amgylchedd dŵr. Trafodir y synergeddau a'r gwrthdaro yn fanylach isod.

Ystyrir y cysondeb rhwng CRhPLl Gorllewin Cymru a chynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill, a'r effeithiau cronnol, ym Mhennod 3.

Ystyrir effeithiau anuniongyrchol y cynllun isod:

- Gallai effaith negyddol ar y gwasanaeth bwyd yn yr ABA amharu ar allu'r ABA i ddarparu gwasanaethau cynhyrchu cynradd a gwasanaethau ffotosynthesis o ganlyniad i leihad mewn arwynebedd cnydau.
- Bydd effaith gadarnhaol ar y gwasanaeth rheoleiddio dŵr yn arwain at lai o risg o erydu ac, felly, at wasanaeth rheoleiddio erydiad gwell; llai o risg o halogi o ganlyniad i lifogydd ac, felly, wasanaeth puro dŵr a thrin gwastraff gwell; llai o risg o ddifrod i dir amaethyddol cynhyrchiol a cholli cnydau gan gynyddu'r gwasanaeth cynhyrchu bwyd;
- Gall effaith gadarnhaol ar y gwasanaeth rheoleiddio pridd ac erydiad arwain at fwy o ffurfiant pridd yn yr ABA a phridd mwy cynhyrchiol, felly rhagwelir effaith gadarnhaol gronnol ar y gwasanaethau darparu cynefinoedd a bwyd;
- Gall effaith negyddol ar y gwasanaeth treftadaeth ddiwylliannol drwy ddifrod ffisegol neu ddirywiad i leoliadau asedau treftadaeth arwain at leihad yn nifer yr ymwelwyr ac, felly, at effaith negyddol fach ar y gwasanaeth hamdden a thwristiaeth yn yr ABA;
- Rhagwelir y bydd effaith negyddol ar y gwasanaeth gwerth esthetig yn cael effaith negyddol anuniongyrchol ar y gwasanaeth hamdden a thwristiaeth, drwy amharu ar olygfeydd, lleihau gorchudd llystyfiant a newid amgylcheddau dŵr a fydd yn denu llai o ymwelwyr i'r ABA am fod yr amgylchedd dŵr fel adnodd hamdden i

ddefnyddwyr wedi dirywio. Rhagwelir y bydd hefyd yn cael effaith negyddol ar y gwasanaeth treftadaeth ddiwylliannol yn sgil dirywiad posibl yn lleoliad asedau treftadaeth;

- Bydd effaith negyddol ar y gwasanaeth darparu cynefinoedd yn lleihau maint, gwerth ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau ledled yr ABA, a fydd yn effeithio ar dirweddau, nifer yr ymwelwyr, y gallu i storio carbon a'r gallu i wrthsefyll erydiad tir. Bydd hyn yn effeithio ar nifer o wasanaethau ecosystem, yn enwedig gwerth esthetig, hamdden a thwristiaeth, rheoleiddio'r hinsawdd a rheoleiddio erydiad.

**Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru**

Datblygwyd y CRhPLl ar y cyd â'r diweddariad drafft i CRhBA Gorllewin Cymru, sy'n cynnig rhaglen o fesurau i wella'r amgylchedd dŵr ac ystyriwyd y diweddariad hwnnw. Mae 814 o gyrff dŵr ledled yr ABA gan gynnwys afonydd, dyfroedd arfordirol, llynnoedd, dŵr daear ac aberoedd. Yn 2009, dyfarnwyd bod gan 29% o'r cyrff dŵr statws "da" a chynyddodd hyn i 35% yn 2013. Y problemau dŵr arwyddocaol a nodwyd yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru yw: Addasiadau ffisegol, llygredd o garthion a dŵr gwastraff, llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth, llygredd o ardaloedd gwledig, llygredd o gloddfeydd a rhywogaethau estron goresgynnol.

Gall mesurau rheoli’r perygl o lifogydd ryngweithio mewn ffordd gadarnhaol a negyddol â'r amgylchedd dŵr. Mae mesurau rheoli’r perygl o lifogydd sy'n gweithio gyda phrosesau naturiol er mwyn helpu i arafu llif dŵr a storio dŵr yn tueddu i gael effaith fuddiol ar yr amgylchedd dŵr, tra bod mesurau i adeiladu amddiffynfeydd neu reoleiddio dŵr drwy ddulliau artiffisial yn tueddu i gael effaith andwyol ar yr amgylchedd dŵr. Mae rheoli’r perygl o lifogydd yn un o'r deg rheswm mwyaf cyffredin pam bod corff dŵr yn methu â chyflawni'r amcan a bennwyd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru.  Felly, pan fo angen gweithredu i reoli’r perygl o lifogydd, dyna pam ei bod yn bwysig dewis opsiwn nad yw'n amharu ar yr amgylchedd dŵr ymhellach ac sy'n ceisio cyflawni gwelliannau a chydfuddiannau.

O gofio natur strategol y CRhPLl a'i ehangder, nid ydym wedi cynnal asesiad manwl o fesurau unigol i reoli'r perygl o lifogydd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr oherwydd caiff hyn ei wneud ar lefel prosiect pan fydd mwy o sicrwydd ar gael ynglŷn â'r math o fesur sydd dan sylw a'i leoliad. Fodd bynnag, ystyriwyd yn gyffredinol a oes unrhyw wrthdaro neu synergedd rhwng y CRhPLl a'r CRhBA o ran eu heffeithiau ar wasanaethau ecosystem gan ystyried y camau penodol a gynigir yn y ddau gynllun, a dangosir hyn yn Nhabl 4.1.

**Tabl 4.1: Synergeddau a gwrthdaro rhwng CRhPLl Gorllewin Cymru a CRhBA Gorllewin Cymru**

| Gwasanaeth Ecosystem | Synergedd neu wrthdaro rhwng y CRhBA a'r CRhPLl |
|---|---|
| Bwyd (e.e. cnydau, ffrwythau, bwyd gwyllt a gesglir) | Lle caiff y perygl o lifogydd ei leihau yn yr ABA drwy'r CRhPLl, mae cyfle i annog trefniadau rheoli ardaloedd afonol a rheoli tir cynaliadwy drwy'r CRhBA er mwyn cynyddu cynhyrchiant tir amaethyddol. |
| Ffeibr a thanwydd (e.e. pren a gwlân) | Ni nodwyd unrhyw synergeddau posibl â'r CRhBA ar gyfer y gwasanaeth hwn, fodd bynnag bydd y CRhPLlau yn helpu i gynnal y gwasanaeth yn yr ABA drwy leihau'r perygl o lifogydd a difrod cysylltiedig. |
| Dŵr na chaiff ei yfed (e.e. Ynni dŵr, mordwyo) | Gall y CRhBA arwain at leihad yn y gwasanaeth dŵr na chaiff ei yfed yn yr ABA, drwy fesurau i gael gwared ar goredau a newid prosesau carthu, felly mae effaith gronnol bosibl â'r CRhPLl am y gallai'r cynllun hwn hefyd leihau gallu mordwyo drwy newidiadau i'r prosesau carthu. Hefyd, mae adeiladu coredau er mwyn rheoli'r perygl o lifogydd yn gwrthdaro â nodau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr am y gallant rwystro llwybrau pysgod. Rhaid sicrhau bod pob cored yn cael ei chynllunio'n addas i ddiogelu llwybrau pysgod. |
| Rheoleiddio Ansawdd Aer | Gall mesurau'r CRhPLl gael effaith fach yn y tymor byr, a allai effeithio ar y gwasanaeth hwn ac, felly, yn anuniongyrchol ar ansawdd dŵr ac amcanion y CRhBA. |
| Rheoleiddio'r hinsawdd | Mae effeithiau cadarnhaol y CRhPLl ar reoleiddio'r hinsawdd yn debygol o gyfrannu at amryw o amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac, ar y cyd â'r CRhBA, maent yn debygol o fod o fudd cronnol i'r amgylchedd dŵr. |

| | |
|---|---|
| Rheoleiddio dŵr (e.e. llifogydd) | Gallai mesurau rheoli tir yn y dalgylchoedd sydd ymhellach i fyny afonydd fod o fudd i ymdrechion i reoli'r perygl o lifogydd drwy gynyddu capasiti storio'r ABA, darparu synergedd â'r CRhPLl a lleihau'r perygl o lifogydd mewn ardaloedd sydd ymhellach i lawr afonydd yn yr ABA a'r cymunedau y nodwyd eu bod yn wynebu perygl. |
| Rheoleiddio Pridd ac Erydiad | Bydd y CRhBA yn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth hwn, ond yn y dalgylchoedd ucheldirol yn bennaf, felly ymhell wrth ardaloedd y gwaith arfaethedig. Fodd bynnag, gall y mesurau a gynigir yn y CRhPLl a'r CRhBA fod o fudd i'r gwasanaeth hwn ledled yr ABA. |
| Puro dŵr a thrin gwastraff | Mae gwrthdaro yma â'r CRhBA am mai prif ysgogiad y CRhBA yw gwella ansawdd dŵr. Bydd y CRhPLl yn llywio lleihad yn nifer y gollyngiadau llygryddion/halogyddion catastroffig sy'n digwydd o ganlynid i lifogydd ac felly bydd yn gweithio i wella ansawdd dŵr yn gyffredinol ond gallai gwaith adeiladu gael effaith negyddol. |
| Treftadaeth ddiwylliannol | Gallai fod effaith gronnol â'r CRhBAau gan y bydd y ddau gynllun yn cynnwys gwaith adeiladu ledled yr ABA a allai beri difrod i'r adnodd treftadaeth ddiwylliannol. Rhaid cymryd camau rheoli priodol o'r dechrau er mwyn diogelu'r adnodd hwn. |
| Hamdden a thwristiaeth (mannau glas a gwyrdd hygyrch) | Gallai camau gweithredu'r CRhPLl a'r CRhBA gael effaith gadarnhaol gronnol ar hamdden awyr agored, drwy wella'r seilwaith mynediad a gwella naturioldeb ac ymddangosiad gweladwy sianelau afonydd. |
| Gwerth esthetig (e.e. tirwedd, morlun, tawelwch) | Os caiff cynlluniau o fewn y CRhPLl a'r CRhBA eu cynllunio'n briodol, gellid gwneud gwelliannau i'r dirwedd yn yr ABA yn ehangach yn seiliedig ar gyrsiau dŵr yr ABA. Pan fo'r CRhBA yn cynnig mesurau ar hyd sianelau yn yr aneddiadau, gallai fod cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth. |
| Darparu cynefinoedd | Dylai'r gwelliannau a gyflawnir drwy gamau gweithredu'r CRhPLl ystyried mesurau'r CRhBA a gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i gyrff dŵr gyflawni Statws Ecolegol Da. |

Mae'r prif fesurau arfaethedig yn CRhBA drafft Gorllewin Cymru sy'n gwrthdaro neu'n gyson â'r CRhPLl fel a ganlyn:

**Synergedd**

- **Gwelliannau i lwybrau a chynefinoedd pysgod -** gallai gwaith y CRhPLl i greu sianelau wella llwybrau a chynefinoedd pysgod;
- **Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol** - byddai gwaith y CRhPLl yn ymdrin â rhywogaethau goresgynnol.
- **Mynediad cynaliadwy a rheoli hamdden -** gallai gwaith y CRhPLl wella mynediad i afonydd.
- **Lliniaru effeithiau amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol -** gall gwaith y CRhPLl gynnwys storio dŵr ymhellach i fyny afonydd a chael gwared ar seilwaith glannau caled.

**Gwrthdaro**

- **Arferion amgylcheddol cynaliadwy -** gallai gwaith y CRhPLl sy'n cynnwys cymryd tir amaethyddol amharu ar y defnydd o arferion amaethyddol cynaliadwy am y bydd llai o dir ar gael ar gyfer lleiniau clustogi
- **Gwella llwybrau a chynefinoedd pysgod** - gall gwaith y CRhPLl gynnwys adeiladu seilwaith glannau caled a fydd yn effeithio ar gynefinoedd pysgod, a gallai gwaith carthu effeithio ar gynefinoedd pysgod a lladd pysgod;
- **Lliniaru effeithiau amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol** - gall gwaith y CRhPLl gynnwys adeiladu seilwaith glannau caled a fydd yn effeithio ar y gallu i gyflawni'r amcan hwn;
- **Ymdrin â llygredd aer** - gall gwaith y CRhPLl achosi allyriadau byrdymor a fydd yn effeithio ar ansawdd yr aer;
- **Rheoli gwaddodiad a phrosesau arfordirol priodol** - gall gwaith y CRhPLl gynnwys adeiladu seilwaith glannau caled a fydd yn effeithio ar brosesau gwaddodi;
- **Draenio a rheoli lefelau dŵr** - gall gwaith y CRhPLl gynyddu neu leihau lefelau dŵr dros dro yn dibynnu ar y gofynion gan achosi effaith negyddol, neu gallai gynyddu capasiti'r sianel;
- **Rheoli pysgodfeydd** - bydd angen i waith y CRhPLl ddarparu ar gyfer llwybrau pysgod.

### Crynodeb o'r Effeithiau

Yn gyffredinol, bydd y cynllun yn cael effaith gadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd a rhagwelir y bydd yn effeithio ar nifer o wasanaethau ecosystem penodol:

Gwasanaethau Darparu

- Bwyd (e.e. cnydau, ffrwythau, bwyd gwyllt a gesglir)

Gwasanaethau Rheoleiddio

- Rheoleiddio Dŵr (e.e. llifogydd)
- Rheoleiddio Pridd ac Erydiad

Gwasanaethau Diwylliannol

- Treftadaeth Ddiwylliannol
- Hamdden a Thwristiaeth (gan gynnwys mannau glas a gwyrdd hygyrch)
- Gwerth Esthetig (e.e. tirwedd, morlun, tawelwch)

Gwasanaethau Ategol

- Darparu Cynefinoedd (e.e. Bioamrywiaeth)

Bydd yr effeithiau negyddol yn deillio'n bennaf o waith i adeiladu ar dir amaethyddol, ar gynefinoedd presennol neu aneddiadau. Gall yr ardaloedd hyn gynnwys tirweddau sensitif ac asedau treftadaeth a gallant hefyd ddarparu gwasanaethau hamdden a thwristiaeth y bydd y gwaith adeiladu yn tarfu arnynt. Bydd yr effaith fuddiol ar reoleiddio dŵr yn deillio'n bennaf o'r pwyslais ar weithgareddau i reoleiddio dŵr yn benodol yn yr ABA. Caiff effeithiau'r cynllun eu crynhoi yn Nhabl 4.2.

Bydd yr effeithiau hyn ar y gwasanaethau ecosystem a ddarperir yn yr ABA yn cael amrywiaeth o effeithiau cronnol ac anuniongyrchol. Caiff yr effeithiau cronnol â chynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill eu hasesu uchod, a nodir yr effeithiau anuniongyrchol a ragwelir yn Nhabl 4.2.

**Tabl 4.2**: **Effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl CRhPLl Gorllewin Cymru**

| Gwasanaeth Ecosystem | Effaith CRhPLl Gorllewin Cymru | Effaith Anuniongyrchol CRhPLl Gorllewin Cymru |
|---|---|---|
| Bwyd (e.e. cnydau, ffrwythau, bwyd | Effaith negyddol fach | Effaith negyddol fach ar gynhyrchiant cynradd a |

| | | |
|---|---|---|
| gwyllt a gesglir) | | ffotosynthesis |
| Rheoleiddio Dŵr (e.e. llifogydd) | Effaith gadarnhaol fach | Effaith gadarnhaol ar reoleiddio erydiad, puro dŵr a thrin gwastraff a gwasanaethau bwyd |
| Rheoleiddio Pridd ac Erydiad | Effaith gadarnhaol fach | Effaith gadarnhaol ar wasanaethau bwyd a ffurfiant pridd |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | Effaith negyddol fach | Effaith negyddol ar hamdden a thwristiaeth |
| Hamdden a Thwristiaeth (gan gynnwys mannau glas a gwyrdd hygyrch) | Effaith negyddol fach | Ni ragwelir unrhyw effeithiau anuniongyrchol |
| Gwerth Esthetig (e.e. tirwedd, morlun, tawelwch) | Effaith negyddol fach | Effaith negyddol ar hamdden a thwristiaeth a gwasanaethau treftadaeth ddiwylliannol |
| Darparu Cynefinoedd (e.e. Bioamrywiaeth) | Effaith negyddol fach | Effaith negyddol ar werth esthetig, hamdden a thwristiaeth, rheoleiddio'r hinsawdd a rheoleiddio erydiad |

Ystyriwyd effeithiau cronnol â CRhBA drafft Gorllewin Cymru hefyd, gyda'r CRhPLl yn dylanwadu o bosibl ar y gallu i gyflawni mesurau canlynol y CRhBA:

- Gwelliannau i lwybrau a chynefinoedd pysgod
- Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol
- Mynediad cynaliadwy a rheoli hamdden
- Lliniaru effeithiau amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol
- Arferion amaethyddol cynaliadwy
- Gwella llwybrau a chynefinoedd pysgod
- Lliniaru effeithiau amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol

- Ymdrin â llygredd aer
- Rheoli gwaddodiad a phrosesau arfordirol priodol
- Draenio a rheoli lefelau dŵr
- Rheoli pysgodfeydd

### Crynodeb o Fesurau Lliniaru

Ar gyfer yr effeithiau negyddol posibl a nodir yn yr adrannau asesu uchod, cynigir y mesurau lliniaru canlynol er mwyn osgoi neu leihau'r effeithiau negyddol hyn:

- Ar gyfer y gwasanaeth Bwyd, er mwyn lliniaru'r effeithiau negyddol posibl ar y gwasanaeth hwn, dylid cymryd y mesurau lliniaru canlynol: Lleoli gwaith oddi wrth y graddau uchaf o dir amaethyddol (h.y. tir Gradd 1 neu 2 o dan y Dosbarthiad Tir Amaethyddol); Rhoi gwybodaeth i'r tirfeddianwyr dan sylw a chysylltu â hwy er mwyn lleihau'r effeithiau posibl; a sicrhau bod llwybrau priodol i bysgod, gwelliannau i gynefinoedd pysgod a darpariaethau achub pysgod yn cael eu datblygu wrth wneud gwaith mewn afonydd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth bwyd yn yr ABA yn cael ei gynnal.
- Ar gyfer y gwasanaeth Treftadaeth Ddiwylliannol, er mwyn lliniaru'r effeithiau negyddol posibl, dylid cynnal asesiad treftadaeth ddiwylliannol mewn perthynas ag unrhyw waith ymwthiol, gan wneud cymaint o ddefnydd â phosibl o wybodaeth leol, cyn rhoi'r mesur perthnasol ar waith. Bydd hyn yn sicrhau y caiff yr holl effeithiau ar y dreftadaeth archeolegol neu adeiledig eu rheoli'n briodol;
- Ar gyfer y gwasanaeth Hamdden a Thwristiaeth, er mwyn lliniaru'r effaith bosibl hon, rhaid dylunio gwaith mewn ffordd sy'n briodol i'r ardal leol, gan gytuno â'r cyrff llywodraethu priodol ynglŷn â gorffeniadau a dulliau gwaith ac ystyried gwella'r ardal o gwmpas yr aneddiadau at ddibenion hamdden;
- Ar gyfer y gwasanaeth Gwerth Esthetig, er mwyn lliniaru'r effeithiau, rhaid cynllunio gwaith yn briodol gan ystyried gorffeniadau, dulliau gwaith ac effeithiau gweladwy ar gam cynnar. Dylid ystyried cymeriad tirwedd leol y dref a'r cyffiniau hefyd;
- Ar gyfer y gwasanaeth Darparu Cynefinoedd, er mwyn lliniaru'r effeithiau negyddol posibl, câi arolygon ecolegol priodol eu cynnal er mwyn dylanwadu ar gynlluniau a chaiff elfennau pob cynllun eu lleoli'n ofalus er mwyn sicrhau bod cyn lleied o dir a

chynefinoedd â phosibl yn cael eu colli. Bydd gwaith plannu newydd yn digwydd hefyd er mwyn gwneud iawn am unrhyw gynefinoedd a gollir gan sicrhau na fydd unrhyw golled net.

Yn ogystal â'r mesurau lliniaru hyn ar gyfer gwasanaethau penodol, nodir mesurau diogelu ychwanegol isod er mwyn sicrhau bod y goblygiadau amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau cysylltiedig ynglŷn â gweithredu yn y dyfodol:

- Caiff AAS ei gynnal ar gyfer cynlluniau a strategaethau a ddatblygir gan awdurdodau rheoli perygl llifogydd. Fel rhan o'r broses hon hefyd, nodir cyfleoedd i gynnwys buddiannau amgylcheddol mewn atebion arfaethedig i reoli'r perygl o lifogydd.
- Mae gan gynlluniau presennol eu strwythurau llywodraethu eu hunain sy'n sefydlu mwy o drefniadau arfarnu amgylcheddol. Er enghraifft, cyn gwneud unrhyw addasiadau i gynlluniau rheoli traethlin, bydd yn rhaid dilyn proses i gytuno ar y newidiadau hynny, sy'n cynnwys asesiad amgylcheddol.
- Caiff asesiad effaith amgylcheddol ei gynnal mewn perthynas â phrosiectau sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd.
- Caiff asesiadau perygl llifogydd strategol eu llunio gan awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r rhain yn rhoi cyngor ar y perygl o lifogydd yn yr awdurdod lleol er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â lleoliad datblygiad a mesurau i osgoi cynyddu'r perygl o lifogydd, fel y defnydd o SDCau.
- Os caiff effeithiau andwyol posibl eu nodi ac na ellir eu hosgoi, caiff cynlluniau lliniaru penodol eu datblygu ar gyfer y cynllun dan sylw er mwyn lleihau unrhyw effeithiau i'r eithaf, mewn ymgynghoriad â'r sefydliadau perthnasol. Bydd y canlynol yn berthnasol hefyd ar lefel prosiect:

  1) Caiff asesiad effaith amgylcheddol ei gynnal mewn perthynas â phrosiectau sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd.

  2) Cynhelir asesiadau rheoliadau cynefinoedd er mwyn penderfynu a yw cynllun, strategaeth neu raglen arfaethedig yn debygol o gael effaith andwyol ar uniondeb safle â dynodiad Ewropeaidd.

  3) Asesiad o'r goblygiadau posibl i safleoedd, ardaloedd a thirweddau â dynodiadau cenedlaethol (e.e. SoDdGAau, AHNEau, Parciau Cenedlaethol, Safleoedd

Treftadaeth y Byd), gan gynnwys eu lleoliad.

4) Cynhelir asesiadau'r gyfarwyddeb fframwaith dŵr er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag amcanion y gyfarwyddeb, lle bo hynny'n ymarferol.

## 5. Monitro effeithiau'r cynllun

Mae'r adran hon yn nodi'r gwaith monitro a gynigir gennym er mwyn deall effeithiau arwyddocaol y cynllun yn ymarferol. Mae CNC ac eraill yn monitro'r amgylchedd dŵr yn ofalus ac felly cynigiwn y dylid manteisio ar y trefniadau sydd eisoes ar waith.

Mae angen mesurau i fonitro'r effeithiau arwyddocaol y mae'r cynllun rheoli perygl llifogydd yn eu cael ar yr amgylchedd. Mae'n rhaid i'r dangosyddion fod yn ymarferol, yn gost-effeithiol ac yn strategol ac mae'n rhaid iddynt roi gwybodaeth am effeithiau'r cynllun ei hun, yn hytrach na thueddiadau ehangach. Mae'r dangosyddion arfaethedig yn adlewyrchu'r effeithiau y nodwyd eu bod yn arwyddocaol o dan broses yr AAS ac fe'u nodir yn nhabl 5.1. Caiff effeithiau prosiectau unigol mawr eu monitro yn unol â'r gwaith amgylcheddol/cynlluniau monitro a luniwyd pan gynhaliwyd yr asesiad effaith amgylcheddol o'r prosiect.

**Tabl 5.1 Ffynonellau arfaethedig o wybodaeth ar gyfer monitro effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd.**

| Derbynnydd AAS | Dangosydd Monitro Arfaethedig | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| Dŵr | Ni chynigir unrhyw waith monitro ychwanegol | Trefniadau presennol i fonitro statws corff dŵr a thrwy ofynion y Cynllun Rheoli Basn Afon |
| Y boblogaeth ac iechyd dynol | Ni chynigir unrhyw waith monitro ychwanegol | CNC - Niferoedd Pysgota - Trwyddedau pysgota â gwialen a werthir<br><br>Nifer y bobl sy'n defnyddio llwybrau arfordirol a nifer yr ymwelwyr â Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (rhifyddion ymwelwyr mewn lleoliadau penodol)<br>Nifer yr ymwelwyd â Pharciau Cenedlaethol (APC) |
| Bioamrywiaeth, fflora a ffawna | Caiff cynefinoedd a ddarperir drwy brosiectau cyfalaf | Trefniadau presennol i fonitro infertebratau dyfrol a physgod drwy ofynion y Cynllun Rheoli Basn Afon. |

| | | |
|---|---|---|
| | eu monitro a chaiff y wybodaeth ei bwydo i mewn i adroddiadau RhCCG. | Adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru ar y Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol |
| Treftadaeth ddiwylliannol | Caiff statws nodweddion hanesyddol ac archeolegol rhestredig ac anrhestredig eu monitro ar lefel prosiectau unigol. | Cadw, Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru |

## 6. Beth sy'n digwydd nawr?

Mae'r adran hon yn nodi sut i ymateb i'r Adroddiad Amgylcheddol hwn sy'n cyd-fynd â'r CRhPLl drafft. Mae'n cynnwys cwestiynau i'ch helpu i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar yr Adroddiad Amgylcheddol. Mae hefyd yn nodi'r camau nesaf ym mhroses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol hyd at gyhoeddiad y CRhPLl terfynol.

Cyhoeddwyd yr adroddiad amgylcheddol hwn gyda CRhPLl ar 10 Hydref 2014 a bydd yr ymgynghoriad yn para am chwe mis. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 31 Ionawr 2015. Wrth ofyn am eich barn ar yr Adroddiad Amgylcheddol hwn, rydym wedi nodi rhai cwestiynau ymgynghori penodol isod:

---

1. **Ydych chi'n cytuno â chasgliadau'r asesiad amgylcheddol? (ydw / nac ydw)**
   a. **Os nad ydych, eglurwch pam.**

2. **Ydych chi'n meddwl y dylai'r asesiad hwn roi sylw i unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol eraill sy'n gysylltiedig â'r cynllun drafft? (ydw / nac ydw).**
   a. **Os felly, disgrifiwch yr effeithiau hyn.**

3. **Fel rhan o'r adroddiad amgylcheddol, rydym wedi nodi mesurau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol ar yr amgylchedd, yn ogystal â chyfleoedd i effeithio mewn ffordd gadarnhaol ar yr amgylchedd.**
   a. **A oes unrhyw fesurau lliniaru eraill neu gyfleoedd eraill i wella'r amgylchedd y dylem eu hystyried ar gyfer y cynllun? (oes / nac oes)**
   b. **Os felly, rhowch fanylion.**

---

### Sut i ymateb

Byddai'n well gan Cyfoeth Naturiol Cymru pe baech yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost:

Flood.risk.management.plan@naturalresourceswales.gov.uk

Bydd hyn yn eich galluogi i wneud eich sylwadau'n fwy effeithiol ac, ar yr un pryd, bydd yn ein helpu i gasglu a chrynhoi ymatebion yn gyflym ac yn gywir. Fodd bynnag, os hoffech

ymateb mewn ffordd arall, cysylltwch â chanolfan cyswllt cwsmeriaid CNC ar 0300 0653000.

Dylid dychwelyd ymatebion ysgrifenedig erbyn 31 Ionawr 2015 at:
Rachel Siôn
Cyfoeth Naturiol Cymru
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

## Y camau nesaf

Mae'r CRhPLl yn nodi sut y byddwn yn parhau i ddatblygu'r cynlluniau drwy:

- ystyried gwybodaeth newydd;
- mireinio'r dadansoddiad cost a budd;
- ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Wrth i'r cynllun ddatblygu, byddwn yn ystyried unrhyw effeithiau y gall hyn eu cael ar yr amgylchedd fel rhan o'n gofynion o ran asesiadau amgylcheddol strategol. Caiff y CRhPLl a fabwysiadir ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2015. Ar y cyd â'r cynllun, cyhoeddir Datganiad ar Fanylion Amgylcheddol a fydd yn cynnwys y canlynol:

- Crynodeb o'r ffordd y cafodd ystyriaethau amgylcheddol eu cynnwys yn y cynllun.
- Crynodeb o'r ffordd y cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft a'r adroddiad amgylcheddol eu hystyried (gan groesgyfeirio â'r adroddiad manwl ar yr ymateb i'r ymgynghoriad)
- Crynodeb o'r ffordd y mae'r cynllun wedi newid ers y cynllun drafft a beth mae hyn yn ei olygu yn nhermau newidiadau i'r effeithiau amgylcheddol a nodwyd yn yr adroddiad amgylcheddol.
- Y rhesymau dros ddewis y cynllun a fabwysiedir yng ngoleuni'r dewisiadau amgen.
- Y mesurau a fabwysiedir er mwyn monitro effeithiau'r cynllun.

## Atodiad A: Cynlluniau, polisïau a rhaglenni a adolygwyd ar gyfer yr AAS

**Cefndir**

Mae AAS yn gofyn am ddealltwriaeth dda o gyd-destun strategol a chyd-destun polisi'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLl), er mwyn nodi meysydd o ddylanwad a thensiwn sy'n debyg i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni (PCRhau) eraill a helpu i ddatblygu'r gwaelodlin amgylcheddol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y CRhPLl yn gadarn, yn realistig ac yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb AAS.

Mae angen i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr Adroddiad Amgylcheddol. Caiff yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys ei nodi yn Atodiad I o'r Gyfarwyddeb AAS ac fe'i hamlinellir isod ynghyd â chanllawiau dehongli swyddogol:

Mae Atodiad 1 (a) yn galw am:
*"An outline of the contents, main objectives of the plan or programme and relationship with other relevant plans and programmes."*

Canllawiau CE: Mae gwybodaeth am y gydberthynas â chynlluniau neu raglenni eraill yn gosod y cynllun neu'r rhaglen mewn cyd-destun ehangach: er enghraifft, gall ymwneud â'i safle yn y broses gwneud penderfyniadau neu'i gyfraniad ymhlith cynlluniau neu raglenni eraill i newidiadau yn amodau amgylcheddol ardal benodol. Felly gall cynlluniau neu raglenni perthnasol gynnwys unrhyw rai ar lefelau eraill mewn hierarchaeth y mae'r cynllun neu'r rhaglen wirioneddol yn rhan ohoni neu rai a gaiff eu llunio ar gyfer sectorau eraill sy'n effeithio ar yr un ardaloedd neu ardaloedd cyfagos.

Mae Atodiad I (e) yn ei gwneud yn ofynnol i nodi'r canlynol:
*"The environmental protection objectives, established at international, Community or Member State level, which are relevant to the plan or programme and the way those objectives and any environmental considerations have been taken into account during its preparation."*

Canllawiau CE: Dylai'r amcanion amddiffyn amgylcheddol y dylid ymdrin â nhw gynnwys y materion a restrir ym mharagraff (f) o leiaf[6]. Caiff amcanion Rhyngwladol a Chymunedol eu cynnwys yn aml mewn amcanion ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a gallai'r rhain yn aml fod yn ddigonol at y diben hwn. Dylid nodi bod y paragraff yn ymdrin ag amcanion sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen, a fyddai'n awgrymu eu bod yn berthnasol i effeithiau arwyddocaol tebygol y cynllun neu'r rhaglen neu'r problemau a godir gan y cynllun neu'r rhaglen.

**1.2 Methodoleg**

Datblygodd Cyfoeth Naturiol Cymru restr o PCRhau perthnasol i'w hadolygu, yn seiliedig ar restr gychwynnol a gafodd ei llunio yn ystod y cam cwmpasu a'i haddasu yn dilyn ymgynghoriad. Mae'n blaenoriaethu PCRhau cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol. Mae'r rhestr yn llawer byrrach na'r arfer ar gyfer yr elfen hon o AAS ac felly mae'n dilyn canllawiau CE uchod ynglŷn ag (a) cynnwys amcanion amgylcheddol rhyngwladol a CE mewn cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol mewn ffordd benodol neu amhenodol a (b) ystyried perthnasedd PCRhau, gan gadw arwyddocâd effeithiau ar dderbynnydd amgylcheddol penodol mewn cof. Cafodd cynlluniau Awdurdodau Lleol eu hadolygu er mwyn cael gwybodaeth ofodol allweddol am gynllunio gan ganolbwyntio ar ddefnydd tir arwyddocaol tebygol ar lefel y CRhPLl. Cafodd pob PCRh eu hadolygu er mwyn nodi unrhyw gysylltiadau perthnasol â'r Cynllun drafft. Amlygwyd unrhyw PCRhau a allai helpu i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Llifogydd.

Ceir crynodeb o'r PCRhau perthnasol a adolygwyd yn Adran 2 isod ac fe'u rhennir o dan y penawdau isod:

- Dŵr (adnoddau dŵr, cwmnïau dŵr, llifogydd ac erydu arfordirol);
- Cynllunio Gofodol / Poblogaeth
- Bioamrywiaeth

[6] *(f) the likely significant effects on the environment, including on issues such as biodiversity, population, human health, fauna, flora, soil, water, air, climatic factors, material assets, cultural heritage including architectural and archaeological heritage, landscape and the interrelationship between the above factors.*

- Hamdden
- Daeareg, Priddoedd ac Amaethyddiaeth
- Asedau Materol (e.e. trafnidiaeth)
- Gwastraff
- Hinsawdd
- Tirwedd
- Treftadaeth Ddiwylliannol

Yr amcan oedd canolbwyntio ar y PCRhau mwyaf perthnasol. Daw pob cofnod yn y tabl cryno isod o adolygiad manylach o bob un o'r dogfennau a restrir. Roedd yr asesiad manylach yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Teitl, awdur a dyddiad cyhoeddi'r PCRh penodol a oedd yn cael ei adolygu;
- P'un a allai'r PCRh helpu i gyflawni'r CRhPLl;
- Crynodeb o nodau, amcanion a materion y PCRh yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r Cynllun drafft;
- Trafodaeth ynglŷn ag unrhyw ddylanwad y gallai'r PCRh ei gael ar y Cynllun drafft;
- Trafodaeth ynglŷn ag unrhyw ddylanwad y gallai'r Cynllun drafft ei gael ar y PCRh;
- Trafodaeth ynglŷn â'r ffordd y dylid ystyried y PCRh yn ystod y broses AAS.

**Crynodeb o'r adolygiad o PCRhau perthnasol**

| **Teitl, awdur, dyddiad** | **Amcanion** | **Meysydd o synergedd a gwrthdaro mewn perthynas â'r CRhBA** |
|---|---|---|
| | ***PCRhau Cenedlaethol*** | |
| | *Dŵr* | |
| Llywodraeth Cymru (2011) Deall y risgiau, grymuso cymunedau, datblygu gwydnwch; Strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli’r | Mae'n gosod y fframwaith cenedlaethol ar gyfer rheoli’r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol gan nodi pedwar amcan cyffredinol:<br>• lleihau effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a’r amgylchedd<br>• cynyddu ymwybyddiaeth pobl o’r perygl o lifogydd ac erydu | Mae'r polisi yn gyson â nodau ac amcanion y CRhPLl ac yn cydnabod ei bod yn bwysig ymgysylltu â chymunedau a gweithio mewn partneriaeth er mwyn rheoli’r perygl o lifogydd yn effeithiol. Bydd gweithredu'r CRhPLlau yn helpu i gyflawni amcanion y polisi am strategaeth rheoli perygl |

| | | |
|---|---|---|
| perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru | arfordirol a'u cynnwys yn yr ymateb i'r perygl hwnnw;<br>• darparu ymateb effeithiol a pharhaus i lifogydd ac erydu arfordirol;<br>• blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf. | llifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru. |
| Llywodraeth Cymru (2011) Datganiad Strategol ar y Polisi Strategol ar Ddŵr | Mae'n rhoi arweiniad clir i Ofwat, y cwmnïau dŵr, rheoleiddwyr a phartïon eraill â diddordeb ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran dŵr.<br><br>Mae'n tynnu sylw at feysydd y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn y dyfodol gan gynnwys ansawdd dŵr yfed, amddiffyn yr amgylchedd a sicrhau cyflenwadau a gwella gwydnwch. | Mae'r CRhPLlau yn gyson â'r polisi hwn ar y cyfan, wrth hyrwyddo amgylchedd dŵr diogel a chynaliadwy. Fodd bynnag, rhaid i'r CRhPLlau sicrhau nad yw ymdrechion i reoli'r perygl o lifogydd yn amharu ar ansawdd dŵr na'r cyflenwad dŵr. |
| Llywodraeth Cymru (2007) Gwneud yn Fawr o Arfordir Cymru: Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol Cymru | Mae'n ymdrin â rheoli adnoddau arfordirol yng Nghymru mewn ffordd integredig a hyddysg, gan sicrhau bod yr asedau hyn yn cael eu cynnal a'u gwella er budd cenedlaethau nawr ac yn y dyfodol. | Mae'r strategaeth yn gyson â'r CRhPLlau gan ei bod yn darparu fframwaith cyfannol ar gyfer rheoli'r arfordir, gan gynnwys amddiffyn yr arfordir ac ardaloedd mwy mewndirol rhag llifogydd arfordirol. Gwneir hyn a gwneir gwelliannau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol eraill er mwyn cynyddu potensial arfordir Cymru i'r eithaf. |
| *Cynllunio Gofodol / Poblogaeth* | | |
| Llywodraeth Cymru (2012) Polisi Cynllunio Cymru (gan gynnwys Nodiadau Cyngor Technegol: Gwarchod Natur a Chynllunio, Dylunio, Twristiaeth, | Mae'n nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru ac amcanion polisi allweddol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) yng Nghymru, sy'n adlewyrchu'r agenda datblygu cynaliadwy. | Bydd y CRhPLlau yn helpu i gyflawni nodau ehangach Polisi Cynllunio Cymru drwy ei gwneud hi'n bosibl i fodloni gofynion TAN15 mewn mwy o feysydd. Rhaid cymryd gofal i sicrhau na chydymffurfir â TAN15 ar draul dogfennau TAN eraill, fel Cadwraeth Natur a Dylunio. |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu a Pherygl Llifogydd, Trafnidiaeth, Gwastraff, Ynni Adnewyddadwy, Cynllunio Arfordirol) | | |
| Llywodraeth Cymru (2013) Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013 - 2020. Partneriaeth ar gyfer Twf | Mae'n nodi'r blaenoriaethau i greu diwydiant twristiaeth llewyrchus a chystadleuol yng Nghymru. Mae'n nodi sut y caiff twristiaeth yng Nghymru ei hyrwyddo a'i chyfleu yn fwy effeithiol a sut y caiff buddsoddiad ei gyfeirio er mwyn gwella ansawdd a dewisiadau i'r defnyddiwr. | Bydd CRhPLlau yn sicrhau bod twristiaid a busnesau mewn ardaloedd twristaidd (yn enwedig ar hyd yr arfordir) yn cael eu hamddiffyn rhag llifogydd a niwed i'w bywydau, eu bywoliaeth a'r ardal leol y maent yn dibynnu arni, gan gefnogi amcanion y Strategaeth ar gyfer Twristiaeth. |
| Llywodraeth Cymru (2010) Cynllun Datblygu Gwledig Cymru (2007-2013 a 2014-2020) | Mae'n nodi mesurau ar gyfer ardaloedd gwledig yng Nghymru, gan gynnwys hyrwyddo gwybodaeth a gwella potensial pobl; ailstrwythuro a datblygu potensial ffisegol a hyrwyddo arloesedd; targedu ymdrechion i wneud defnydd cynaliadwy o dir amaethyddol; targedu ymdrechion i wneud defnydd cynaliadwy o dir coedwigaeth; arallgyfeirio'r economi wledig; a gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig. | Mae'r CRhPLlau yn gyson â'r cynllun hwn am y byddant yn lleihau'r perygl o lifogydd ac felly yn hyrwyddo prosesau datblygu a grymuso gwledig.<br><br>Wrth roi camau datblygu gwledig ar waith, rhaid ystyried unrhyw gynnydd posibl yn y perygl o lifogydd neu waith datblygu mewn parthau llifogydd presennol. |
| Llywodraeth Cymru (2008) Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru | Mae'n integreiddio agweddau gofodol ar strategaethau cenedlaethol ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol a datblygu economaidd, iechyd, trafnidiaeth a'r amgylchedd, gan roi dyletswydd datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar waith. | Bydd y CRhPLl yn cyd-fynd â Chynllun Gofodol Cymru i leihau'r effeithiau andwyol y gallai llifogydd eu cael ar iechyd pobl, yr amgylchedd, treftadaeth ddiwylliannol a gweithgarwch economaidd, gan helpu i gyflawni'r Cynllun. |
| Llywodraeth Cymru (2008) Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru | Mae'n nodi cynigion i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud datblygu cynaliadwy yn realiti i bobl Cymru a manteision hyn i bobl, yn enwedig mewn cymunedau llai cefnog. | Bydd y CRhPLl yn cyd-fynd â Chynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru i leihau'r effeithiau andwyol y gallai llifogydd eu cael ar iechyd pobl, yr amgylchedd, treftadaeth ddiwylliannol a gweithgarwch economaidd, gan helpu i |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyflawni'r cynllun. Mae angen ystyried materion economaidd-gymdeithasol, materion amgylcheddol a materion diogelu treftadaeth ehangach o fewn y CRhPLl. |
| | *Bioamrywiaeth* | |
| Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (2010) Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru | Mae'n nodi'r prif ysgogiadau ymarferol, deddfwriaethol a pholisi ar gyfer amddiffyn, adfer a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru gan amlinellu'r dulliau o hyrwyddo gweithredu cadarnhaol ac egluro rolau a chylchoedd gwaith y rhai sy'n gyfrifol am ymdrin â bioamrywiaeth. | Bydd y CRhPLl yn amddiffyn rhag llifogydd arfordirol ac afonol a all arwain at golli cynefinoedd a rhywogaethau. Fodd bynnag, wrth roi'r CRhPLl ar waith, rhaid sicrhau bod pob cam ymarferol yn cael ei gymryd i amddiffyn, digolledu a gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd er mwyn cyd-fynd â'r fframwaith hwn. |
| Comisiwn Coedwigaeth Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) (2009) Strategaeth Coetiroedd Cymru | Mae'r Strategaeth yn nodi nodau ac amcanion ar gyfer holl goetiroedd a choed Cymru, rôl coetiroedd a choed wrth gyflwyno manteision economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol a'r cyfraniad y gallant ei wneud i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd. | Mae'r strategaeth hon yn gyson â'r CRhPLlau gan y bydd mwy o goetir ledled Cymru yn lleihau'r perygl o lifogydd drwy gynyddu'r adnoddau storio dŵr mewn dalgylchoedd, sy'n unol ag amcanion y CRhPLlau. |
| Llywodraeth Cymru (2008) Strategaeth Pysgodfeydd Cymru | Strategaeth ar gyfer rheoli a datblygu pysgodfeydd yng Nghymru gan gynnwys dyframaethu, pysgodfeydd masnachol a physgodfeydd hamdden tan 2020. | Mae datblygu pysgodfeydd yng Nghymru drwy wella cynefinoedd pysgod, cael gwared ar bethau sy'n rhwystro pysgod rhag symud (argaeau, coredau ac ati), yn aml yn gwrthdaro'n uniongyrchol ag ymdrechion i reoli'r perygl o lifogydd, ac felly mae'n rhaid ceisio sicrhau cydbwysedd. Mae'n rhaid i'r CRhPLlau ystyried ffyrdd o reoli poblogaethau pysgod yn afonydd ac aberoedd Cymru mewn ffordd gynaliadwy gan gyflawni eu hamcanion ar yr un pryd. |
| Llywodraeth Cymru (2006) | Mae'n rhoi'r fframwaith ar gyfer sicrhau amgylchedd sy'n lân, yn | Bydd rhai o'r amcanion allweddol a nodir yn y |

| | | |
|---|---|---|
| Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru | iach, yn fiolegol amrywiol ac a gaiff ei werthfawrogi gan bobl yng Nghymru. | Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, fel mynd i'r afael â newid hinsawdd a pheryglon amgylcheddol (llifogydd), yn helpu i leihau'r perygl o lifogydd mewn llawer o ardaloedd ac yn helpu i gyflawni amcanion y CRhPLlau. Rhaid cymryd gofal i sicrhau na fydd ymdrechion i leihau'r perygl o lifogydd, drwy brosiectau i wella amddiffynfeydd yn fwyaf arbennig, yn amharu ar asedau ecolegol, treftadaeth, tirwedd a materion amgylcheddol sensitif eraill. |
| Llywodraeth Cymru (2012) Cynnal Cymru Fyw: Papur Gwyrdd ar Ffordd Newydd o Reoli Adnoddau Naturiol Cymru | Arweiniodd yr ymgynghoriad hwn at ymrwymiadau polisi sy'n cael eu rhoi ar waith o dan y rhaglen rheoli adnoddau naturiol. Mae'r rhaglen yn cynnwys polisi rheoli adnoddau naturiol, Bil yr Amgylchedd ac ymgorffori'r dull Ecosystemau. | Mae'r ymgynghoriad hefyd yn nodi awydd i herio dulliau traddodiadol o reoli llifogydd. Mae'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar reoli'r perygl o lifogydd yn ei gyfanrwydd, gan ddechrau drwy gadw mwy o ddŵr yn yr ucheldiroedd ac arafu ei hynt, gan adael i fwy o iseldiroedd gael eu gorlifo'n naturiol er mwyn gwasgaru'r effeithiau. Bydd y CRhPLlau yn gwella'r gwasanaeth perygl llifogydd a ddarperir gan ecosystemau Cymru. |
| | *Hamdden* | |
| Llywodraeth Cymru (2005) Dringo'n Uwch - Strategaeth 20 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru | Mae'n ceisio cynyddu cyfraniad chwaraeon a gweithgarwch corfforol at les yng Nghymru i'r eithaf, ac un o'r targedau yw cynyddu canran y bobl yng Nghymru sy'n defnyddio amgylchedd naturiol Cymru ar gyfer gweithgareddau awyr agored o 36% i 60%. | Mae angen i'r CRhPLlau ystyried y defnydd a wneir o afonydd, llynnoedd a dyfroedd arfordirol Cymru fel adnodd hamdden ac iechyd. Ni ddylai amcanion y CRhPLl amharu ar fynediad i'r dyfroedd hyn fel y gellir parhau i'w defnyddio at ddibenion hamdden. |
| | *Daeareg, Priddoedd ac Amaethyddiaeth* | |
| Llywodraeth Cymru (2009) | Amcan y strategaeth yw creu dyfodol cynaliadwy a phroffidiol i | Mae'r CRhPLlau yn gyson â'r polisi hwn gan y byddant yn |

| | | |
|---|---|---|
| Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu Dyfodol Cadarn - Strategaeth Newydd ar gyfer Ffermio | deuluoedd a busnesau ffermio drwy gynhyrchu a phrosesu cynhyrchion fferm a choedwigaeth gan ddiogelu'r amgylchedd ar yr un pryd. | amddiffyn tir ffermio rhag llifogydd mewn llawer o ardaloedd, gan gynyddu diogelwch a gwydnwch busnesau amaethyddol. |
| Llywodraeth Cymru (2008) Cynllun Gweithredu Priddoedd Cymru - Ymgynghoriad | Mae'n nodi'r achos dros ddatblygu cynllun i addasu i bwysau ar briddoedd yn y dyfodol, gan gynnwys effeithiau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd fel newidiadau yn lefelau carbon priddoedd a strwythur priddoedd. | Gall llifogydd erydu priddoedd yn sylweddol a lleihau cynhyrchiant tir drwy ei orlifo, felly gall lleihau'r perygl o lifogydd arwain at wella ansawdd priddoedd. Ar y llaw arall, gall mwy o ddŵr ymdreiddio i bridd o ansawdd da o gymharu â phridd gwael, a all arwain at lai o ddŵr ffo neu ddŵr ffo arafach ac, felly, at lai o berygl o lifogydd. |
| Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) (2002) Strategaeth Mwyngloddiau Metel Cymru | Strategaeth a ddatblygwyd i asesu'r holl broblemau yn y mwyngloddiau metel hanesyddol a oedd yn achosi'r llygredd mwyaf, gyda'r nod o ddatblygu opsiynau adfer. | Nid oes fawr o gysylltiad rhwng y CRhPLlau a'r strategaeth hon, fodd bynnag bydd y CRhPLlau, drwy leihau gorlifau ar dir ger afonydd y mae eu dŵr a'u gwaddodion wedi'u halogi gan fwyngloddiau metel segur, yn lleihau'r perygl halogi sy'n gysylltiedig â'r mwyngloddiau hyn ac yn gwella ansawdd tir amaethyddol. |
| Llywodraeth Cymru (2001) Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (PCMC) | Mae'n nodi canllawiau ar y polisi cynllunio defnydd tir o ran cloddio am fwynau a datblygiadau cysylltiedig yng Nghymru. | Nid oes fawr o gysylltiad rhwng PCMC a'r CRhPLlau, ond mae PCMC yn cynghori y dylid defnyddio mwynau mewn ffordd gynaliadwy ac felly ni ddylai'r polisïau arwain at gynyddu'r perygl o lifogydd. Rhaid i'r CRhPLlau ystyried yr adnoddau mwynol mewn unrhyw ardaloedd lle bwriedir gwneud gwaith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro rhwng y polisïau. |
| *Asedau Materol* | | |
| Llywodraeth Cymru (2008) | Mae'n hyrwyddo rhwydweithiau trafnidiaeth cynaliadwy sy'n | Bydd y CRhPLlau yn amddiffyn seilwaith trafnidiaeth allweddol |

| | | |
|---|---|---|
| Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | diogelu'r amgylchedd ac yn atgyfnerthu bywyd economaidd a chymdeithasol Cymru. | rhag llifogydd a difrod llifogydd, a fydd yn gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth ac yn lleihau tagfeydd ac oedi. |
| | *Gwastraff* | |
| Llywodraeth Cymru (2010) Strategaeth Wastraff ar gyfer Cymru: Tuag at Ddyfodol Diwastraff 2009-2050 | Mae'r strategaeth yn gosod nod hirdymor o gael gwared ar wastraff yn gyfan gwbl erbyn 2050 a nod tymor canolig o greu cymdeithas â lefelau ailgylchu uchel erbyn 2025. Ategir hyn gan ystod o dargedau eraill ar gyfer ailgylchu a rheoli gwastraff, gan gynnwys gwastraff masnachol a diwydiannol. | Un o effeithiau anuniongyrchol y CRhPLlau yw y byddant yn lleihau gwastraff a gynhyrchir o ganlyniad i ddifrod llifogydd, a fydd yn golygu y bydd llai o ddeunydd yn mynd i safleoedd tirlenwi a llai o gynhyrchion newydd yn cael eu prynu. Bydd lleihau gwastraff yn genedlaethol yn ffordd o liniaru effeithiau newid hinsawdd yn y tymor hir ac yn lleihau'r perygl o lifogydd, gan gyfrannu at amcanion y CRhPLlau. |
| | *Hinsawdd* | |
| Llywodraeth Cymru (2010) Cymru Carbon Isel | Mae'n nodi sut y gall Cynllun Gofodol Cymru fod yn ffordd o newid i ynni carbon isel ac mae hefyd yn rhoi gwybodaeth gefndirol ac awgrymiadau i alluogi rhanbarthau yng Nghymru i ddewis blaenoriaethau lleihau carbon i'w cyflawni. | Mae'r cynllun hwn yn gyson â'r CRhPLlau oherwydd, yn y tymor hir, bydd cynnydd mewn cynhyrchiant ynni carbon isel yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cyfraddau cynhesu byd-eang ac, felly, unrhyw gynnydd yn lefel y môr. Bydd hyn yn atal cynnydd pellach yn y perygl o lifogydd ar arfordiroedd ac aberoedd o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr a bydd digwyddiadau eithafol yn llai difrifol ac yn digwydd yn llai aml. |
| Llywodraeth Cymru (2010) Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd | Mae'n nodi bwriadau polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd ac yn ymhelaethu ar yr ymrwymiadau a nodir yn Cymru'n Un. Mae'r strategaeth yn ailddatgan ymrwymiadau Cymru'n Un i ostwng lefelau carbon 3 y cant bob blwyddyn ac yn amlinellu disgwyliadau ar gyfer busnesau a'r gymdeithas erbyn 2020. | Bydd y Strategaeth yn helpu i leihau'r perygl o lifogydd ar arfordiroedd ac aberoedd o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr a bydd digwyddiadau eithafol yn llai difrifol ac yn digwydd yn llai aml. Bydd y CRhPLlau yn ystyried y cynnydd a ragwelir yn lefel y môr a'r cynnydd mewn digwyddiadau eithafol o ganlyniad i'r newid a ragwelir |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn yr hinsawdd dros y ganrif nesaf a thu hwnt, ac felly byddant yn cyfrannu at y camau gofynnol i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a nodir yn Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. |
| Llywodraeth Cymru (2010) Chwyldro Carbon Isel - Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru | Mae'n nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni carbon isel yng Nghymru, ac mae'r nodau'n cynnwys gwella effeithlonrwydd ynni tai, cynhyrchu ynni'n lleol, defnyddio ynni gwynt ar y môr ac ar y tir, ynni ffrwd llanw a thonnau, ynni dŵr, ynni geothermol a biomas a gosod technoleg dal carbon ymhob gorsaf bŵer tanwydd ffosil newydd. | Yn y tymor hir, bydd cynnydd mewn cynhyrchiant ynni carbon isel yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cyfraddau cynhesu byd-eang ac, felly, unrhyw gynnydd yn lefel y môr. Bydd hyn yn atal cynnydd pellach yn y perygl o lifogydd ar arfordiroedd ac aberoedd o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr a bydd digwyddiadau eithafol yn llai difrifol ac yn digwydd yn llai aml. |
| Llywodraeth Cymru (2012) Paratoi Cymru ar gyfer Hinsawdd sy'n Newid. Ynni Cymru: Newid Carbon Isel | Ei nod yw gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru - er mwyn sicrhau ansawdd bywyd gwell i genedlaethau nawr ac yn y dyfodol drwy greu economi carbon isel, gynaliadwy i Gymru. | Bydd y CRhPLlau yn ystyried y cynnydd a ragwelir yn lefel y môr a'r cynnydd mewn digwyddiadau eithafol o ganlyniad i'r newid a ragwelir yn yr hinsawdd dros y ganrif nesaf a thu hwnt, ac felly byddant yn cyfrannu at y camau gofynnol i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a nodir yn Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. |
| *Tirwedd* | | |
| | | |
| *Treftadaeth Ddiwylliannol* | | |
| Partneriaeth Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd (2010) Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru | Mae'r adroddiad yn cyflwyno dadl economaidd bod yr amgylchedd (yr amgylchedd hanesyddol yn benodol) yn hanfodol i ffyniant Cymru. | Mae'r ddogfen yn rhoi tystiolaeth gefndirol o blaid gwarchod yr amgylchedd hanesyddol, sy'n gallu gwrthdaro ag amcanion y CRhPLl sy'n ceisio lleihau'r perygl o lifogydd. |
| **PCRhau Rhanbarthol Gorllewin Cymru** | | |
| *Dŵr* | | |

| | | |
|---|---|---|
| Grwpiau Arfordirol - CRhT2 (2009-2012) Amrywiol (Larnog i St Ann's Head; Gorllewin Cymru; Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru) | Mae'r cynlluniau hyn yn gwneud darpariaeth i reoli'r arfordir yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru a thu hwnt, lleihau erydiad arfordirol a llifogydd gan roi ystyriaeth hefyd i gymunedau arfordirol, seilwaith presennol, ardaloedd twristaidd ac amwynder a'r amgylchedd naturiol. | Mae'r CRhPLlau yn gyson â'r CRhT2, gan eu bod yn rhannu'r un amcanion i leihau'r perygl o lifogydd o gwmpas arfordir Cymru. Mae'r CRhPLlau yn ehangach, fodd bynnag, gan eu bod yn ystyried llifogydd afonol a dŵr wyneb hefyd. |
| Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) (Amrywiol) Strategaethau Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch (SRhTDD) | Cynlluniau chwe blynedd yw'r rhain sy'n nodi sut y caiff adnoddau dŵr yn yr ardal berthnasol eu rheoli. Mae dogfennau SRhTDD yn nodi faint o ddŵr sydd ar gael i'w drwyddedu ymhob dalgylch ac yn nodi ble mewn dalgylchoedd y mae gormod o ddŵr yn cael ei dynnu neu ormod o drwyddedau yn cael eu rhoi yn ystod cyfnodau o lif isel. | Bydd llai o weithgareddau tynnu dŵr mewn dalgylchoedd yn cynyddu'r perygl o lifogydd am y bydd mwy o ddŵr yn y sianelau ac mae hyn yn gwrthdaro â nodau'r CRhPLlau. Felly, dylai'r mesurau yn y CRhPLlau ystyried y strategaethau hyn er mwyn sicrhau bod mesurau digonol ar waith i amddiffyn rhag perygl uwch o lifogydd o bosibl. |
| Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) (Amrywiol) Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd Dalgylch | Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi trosolwg o'r perygl o lifogydd (heblaw am lifogydd arfordirol) ymhob dalgylch afon, gan ystyried newidiadau yn yr hinsawdd a threfniadau rheoli tir. Maent yn argymell ffyrdd o reoli'r peryglon hynny nawr a thros y 50-100 mlynedd nesaf. | Mae'r CRhPLl yn gyson â'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd Dalgylch hyn, gan eu bod yn rhannu'r un amcanion i leihau'r perygl o lifogydd o afonydd Cymru. Mae'r CRhPLlau yn ehangach, fodd bynnag, gan eu bod yn ystyried llifogydd arfordirol a dŵr wyneb hefyd. |
| Awdurdodau Lleol - Amrywiol (Amrywiol) Strategaethau Rheoli Dŵr Wyneb | Maent yn amlinellu'r strategaeth rheoli dŵr wyneb ddewisol mewn lleoliad penodol. Yn y cyd-destun hwn, mae dŵr wyneb yn disgrifio llifogydd o garthffosydd, draeniau, dŵr daear a dŵr ffo o dir, cyrsiau dŵr bach a ffosydd sy'n digwydd o ganlyniad i lawiad trwm. | Mae'r CRhPLl yn gyson â'r SRhDWau hyn, gan eu bod yn rhannu'r un amcanion i leihau'r perygl o lifogydd o ddŵr wyneb yng Nghymru. Mae'r CRhPLlau yn ehangach, fodd bynnag, gan eu bod yn ystyried llifogydd arfordirol ac afonol hefyd. |
| Dŵr Cymru (2013) Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft | Mae'n nodi sut y bydd Dŵr Cymru yn sicrhau bod digon o ddŵr ar gael i ymdopi â'r twf disgwyliedig yn y boblogaeth, tai a gweithgarwch economaidd yn ei ardal weithredu, gan ystyried newid | Mae'r cynllun yn ystyried sut i reoli'r amgylchedd dŵr mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau cyflenwadau dŵr yn y dyfodol, a cheir rhywfaint o gysondeb ag amcanion y |

| | | |
|---|---|---|
| | yn yr hinsawdd a'r angen i effeithio cyn lleied â phosibl ar filiau cwsmeriaid a'r amgylchedd. | CRhPLl. Bydd angen i'r CRhPLl sicrhau nad oes unrhyw fesurau a roddir ar waith yn amharu ar y gallu i dynnu dŵr yn y dyfodol at ddibenion yfed. Gallai'r cynllun leihau'r perygl o lifogydd drwy storio a chronni mwy o ddŵr i'w ddefnyddio gan gwsmeriaid. |
| Dŵr Cymru - Cynllun Sychder (Heb ei gyhoeddi) | Mae'r cynllun hwn yn nodi'r camau y bydd Dŵr Cymru yn eu cymryd wrth i sychder ddatblygu, yn ystod sychder a sychder difrifol ac wrth adfer ar ôl sychder er mwyn diogelu ei gyflenwad o adnoddau dŵr. | Mae'r cynllun yn ystyried sut i reoli'r amgylchedd dŵr mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau cyflenwadau dŵr yn y dyfodol a darparu dŵr yn ystod sychder, a cheir rhywfaint o gysondeb ag amcanion y CRhPLl. Bydd angen i'r CRhPLl sicrhau nad oes unrhyw fesurau a roddir ar waith yn amharu ar y gallu i dynnu dŵr yn y dyfodol at ddibenion yfed. Gallai'r cynllun leihau'r perygl o lifogydd drwy storio a chronni mwy o ddŵr i'w ddefnyddio gan gwsmeriaid. |
| *Cynllunio Gofodol / Poblogaeth* | | |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol - Amrywiol (Dyddiadau Amrywiol) Polisi Cynllunio Datblygu | Mae'r cynllluniau yn nodi polisïau ar sut y dylai tir gael ei ddatblygu a'i ddefnyddio. Maent yn cyfeirio gwaith datblygu i leoliadau priodol, gan nodi awydd i warchod yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol. Gan amlaf, caiff tir ei ddyrannu at ddibenion cyflogaeth, preswyl neu fannau agored. | Bydd y CRhPLlau yn cyflawni amcanion y Cynlluniau Datblygu Lleol drwy ryddhau tir newydd ar gyfer datblygiadau posibl ac amddiffyn datblygiadau presennol rhag y perygl o lifogydd. |
| *Bioamrywiaeth* | | |
| Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (amrywiol) Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Eogiaid | Nod y cynlluniau gweithredu yw sicrhau bod yr amcanion a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol ar Eogiaid yn cael eu cyflawni. Maent yn nodi beth sydd angen ei wneud i gefnogi ac adfer poblogaethau eogiaid. | Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar amddiffyn a gwella poblogaethau a chynefinoedd pysgod, ac nid oes fawr o gysondeb rhyngddynt ag amcanion allweddol y CRhPLlau. Fodd bynnag, cydnabyddir bod sianelau afon ac ardaloedd afonol mwy naturiol yn lleihau'r perygl o |

| | | |
|---|---|---|
| | | lifogydd ac yn gwella cynefinoedd pysgod, gan helpu i gyflawni amcanion y CRhPLl. |
| Defra (2010) Cynlluniau rheoli llysywod ar gyfer y Deyrnas Unedig: Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru | Mae cynlluniau rheoli llysywod yn disgrifio statws presennol poblogaethau llysywod ar draws ardaloedd basn afon ac yn asesu cydymffurfiaeth â'r targedau a nodir yn Rheoliadau Cyngor yr UE 110/2007. | Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar amddiffyn a gwella poblogaethau a chynefinoedd llysywen, ac nid oes fawr o gysondeb rhyngddynt ag amcanion allweddol y CRhPLlau. Fodd bynnag, cydnabyddir bod sianelau afon ac ardaloedd afonol mwy naturiol yn lleihau'r perygl o lifogydd ac yn gwella cynefinoedd llysywod, gan helpu i gyflawni amcanion y CRhPLl. |
| *Hamdden* | | |
| | | |
| *Daeareg, Priddoedd ac Amaethyddiaeth* | | |
| | | |
| *Asedau Materol* | | |
| | | |
| *Gwastraff* | | |
| | | |
| *Newid yn yr Hinsawdd* | | |
| | | |
| *Tirwedd* | | |
| Amrywiol (2010) Cynlluniau Rheoli AHNE: Pen Llŷn; Gŵyr; Ynys Môn; Bryniau Clwyd | Mae'r cynlluniau rheoli ar gyfer AHNEau yn cynnwys camau gweithredu i amddiffyn a gwella ansawdd tirwedd yr ardaloedd hyn. | Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar amddiffyn y dirwedd a threftadaeth naturiol, ac nid oes fawr o gysondeb rhyngddynt ag amcanion allweddol y CRhPLlau. Fodd bynnag, cydnabyddir bod gwelliannau i fioamrywiaeth a'r ecosystemau ehangach ac, felly, dreftadaeth naturiol, drwy gynyddu gorchudd coed/llystyfiant mewn dalgylchoedd, creu gwlyptiroedd a sianelau afonydd ac ardaloedd afonol mwy naturiol, yn lleihau'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | perygl o lifogydd, gan helpu i gyflawni amcanion y CRhPLl. |
| Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Eryri, Arfordir Penfro, Bannau Brycheiniog) (2012) Cynlluniau Rheoli | Mae'r cynlluniau rheoli ar gyfer Parciau Cenedlaethol yn cynnwys camau i amddiffyn a gwella'r dirwedd a'r amgylchedd naturiol yn yr ardaloedd hyn, gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal; a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardaloedd hynny. | Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar amddiffyn y dirwedd a threftadaeth naturiol, ac nid oes fawr o gysondeb rhyngddynt ag amcanion allweddol y CRhPLlau. Fodd bynnag, cydnabyddir bod gwelliannau i fioamrywiaeth a'r ecosystemau ehangach ac, felly, dreftadaeth naturiol, drwy gynyddu gorchudd coed/llystyfiant mewn dalgylchoedd, creu gwlyptiroedd a sianelau afonydd ac ardaloedd afonol mwy naturiol, yn lleihau'r perygl o lifogydd, gan helpu i gyflawni amcanion y CRhPLl. |
| *Treftadaeth Ddiwylliannol* | | |
| | | |

## Atodiad B: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cwmpasu

| Ymateb yr ymgynghorai | Camau a gymerwyd gan CNC |
|---|---|
| **Ionawr 2014 CNC - Tîm Asesu Strategol, Llywodraethu** | |
| Egluro a chadarnhau cwmpas gofodol yr ardal dan astudiaeth. Pryder nad yw Aber Hafren yn cael ei hystyried fel endid a'i bod wedi'i rhannu rhwng ABA Gorllewin Cymru ac ABA Hafren a De-orllewin Lloegr | Mae'r ardal dan astudiaeth yr un peth â'r CRhBAau ac fe'i pennwyd ar ôl ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid. Fe'i dangosir yn Ffig 1.1. o'r adroddiad hwn. |
| Nodwyd bod y CRhPLl yn ategu gwybodaeth o gynlluniau eraill. Ymholi a yw'r cynlluniau hyn yn debygol o gael eu hadolygu neu'u diddymu. | Ceir cyfeiriadau o hyd at y cynlluniau presennol, CRhPLlD, CRhT a Strategaethau Llanw ac fe'u defnyddir wrth reoli'r perygl o lifogydd er mwyn pennu'r cyfeiriad strategol. Nid oes unrhyw fwriad i'w hadolygu na'u diddymu ar hyn o bryd. Os a phryd y cânt eu hadolygu neu'u diddymu, cânt eu sgrinio ar gyfer AAS a ARhC. |
| Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r dull asesu, yn enwedig mewn perthynas â chynlluniau presennol | Mae Adran 4 yn nodi ac yn egluro'r dull. Cafodd polisïau presennol eu hystyried yn yr asesiad cronnol a'u defnyddio i groeswirio bod mesurau arfaethedig y CRhPLl mewn Cymunedau sy'n Wynebu Perygl yn cyd-fynd â'r polisïau strategol sylfaenol. |
| Dim ond cyfeiriadau at lifogydd o brif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr a geir. Gofynnwyd a ddylid ystyried llifogydd o afonydd eraill, llynnoedd ac ati hefyd. | Caiff llifogydd o afonydd eraill a llifogydd dŵr wyneb eu hystyried gan yr Awdurdodau Llifogydd Arweiniol lleol sy'n gyfrifol am lunio eu CRhPLlau eu hunain. Eglurwyd hyn ym Mhennod 1 |
| **Ion 2014 Cadw - Ni chafwyd ymateb** | |
| **Awst 2014 CNC - Tîm Asesu Strategol, Llywodraethu** | |
| Gofynnwyd am eglurhad pellach o broses ymgynghori'r AAS a dywedwyd y dylai'r cyrff ymgynghori statudol gael eu cynnwys i raddau mwy. | Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cwmpasu statudol ym mis Ionawr 2014. Ystyriwyd yr ymatebion yn adroddiad cwmpasu dilynol y CRhPLl a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014. Bu oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad oherwydd llifogydd y gaeaf. |
| Gofynnwyd am gadarnhad ynglŷn â'r broses o gwmpasu effeithiau arwyddocaol tebygol mesurau newydd. | Mae'r broses hon yn cyfeirio at ystyried effeithiau amgylcheddol posibl y mesurau a gynigir yn y cynllun. Ni fydd rhai mesurau, fel rhagweld llifogydd, yn cael effaith ar yr amgylchedd ac felly cawsant eu hepgor o'r broses asesu. Eglurwyd hyn yn adran 4 o'r |

| | |
|---|---|
| | ddogfen hon |
| Rhoi mwy o fanylion am y gwaelodlin amgylcheddol a chynnwys rhagor o fapiau. Prin yw'r manylion am y tueddiadau a ragwelir, amcanion amgylcheddol, dangosyddion a thargedau, materion/problemau amgylcheddol arwyddocaol neu arfarniad strategol o'r dewisiadau amgen. | Nodwyd hyn. Ystyriwyd rhagor o fanylion am y gwaelodlin a datblygiad y gwaelodlin yn y Tablau Arfarnu Cryno a chânt eu crynhoi yn yr Adroddiad Amgylcheddol ar gyfer y gwasanaethau ecosystem sy'n debygol o brofi effeithiau sylweddol. Caiff mapiau i ddangos poblogaethau, asedau a chynefinoedd eu cynnwys yn y CRhPLl a'r AA, lle bo hynny'n berthnasol. Nodir y dewisiadau amgen a ystyriwyd yn yr AA hefyd.<br>Yn gyffredinol, y nod yw osgoi dyblygu cynlluniau sy'n bodoli eisoes a'u AAS, gan barhau i fodloni gofynion cyfreithiol Rheoliadau AAS. |
| Dylai Amcanion Amgylcheddol y Cynllun gael eu nodi'n glir. | Nodwyd hyn. Nodir amcanion y CRhPLl (gan gynnwys amcanion amgylcheddol) yn yr adroddiad hwn. |
| Gofynnwyd am y cysylltiad rhwng mapiau perygl llifogydd a mapiau bygythiadau llifogydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar a sut y maent yn cysylltu â'r mapiau bygythiadau llifogydd a'r darpariaethau yn TAN15 | Cyhoeddwyd y mapiau perygl a bygythiadau llifogydd ym mis Rhagfyr 2013. Mae CNC yn parhau i drafod TAN15 â Llywodraeth Cymru. |
| Bydd angen cynnal AAS ac ARhC ar gyfer Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a CRhPLlau a lunnir gan Awdurdodau Lleol a bydd rhaid iddynt gysylltu â'r Tîm Asesu Strategol yn CNC. | Rhoddwyd canllawiau ar CRhPLlau, AAS ac ARhC i Awdurdodau Lleol ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. |
| Ymholiad ynglŷn â statws CRhT Ail Genhedlaeth. | Mae fersiynau drafft o CRhT2au Cymru wedi'u cyhoeddi ond nid ydynt wedi'u cymeradwyo na'u mabwysiadu. Defnyddiwyd polisïau'r CRhT2au drafft yn y CRhPLl. |
| Dylai'r adran ar fioamrywiaeth, fflora a ffawna gynnwys map o safleoedd gwarchodedig a dylai gyfeirio at y broblem o chwalu cynefinoedd a'r angen i sefydlu a chynnal rhwydweithiau ecolegol gweithredol. | Nodwyd hyn ac mae wedi'i gynnwys ym Mhennod 4: Darparu Cynefinoedd (Bioamrywiaeth). |
| Byddai rhagor o wybodaeth am statws cyrff dŵr y GFfD ar draws yr ABA yn ddefnyddiol er mwyn dangos sut mae'r CRhPLl a'r CRhBA yn cael eu cysylltu. | Nodwyd hyn. Nid oes modd dangos y wybodaeth ar lefel ABA yn glir ar fap, ond mae ystadegau wedi'u cynnwys drwy gydol yr adroddiad hwn ac mae synergeddau a gwrthdaro wedi'u hystyried yn yr asesiad a'u nodi ym Mhennod 4. |
| Wrth asesu, dylid ystyried y gallu i | Mae'r CRhPLl ei hun yn ystyried y gallu i |

| | |
|---|---|
| wrthsefyll newid yn yr hinsawdd. | wrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Daeth yr asesiad i'r casgliad nad oes effaith arwyddocaol ar y gwasanaeth ecosystem rheoleiddio'r hinsawdd. |
| **Awst 2014 Cadw - Ni chafwyd ymateb** | |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu’r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw Cyfoeth Naturiol Cymru